| Y Comisiwn Cydraddoldeb a | | £1,700 | £36,353 | £35,151 | £37,660 | **£110,863** |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Hawliau Dynol | | | | | | |
| Grwp Gwalia Cyf | £76,738 | £19,500 | | | | **£96,238** |
| Cyngor Sir Gâr | | | | £92,954 | | **£92,954** |
| Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru | | | | £44,303 | £43,973 | **£88,277** |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg | | £52,600 | | £5,935 | £14,576 | **£73,111** |
| Cyngor Sir Powys | | | | £17,790 | £53,642 | **£71,432** |
| Cyngor Sir Fynwy | | £4,290 | | £14,250 | £51,125 | **£69,665** |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin | | £38,672 | | £16,900 | £12,869 | **£68,441** |
| Bevan | | | | | | |
| Gyrfa Cymru | | £15,900 | | £16,400 | £33,829 | **£66,129** |
| Prifysgol Aberystwyth | | | | £57,203 | | **£57,203** |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent | | £25,285 | £13,585 | £8,200 | | **£47,070** |
| Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru | £3,000 | | | £40,163 | | **£43,163** |
| Iechyd Cyhoeddus Cymru | | | | £11,250 | £11,250 | **£22,500** |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr | | | | £10,500 | £10,500 | **£21,000** |
| United Welsh Housing Association Limited | | | | £20,961 | | **£20,961** |
| Bwrdd Iechyd Addysgu Powys | | | | | £18,701 | **£18,701** |
| Cyngor Sir Penfro | | | | £17,790 | | **£17,790** |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen | | | | £17,790 | | **£17,790** |
| Swyddfa Archwilio Cymru | | | | £17,782 | | **£17,782** |
| Prifysgol Bangor | | | | £2,016 | £12,348 | **£14,364** |
| Ymddiriedolaeth GIG Felindre | | | | £14,000 | | **£14,000** |
| Cyngor Celfyddydau Cymru | | £6,440 | | £707 | £2,184 | **£9,331** |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Caerdydd a'r Fro | | | | | £7,387 | **£7,387** |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful | | | | | £4,734 | **£4,734** |
| Cymdeithas Tai Sir Fynwy | | £3,840 | | | | **£3,840** |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf | | | £2,500 | | | **£2,500** |
| Clwyd Alyn Housing Association Limited | | £2,014 | | | | **£2,014** |
| Wales and West Housing Association Limited | | | £68 | | | **£68** |
| **Cyfanswm** | **£492,503** | **£664,917** | **£1,265,434** | **£3,935,197** | **£2,252,297** | **£8,610,348** |

Ffynhonnell: Gwasanaeth Masnachol y Goron

Nodyn: Mae'r gwerthoedd o fewn y data gwreiddiol wedi'u talgrynnu i fyny / i lawr

# Eitem 4

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

**Ken Skates AC/AM**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth**
**Cabinet Secretary for Economy and Transport**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref MA – P/KS/0111/18

Nick Ramsay AC
Cadeirydd
Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

30th Ionawr 2018

Annwyl Nick,

Yn dilyn y diweddariad diwethaf a dderbyniwyd gan y Pwyllgor ynghylch yr adolygiad o wasanaeth awyr PSO ar 23 Medi 2016, mae'n bleser gennyf gadarnhau bod yr adolygiad wedi'i gyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru.

Gweler y ddolen: https://beta.llyw.cymru/adolygiad-o-opsiynau-ar-gyfer-y-gwasanaeth-awyr-rhwng-gogledd-de-cymru

Yr Cywir,
Ken

**Ken Skates AC/AM**
Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth
Cabinet Secretary for Economy and Transport



Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Ken.Skates@llyw.cymru
Correspondence.Ken.Skates@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd

**NPS-PS-0027-15 Fframwaith Gwasanaethau Proffesiynol –Ymgynghoriaeth Adeiladu (Seilwaith ac Ystadau) – Hedfan**

# Adolygiad o'r Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyhoeddus – Dyfodol Hirdymor

Cefnogir gan Northpoint Aviation Services

rpsgroup.com/uk

**Teitl:** **Adolygiad o'r Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyhoeddus – Dyfodol Hirdymor**

**Dyddiad:** 11 Hydref 2017

**Ein Cyf:** NK018661\GDD

**RPS Planning & Development**
Sherwood House
Sherwood Avenue
Newark
Nottinghamshire
NG24 1QQ

**Ffôn:** 01636 605700
**E-bost:** rpsnewark@rpsgroup.com

# RHEOLI ANSAWDD

| | |
|---|---|
| Paratowyd gan: | RPS |
| Awdurdodwyd gan: | RPS |
| Dyddiad: | 16 Tachwedd 2017 |
| Rhif y Prosiect/ Cyfeirnod y Ddogfen: | NK018661 |

Hanes Diwygio

| Diw. | Dyddiad | Disgrifiad | Awdur | Gwiriwyd |
|---|---|---|---|---|
| | 17/2/2017 | Drafft Gweithredol Cyntaf | CC | BoF |
| | 4/3/2017 | Drafft Gweithredol wedi'i wirio a'i fformatio | FoF | BoF |
| | 20/7/2017 | Drafft Gweithredol wedi'i adolygu yn dilyn adborth cleientiaid | FoF | BoF |
| | 29/09/17 | Addasiadau i'r fformat | APa | GDD |
| | 03/10/17 | Cywiriadau a diweddariadau | APa | GDD |
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |

**HAWLFRAINT © RPS**

Mae'r deunydd yn yr adroddiad hwn yn gyfrinachol. Mae'r adroddiad hwn wedi'i baratoi at ddefnydd RPS Planning & Development yn unig ac ni chaiff ei ddosbarthu na'i ddarparu i unrhyw gwmni nac unigolyn heb i RPS gael gwybod a rhoi caniatâd ysgrifenedig.

# CYNNWYS

**CRYNODEB GWEITHREDOL ............ 1**

Canfyddiadau, Casgliadau ac Argymhellion ............ 5

Argymhellion i'w Gweithredu ar Unwaith: ............ 8

Argymhellion Byrdymor: ............ 14

Argymhellion Tymor Canolig – Hirdymor: ............ 18

**1 CYFLWYNIAD ............ 19**

Y Cefndir i Weithrediad y Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyhoeddus Bresennol ............ 21

Cyfleoedd yn y Dyfodol ............ 23

**2 COLADU'R DYSTIOLAETH ............ 25**

Ffynonellau a Data ............ 26

Methodoleg ............ 27

**3 ASTUDIAETH GWELLA LLWYBR YNYS MÔN (NEU RWYMEDIGAETH GWASANAETH CYHOEDDUS ... 30**

**CYMRU) ............ 30**

Dalgylch a Thybiaethau ............ 30

Methodolegau Rhagamcanu a Ddefnyddiwyd ............ 32

Crynodeb o'r Canlyniadau Allweddol ............ 36

Arfarniad Ansoddol o'r Rhestr Hir ............ 52

Casgliadau ac Argymhellion yr Astudiaeth Ymestyn Llwybrau ............ 55

**4 OPSIYNAU AR GYFER DATBLYGU LLWYBRAU TENAU O FAES AWYR RHYNGWLADOL CAERDYDD 62 ............ 60**

Crynodeb o'r Adolygiad o'r Astudiaeth o Lwybrau Tenau ............ 62

**5 GWERTHUSIAD O GYDYMFFURFIAETH Â NASP - MEYSYDD AWYR YNYS MÔN A PHENARLÂG66 ..... 64**

**6 YSTYRIAETHAU O RAN AWYRENNAU SY'N GYSYLLTIEDIG Â CHAFFAEL GWASANAETHAU RHWYMEDIGAETH GWASANAETH CYHOEDDUS YNG NGHYMRU ............ 66**

**7 OPSIYNAU AR GYFER RHWYMEDIGAETHAU GWASANAETH CYHOEDDUS SY'N YMWNEUD Â ........... 69**

**HEDFAN YNG NGHYMRU YN Y DYFODOL ............ 69**

Dadansoddi'r Farchnad a Rhagamcanu'r Galw ............ 75

Arfarniad Masnachol APEX ............ 79

Rheoliadau Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyhoeddus ............ 93

Casgliadau ............ 93

**8 SENARIOS POLISI STRATEGOL ............ 95**

Y Senarios Polisi ............ 95

Cymhwyso Pwysoliadau Gwahanol yn seiliedig ar Nodau Polisi Strategol ............ 97

**9 DATBLYGIADAU ARLOESOL TREFNIADOL POSIBL YN Y SECTOR HEDFAN YNG NGHYMRU106 ..... 104**

**10 CANFYDDIADAU, CASGLIADAU AC ARGYMHELLION .... 107**
Argymhellion i'w Gweithredu ar Unwaith .... 107
Argymhellion i'w Gweithredu ar Unwaith: .... 108
Argymhellion Byrdymor ar gyfer y Cyfnod hyd at fis Medi 2018 .... 109
Argymhellion Tymor Canolig i Hirdymor (2019 a thu hwnt) .... 119
**ATODIAD A: LLYFRYDDIAETH .... 121**
**ATODIAD B: CYFARFODYDD AC YMGYNGORIADAU .... 123**
**ATODIAD C: TÎM YR ASTUDIAETH .... 125**

# CRYNODEB GWEITHREDOL

## Cyflwyniad

Mae gwasanaethau awyr Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyhoeddus yn ddosbarth cymorth gwladwriaethol hedfan a ganiateir sy'n diwallu angen economaidd-gymdeithasol diffiniedig. Yn yr UE cânt eu llywodraethu gan Reoliad (CE) Rhif 1008/2008 a Rheoliad y Cyngor (CEE) 3577/92.

Cafodd y Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyhoeddus rhwng Maes Awyr Caerdydd a maes awyr sifil a grëwyd yn arbennig yn RAF y Fali, y cyfeirir ato mewn terminoleg hedfan sifil fel Maes Awyr Ynys Môn, ei gweithredu yn gyntaf yn 2007 ac yn ystod y 10 mlynedd ddilynol mae wedi ymsefydlu fel ffordd gyfleus i bobl fusnes deithio'n ôl ac ymlaen rhwng Gogledd-orllewin Cymru a De Cymru ar yr un diwrnod. Mae lefel y defnydd wedi amrywio rhwng 8,500 a 14,700 y flwyddyn gan ddibynnu ar brisiau'r tocynnau, dibynadwyedd y gwasanaeth a dyfalu yn y cyfryngau ynglŷn â graddau'r ymrwymiad gwleidyddol i'w dyfodol hirdymor. Fodd bynnag, mae ffigurau defnyddio dros y misoedd diwethaf wedi dangos tystiolaeth o dwf unwaith eto ar ôl i Van Air gaffael y contract ar frys ar ddechrau 2016 ar ôl i'r gweithredwr blaenorol Links Air golli ei Dystysgrif Gweithredwr Awyr yn dilyn anghydfod hir â'r Awdurdod Hedfan Sifil ac mae hyn i'w groesawu.

Swyddogaeth llwybr y Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyhoeddus, a'r cyfiawnhad dros gefnogaeth Llywodraeth Cymru iddo, yw diwallu'r angen i oresgyn y rhwystr daearyddol a grëir gan yr amseroedd teithio hir ar y trên neu ar y ffordd rhwng Dinas-ranbarth Caerdydd a Gogledd-orllewin Cymru. Mae'r gwasanaeth awyr wedi mwy na haneru'r amseroedd teithio hyn ac, yn hollbwysig, mae'n galluogi pobl fusnes yn y gogledd i deithio i gyfarfod â phobl fusnes yng Nghaerdydd a rhanbarth ehangach De Cymru a dychwelyd adref ar yr un diwrnod, ac fel arall. Byddai hyn yn anymarferol (h.y. byddai angen aros dros nos) neu'n ddiau byddai'n gofyn am ddiwrnod hir iawn pe na bai'r gwasanaeth awyr yn bodoli.

Mae cysylltiadau awyr eraill o'r fath a gefnogir yn gyhoeddus yn nodwedd ar Ucheldiroedd ac Ynysoedd yr Alban ac fe'u ceir mewn llawer o wledydd eraill yn yr UE, yn enwedig yn Llychlyn, Ffrainc, yr Eidal, Sbaen, Portiwgal a Chroatia. Er bod elfen gymdeithasol gref i'r gwasanaeth mewn llawer o'r achosion hyn, yn achos Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyhoeddus Cymru, mae'r mwyafrif helaeth o'r teithiau (a oedd yn amrywio rhwng 68% a 78% rhwng 2014 a 2015) at ddibenion busnes - mae'r rhain wedi'u rhannu'n gyfartal rhwng teithiau gan gyflogeion busnesau preifat a gwahanol fathau o awdurdodau cyhoeddus e.e. Llywodraeth Cymru a llywodraeth leol, awdurdodau lleol a'r sector addysg).

Bydd y contract dros dro y mae'r gwasanaeth yn cael ei weithredu oddi dano ar hyn o bryd yn para tan fis Mai 2017, ond mae ystyriaeth yn cael ei rhoi i ymestyn y terfyn amser hwnnw er mwyn rhoi amser i Weinidogion Cymru benderfynu ar ddyfodol hirdymor y Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyhoeddus yn seiliedig ar yr argymhellion a nodir yn yr adroddiad hwn:

- bydd Gweinidogion Cymru yn ystyried yr argymhellion yn yr adolygiad hwn ac yn cytuno ar ffordd glir ymlaen; ac wedyn
- rhoddir eu penderfyniadau ar waith ac, os penderfynir felly, caiff gwasanaeth y Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyhoeddus ei aildendro yn ddiweddarach eleni i'w gychwyn yn 2018.

Ystyriwyd y materion a drafodir yn yr adroddiad hwn yn unol â Safonau'r Gymraeg a gallwn gadarnhau na fydd parhau â'r Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyhoeddus rhwng Caerdydd ac Ynys Môn yn effeithio ar unigolion sy'n defnyddio'r Gymraeg ac na fydd yn golygu bod y Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.

## Cefndir a Chwmpas yr Adolygiad hwn

Ar ddechrau 2016 comisiynodd Llywodraeth Cymru ddwy astudiaeth i ystyried sut y gellid gwella cysylltedd awyr o fewn ffiniau Cymru, a rhwng Cymru â rhannau eraill o'r DU a rhannau cyfagos o Ewrop:

a) Edrychodd y gyntaf ar welliannau posibl i wasanaeth awyr y Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyhoeddus rhwng Maes Awyr Caerdydd (CWL) a Maes Awyr Ynys Môn (VLY), gan ganolbwyntio ar Ynys Môn a Gogledd-orllewin Cymru (gan gynnwys sut y gellid gwneud defnydd dwysach ac, felly, fwy effeithlon o awyrennau'r Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyhoeddus).

b) Roedd yr ail ar ffurf adolygiad o gyfleoedd i ddatblygu 'llwybrau tenau' Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyhoeddus o Faes Awyr Caerdydd.

Yn ystod ail hanner 2016, comisiynodd Llywodraeth Cymru RPS (a fu'n gweithio gyda Northpoint Aviation, sef awduron yr adroddiadau cynharach) i gynnal adolygiad mwy cynhwysfawr er mwyn nodi dyfodol hirdymor Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyhoeddus y Gwasanaeth Awyr oddi mewn i Gymru.
Roedd yr adolygiad hwn yn cynnwys y canlynol:

i. Opsiynau ar gyfer lleihau costau/cymhorthdal y pen y gwasanaeth presennol rhwng Maes Awyr Caerdydd a Maes Awyr Ynys Môn, gan gynnwys ystyried lleihau nifer yr ehediadau/rhoi'r gorau i ddarparu'r gwasanaeth, a'r gwerth economaidd y mae'r Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyhoeddus yn ei ychwanegu ar hyn o bryd.

ii. Cymharu llwybr y gwasanaeth hwnnw â llwybr amgen posibl rhwng Penarlâg a Chaerdydd.

iii. Edrych ar y rhagolygon ar gyfer gwasanaethau mewnol o Hwlffordd a'r meysydd awyr llai o faint eraill yng Nghymru a chyfuniadau gwahanol ohonynt.

iv. Ystyried yr effaith y gallai penderfyniad diweddar *Asiantaeth Diogelwch Hedfan Ewrop* (EASA) i ardystio awyrennau ag un tyrbin injan (SETs) ar gyfer gwasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus masnachol ei chael o ran dichonoldeb y llwybrau gwahanol sy'n cael eu hystyried.

v. Ystyried y potensial i gynyddu'r gwasanaeth a gynigir, drwy gynyddu maint yr awyren i tua 31 o seddi a chysylltu'r Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyhoeddus â chyrchfannau domestig ac Ewropeaidd deniadol ac, o ganlyniad, ystyried hefyd ofynion posibl y Rhaglen Diogelwch Hedfan Genedlaethol (NASP), lle mae awyrennau sy'n cynnwys mwy na 19 o seddi yn ofynnol ar lwybrau penodol (e.e. allan o Ynys Môn a Phenarlâg).

Gyda'i gilydd, cyfeirir at y corff hwn o waith fel Adolygiad 2016 o Rwymedigaeth Gwasanaeth Cyhoeddus y Gwasanaeth Awyr oddi mewn i Gymru ac mae'n cynnwys cyfres o adroddiadau astudiaethau 'technegol', sy'n gweithredu fel cyfres o atodiadau sy'n ategu'r adroddiad cryno lefel uchaf hwn.

Felly diben yr Adroddiad Cryno hwn yw; crynhoi'r ddealltwriaeth allweddol, y gwaith dadansoddi a'r casgliadau o'r adroddiadau technegol; cyfuno eu canfyddiadau; dod i gasgliadau; a chyflwyno argymhellion i'w hystyried gan Weinidogion Cymru.

Felly, gellir crynhoi cynnwys ei brif adrannau fel a ganlyn:

Adran 1: Mae'n nodi cwmpas yr adroddiad a'r cefndir i weithrediad y Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyhoeddus bresennol.

Adran 2: Mae'n disgrifio'r ffynonellau, y data a'r fethodoleg a fabwysiadwyd.

Adran 3: Mae'n rhoi trosolwg o Astudiaeth Gwella'r Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyhoeddus, gan gynnwys dalgylch llwybr y Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyhoeddus, rhagolygon ar gyfer y llwybr ei hun gan gynnwys y rhai sy'n gysylltiedig â gwahanol welliannau posibl i'r llwybr a rhagolygon eraill ar gyfer gwasanaethau ychwanegol y gallai awyren y Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyhoeddus eu darparu rhwng ei hymrwymiadau o dan y Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyhoeddus. Wedyn cyflwynwyd y gwahanol opsiynau hyn ar gyfer gwella/llwybrau i fod yn destun arfarniad masnachol, asesiad economaidd ac arfarniad WelTAG Cam 1 er mwyn nodi'r rhai mwyaf addawol. Cofnodir casgliadau ac argymhellion yr astudiaeth honno ym mharagraffau 3.26-3.31 o'r adroddiad cryno hwn.

Adran 4: Er bod y gwaith ar y Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyhoeddus wedi ystyried llwybrau y gallai fod yn bosibl eu gwasanaethu gan ddefnyddio awyren yn y categori 19-34 o seddi fel ychwanegiad at wasanaeth craidd y Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyhoeddus, canolbwyntiodd yr astudiaeth hon o Lwybrau 'Tenau' ar lwybrau i Faes Awyr Caerdydd ac oddi yno a ddefnyddid gan 50,000 o deithwyr[1] y flwyddyn neu lai ac a fyddai'n llai tebygol, felly, o fod yn fasnachol ddichonadwy fel gwasanaeth annibynnol na'r rhai â marchnad bosibl sy'n fwy na hynny. Gan ddefnyddio proses arfarnu sy'n cyfateb i opsiynau gwella'r Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyhoeddus yn Adran 3, nid oedd yr opsiynau a ystyriwyd wedi'u cyfyngu i'r rhai a allai gael eu gweithredu gan awyren y Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyhoeddus. Ystyriwyd hefyd awyrennau eraill a llwybrau mwy 'trwchus' â mwy na 50,000 o deithwyr y flwyddyn a allai oroesi ar sail ac eithrio gyda chymorth Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyhoeddus (e.e. drwy gymhellion i ddatblygu llwybrau masnachol a Chronfeydd Datblygu Llwybrau).

Adran 5: Ystyriodd gydymffurfiaeth â NASP (y Rhaglen Diogelwch Hedfan Genedlaethol) ym meysydd awyr Ynys Môn a Phenarlâg rhag ofn y penderfynid y byddai angen awyrennau â mwy na 19 o seddi ar rai neu bob un o'r gwasanaethau sydd i'w gweithredu o un o'r meysydd awyr hyn neu'r ddau ohonynt. Roedd hyn yn cynnwys nodi costau cyfalaf posibl sy'n gysylltiedig ag unrhyw fesurau cydymffurfiaeth.

Adran 6: Ystyriodd oblygiadau defnyddio awyrennau Tyrbobropelor Un Injan (SETs), ar lwybr y Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyhoeddus a llwybrau posibl eraill mewn mannau eraill yng Nghymru. Caiff costau gweithredu cymharol yn erbyn meincnod awyren â 19 o seddi a manteision ac anfanteision dau fath enghreifftiol o awyren eu gwerthuso a deuir i rai casgliadau dangosol.

Adran 7: Mae'n dechrau drwy ystyried canlyniadau economaidd cau llwybr y Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyhoeddus cyn ehangu'n adolygiad o opsiynau ar gyfer llwybrau oddi mewn i Gymru a thu hwnt a allai ffurfio yn gyntaf rwydwaith craidd o wasanaethau sy'n canolbwyntio ar brif wasanaeth y Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyhoeddus ac wedyn rwydwaith ehangach sy'n

[1] Weithiau mae'r adroddiad yn defnyddio acronym pax ar gyfer teithwyr yn y naratif neu'r tablau

cwmpasu meysydd awyr megis Penarlâg a Hwlffordd. Unwaith eto caiff yr opsiynau hyn eu harfarnu fel o'r blaen.

Adran 8: Roedd yn gofyn am ddadansoddi'r dystiolaeth seiliedig ar lwybrau flaenorol bwysig; lluniodd yr astudiaeth 12 o senarios polisi strategol, a oedd yn adlewyrchu'r ystod lawn o opsiynau a oedd wedi'u hystyried, o leihau neu gau'r gwasanaeth presennol, drwy wahanol welliannau cynyddrannol, i ddefnyddio awyren bresennol y Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyhoeddus yn fwy effeithiol a datblygu naill ai rhwydwaith craidd neu rwydwaith ehangach o lwybrau oddi mewn i Gymru a llwybrau i Lundain neu feysydd awyr hwb pwysig eraill (e.e. Amsterdam, Paris neu Frankfurt) drwy gyflwyno Rhwymedigaethau Gwasanaeth Cyhoeddus ychwanegol. Wedyn bu'r senarios yn destun arfarniad a gwerthusiad WelTAG yn erbyn cyfres o amcanion polisi strategol.[2]

Adran 9: Mae'n ystyried yr achos o blaid Llywodraeth Cymru yn prynu neu'n prydlesu'r awyren sydd ei hangen i wasanaethu llwybr(au) y Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyhoeddus neu ymrwymo i gyd-fenter â'r sector preifat i wneud hynny. Mae hefyd yn ystyried a all fod achos o blaid trosglwyddo'r cyfrifoldeb am redeg Maes Awyr Ynys Môn oddi wrth Gyngor Ynys Môn a'i ddarparwr gwasanaeth presennol Bilfinger Europa i Faes Awyr Rhyngwladol Caerdydd Cyf (gan dybio y caiff staff rheng flaen eu diogelu o dan TUPE).

Wedyn caiff y dadansoddiad cryno a'r canfyddiadau cysylltiedig eu dwyn ynghyd yn y bennod olaf, gan nodi Canfyddiadau, Casgliadau ac Argymhellion o dan wahanol amserlenni sy'n ymwneud â pholisi – i'w gweithredu ar unwaith, byrdymor, tymor canolig a hirdymor. Caiff y canfyddiadau, y casgliadau a'r argymhellion hyn eu hailddatgan yn llawn isod.

## Canfyddiadau, Casgliadau ac Argymhellion

### Cael Eglurder ynglŷn â Dyfodol Gwasanaeth y Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyhoeddus

Mae dadl economaidd gref o blaid cadw gwasanaeth y Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyhoeddus rhwng meysydd awyr Caerdydd ac Ynys Môn sy'n seiliedig ar y ffaith bod arbedion amseroedd teithio i deithwyr busnes yn cynhyrchu Gwerth Ychwanegol Gros (GYG)[3] sy'n cyfateb, fwy neu lai, i'r cymhorthdal sy'n cael ei fuddsoddi. At hynny, mae hefyd yn cefnogi swyddi sy'n bodoli eisoes a gallai greu rhai newydd, yn enwedig ar Ynys Môn, ac mae'n darparu cysylltedd â De Cymru na all y rheilffyrdd na'r ffyrdd ei ddarparu am lefel y cymorth ariannol a gynigir. Yn strategol, mae'n darparu cysylltiad gweithredol a symbolaidd pwysig rhwng y gogledd a'r de, sy'n ei gwneud yn haws i gwmnïau o Gymru gael mynediad at farchnadoedd mewnol.

[2] Gall mentrau trafnidiaeth yng Nghymru gael eu harfarnu gan ddefnyddio canllawiau WelTAG ar y cam cynllunio, er mwyn sicrhau eu bod yn ystyried yr economi, yr amgylchedd a chymdeithas.

[3] Gwerth ychwanegol gros sy'n mesur gwerth nwyddau a gwasanaethau a gynhyrchir mewn maes, diwydiant neu sector o economi, ym maes economeg. Mewn cyfrifon cenedlaethol GYG yw allbwn llai defnydd canolraddol; mae'n eitem fantoli yng nghyfrif cynhyrchu cyfrifon cenedlaethol.

## Ymestyn y Contract Presennol

Dengys y Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyhoeddus arwyddion clir y gallai dyfu ymhellach nag a welwyd hyd yma ond, yn y byrdymor, mae angen cyfnod o weithredu, amserlennu ac optimeiddio prisiau cyson a di-dor ac, yn bwysicach na dim, waith marchnata gwell er mwyn i'r twf hwnnw gael ei wireddu. Yn ogystal â'r camau hanfodol hyn, mae osgoi rhagor o ddyfalu gwleidyddol ynghylch dyfodol y llwybr yn bwysig i feithrin hyder teithwyr yn y llwybr a sicrhau eu bod yn gwneud mwy o ddefnydd ohono.

Mae canfyddiadau'r rhaglen astudio hon yn awgrymu bod nifer o gamau byrdymor megis newid lleoliad gorsaf yr awyren, ymestyn oriau gweithredu yn ystod yr wythnos, ychwanegu cylchdroadau, sicrhau bod prisiau tocynnau yn parhau i fod yn gystadleuol a chynyddu ymwybyddiaeth o'r gwasanaeth a allai helpu i wella perfformiad y gwasanaeth a sicrhau ei fod yn cynnig mwy o werth am arian i Gymru nag y mae eisoes yn ei wneud. Gallai pob un o'r rhain gael ei brofi, gyda chytundeb y gweithredwr, pe câi'r contract dros dro presennol ei ymestyn i roi digon o amser i aildendro'r Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyhoeddus

Mae ein hasesiad o'r effaith economaidd yn rhagweld, pe câi gweithrediad awyren â 19 o seddi ei gadw, ond ag oriau gweithredu estynedig a phrisiau tocynnau deniadol, y gallai nifer y teithwyr sy'n defnyddio'r llwybr gynyddu, erbyn 2022, o'r hyn roeddem yn ystyried ei fod yn amcangyfrif rhesymol o'r llinell sylfaen wedi'i normaleiddio yn 2015 - sef tua 11,000 o deithwyr y flwyddyn - i ychydig dros 14,200 neu gyfradd defnyddio seddi o 73%. Drwy sicrhau gwaith marchnata llawer gwell (gan gynnwys gweithgarwch hyrwyddo drwy ddefnyddio systemau GDS[4]) ac ychwanegu trydydd cylchdro sicrheid 19,150 o deithwyr (sef cyfradd defnyddio seddi o 66%), yr amcangyfrifir y byddai'n creu 20 o swyddi a GYG ychwanegol o tua £290k y flwyddyn.

Pe baem yn cymhwyso cyfres debyg o welliannau, ond yn cynyddu maint yr awyren i 31 o seddi ac yn parhau â dim ond dau gylchdro y dydd ar y llwybr, amcangyfrifir y byddai hyn yn sicrhau bron 18,000 o deithwyr y flwyddyn (sef cyfradd defnyddio seddi o lai na 60%), gyda hyd at 18 o swyddi yn cael eu creu a GYG o tua £250k y flwyddyn.

Mae hyn yn awgrymu bod achos cryf dros ymestyn y contract dros dro presennol tan 30 Medi 2018 - a fydd yn rhoi digon o amser i dreialu datblygiadau arloesol masnachol a gweithredol yn ddigonol er mwyn llywio gofynion y contract pedair blynedd dilynol. Bydd ymestyn y contract gan fis Medi 2018 hefyd yn rhoi digon o amser i gynnal y broses dendro, a fydd yn ei gwneud yn bosibl i ofynion gael eu cwmpasu'n llawn ac i weithredwr yn y dyfodol gael ei gaffael yn gystadleuol a'i benodi 6-8 mis cyn i'r gwasanaethau ddechrau. Bydd yr amser hanfodol hwn yn galluogi'r gweithredwr i wneud y trefniadau a'r gwaith paratoi angenrheidiol cyn mynd yn gyfrifol am ddarparu'r gwasanaeth yn weithredol.

---

[4] Mae **system dosbarthu fyd-eang (GDS)** yn rhwydwaith a weithredir gan gwmni sy'n galluogi trafodion awtomataidd rhwng darparwyr gwasanaethau teithio (yn bennaf cwmnïau awyrennau, gwestai a chwmnïau rhentu ceir) ac asiantaethau teithio. Yn draddodiadol, dibynnai asiantaethau teithio ar GDS am wasanaethau, cynhyrchion a chyfraddau er mwyn darparu gwasanaethau yn ymwneud â theithio i ddefnyddwyr. Gall GDS gysylltu gwasanaethau, cyfraddau ac archebion gan gyfuno cynhyrchion a gwasanaethau rhwng y tri sector teithio: h.y., archebu sedd ar awyren, archebu ystafell mewn gwesty, a rhentu car.

Bydd unrhyw estyniad i'r contract dros dro yn gofyn am drafodaethau manwl â'r darparwr presennol a fydd, o bosibl, yn ceisio iawndal ychwanegol am dderbyn risgiau gweithredol neu fasnachol ychwanegol sy'n gysylltiedig â rhai o'r datblygiadau arloesol a gynigir (e.e. os caiff yr awyren ei lleoli ar Ynys Môn yn ystod yr haf efallai y bydd angen ei hanfon i safleoedd amgen megis Ynys Manaw neu, o bosibl, Gaernarfon ar y penwythnos er mwyn gwneud gwaith cynnal a chadw arni). Ond mae hefyd yn cynnig cyfle unigryw i dreialu'r syniadau hyn 'yn y byd go iawn', ac mae'n darparu tystiolaeth empeiraidd amhrisiadwy ar gyfer y tymor canolig i'r hirdymor. Gan gadw hyn mewn cof, rydym o blaid ymestyn y contract presennol.

**Argymhellion i'w Gweithredu ar Unwaith:**

I Cadw'r Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyhoeddus o'r Gogledd i'r De rhwng Caerdydd ac Ynys Môn.

II Ymestyn y contract presennol â Van Air tan 30 Medi 2018 cyn gynted â phosibl.

III Wrth wneud hynny, cyflwyno cyfres o welliannau posibl i'r gwasanaeth a rhywfaint o gymorth allanol wedi'i dargedu. Dylai'r rhain gynnwys rhai neu bob un o'r canlynol:

- Sicrhau y caiff awyren y Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyhoeddus ei defnyddio'n amlach drwy gyflwyno tri chylchdro y dydd, naill ai drwy ychwanegu gwasanaeth canol dydd ar y llwybr rhwng Caerdydd ac Ynys Môn neu drwy fynd ati gyda'r gweithredwr i nodi cyrchfan masnachol nad yw'n destun y Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyhoeddus i'r awyren ei wasanaethu.
- Trafod treial â'r gweithredwr i brofi'r galw am amserlen o chwith drwy ailamserlennu’r Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyhoeddus a'i lleoli ym Maes Awyr Ynys Môn ar gyfer haf 2017.
- Ymestyn yr oriau gweithredol ym Maes Awyr Ynys Môn cyn gynted ag y gellir cytuno ar hyn â'r Awyrlu, ond dim ond os bydd yr amserlen newydd yn gofyn am hynny.
- Negodi unrhyw amrywiad sydd ei angen i'r cytundeb cymhorthdal presennol sy'n deillio o'r newidiadau hyn, yn amodol ar drosglwyddo'n drefnus i unrhyw drwydded Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyhoeddus newydd, yn enwedig os bydd yn cynnwys gweithredwr newydd.
- Rhoi mwy o gymorth marchnata ar sail arian cyfatebol – rydym o'r farn y gallai hyn olygu cyfraniad cyhoeddus wedi'i gapio o hyd at £25,000 yn ystod y cyfnod rhwng mis Medi 2017 a swm ychwanegol o £50,000 rhwng mis Medi 2017 a diwedd cyfnod estynedig y contract.
- Mae angen cytuno ar gynllun marchnata ‘micro-rwydweithio’ rhwng y cwmni awyrennau, y meysydd awyr a rhanddeiliaid allweddol eraill (buddiannau twristiaeth Gogledd Cymru, Cyngor Sir Ynys Môn a Chyngor Sir Gwynedd). Dylai Llywodraeth Cymru arwain y gwaith o baratoi'r cynllun drwy grŵp marchnata sy'n cynnwys rhanddeiliaid yn y Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyhoeddus, ond ar ôl iddo gael ei gwblhau, dylai ddirprwyo'r cyfrifoldeb am ei roi ar waith i aelod addas o'r cydweithrediad.
- Sicrhau ymrwymiadau i ddarparu adnoddau mewn arian parod neu mewn da gan aelodau'r cydweithrediad marchnata, a nodi ffordd o reoli, cydgysylltu a monitro ymdrechion parhaus. Gellir hysbysebu'r ymrwymiadau hyn yn y ddogfen Gwahoddiad i Dendro i gynigwyr ar gyfer y Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyhoeddus lle y gellir eu cyflwyno fel ymgymeriadau sy'n cael arian cyfatebol gan y gweithredwr.

## Sicrhau y Gwneir y Defnydd Mwyaf Posibl o Awyren y Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyhoeddus

Yn realistig, hyd yn oed pe câi'r awyren a gontractiwyd ar gyfer y Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyhoeddus rhwng Caerdydd ac Ynys Môn ei lleoli yn RAF y Fali, byddai'n anodd sicrhau pedwar cylchdro y dydd heb ymestyn oriau gweithredu presennol RAF y Fali. Nododd sgyrsiau cychwynnol â'r Awyrlu y gallai fod yn fodlon ystyried rhai mân amrywiadau yn ystod yr wythnos, ar yr amod y byddai'n cael iawndal priodol, ond na fyddai'n fodlon cyflwyno gweithrediadau ar y penwythnos am fod cryn nifer o bersonél yr Awyrlu yn gadael yr orsaf ar y penwythnos i ddychwelyd adref at eu teuluoedd neu ymweld â ffrindiau.

Mae profiad yn awgrymu y bydd yn cymryd peth amser i ddod i gytundeb â'r Awyrlu ac, felly, mae'n well pennu'r argymhelliad hwn fel un 'byrdymor' yn hytrach nag un 'sydd i'w weithredu ar unwaith'.

Fodd bynnag, nododd yr astudiaeth nifer o gyfleoedd cyffrous ar gyfer llwybrau posibl y gellir defnyddio'r contract Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyhoeddus pedair blynedd nesaf (rhwng mis Hydref 2018 a mis Medi 2022) i'w hystyried, yn enwedig os caiff maint yr awyren ei gynyddu o 19 o seddi i fwy na 30 o seddi. Yn gysyniadol, os bydd gweithredu'r argymhellion 'sydd i'w gweithredu ar unwaith' yn cael effaith gadarnhaol ar nifer y teithwyr a ddisgwylir gennym, mae'n bosibl y bydd modd cyfiawnhau defnyddio'r awyren fwy o faint ddwywaith y dydd ar lwybr y Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyhoeddus yn y pen draw erbyn diwedd cyfnod contract y Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyhoeddus (h.y. 2022) am y byddai ffactorau llwytho ar wasanaeth a ddarperir ddwywaith y dydd wedi cyrraedd 65%.

Fodd bynnag, mantais fawr sicrhau y caiff awyren fwy o faint ei defnyddio ar y Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyhoeddus yw y byddai'n creu'r potensial i wasanaethu cyrchfannau eraill megis maes awyr Llundain o Ynys Môn (Luton i ddechrau, ac yn y pen draw pan fydd y drydedd redfa ar agor, Heathrow) ac, yn yr un modd, gyrchfannau hwb eraill megis Amsterdam (lle y ceir tystiolaeth bod galw mawr am wasanaeth unwaith y dydd o Ogledd-orllewin Cymru) neu Baris, gan ddefnyddio'r awyren i ychwanegu ail gylchdro o Gaerdydd. Mantais awyrennau â 30 seddi yw eu bod dan bwysedd ac, mewn rhai achosion, yn llawer cyflymach na'r awyrennau â 19 o seddi sy'n cyfateb iddynt. Felly, maent yn fwy deniadol i deithwyr ac yn fwy tebygol o gael eu derbyn fel rhai sy'n haeddu slot mewn meysydd awyr gorlawn ac mae ganddynt well economeg llwybrau ar ffactorau llwytho cyfatebol, sy'n golygu bod modd cynnig prisiau tocynnau rhatach.

Er ei bod yn bosibl y byddai'r rhagolygon ar gyfer rhai o'r llwybrau hyn (yn enwedig y meysydd awyr hwb dramor[5]) yn fwy ansicr pe bai'r cynigion ar gyfer y Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyhoeddus nesaf yn parhau i fod yn seiliedig ar awyren â 19 o seddi, byddai gwasanaeth i Lundain yn dal i fod yn bosibilrwydd, ac mae Northolt yn gyrchfan y dylid ei ystyried gyda'r Weinyddiaeth Amddiffyn, ac mae opsiynau eraill ar gyfer cyrchfannau megis Belfast neu Ynys Manaw a all ennyn diddordeb.

---

[5] Caiff canolfannau neu feysydd awyr hwb eu defnyddio gan feysydd awyr i grynhoi teithwyr a gweithrediadau hedfan mewn maes awyr penodol. Maent yn gweithredu fel mannau trosglwyddo neu aros er mwyn cael teithwyr i'w cyrchfan terfynol.Maent yn rhan o'r system prif ganolfan a lloerennau fel y'i gelwir.

**Proses Dendro'r Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyhoeddus 2018-22**

Mae ymestyn y trefniadau dros dro presennol yn cynnig cyfle pwysig i addasu'r Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyhoeddus pedair blynedd nesaf yn well er mwyn cyflawni'r canlyniadau a ffefrir. Bydd y rhain yn cynnwys:

chwilio am weithredwr cryf, ag

awyren fwy o faint,

cynnig defnydd ychwanegol credadwy o'r awyren ar gyfer tasg(au) nad ydynt yn gysylltiedig â'r Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyhoeddus,

bydd yn seiliedig ar gynllun datblygu llwybrau argyhoeddiadol sy'n cynnwys cynyddu nifer y teithwyr a'r elw ac, felly, ostwng y cymhorthdal gofynnol,

y gallu i fanteisio ar adnoddau marchnata estynedig (a all gynnwys gwelededd GDS, rhynglinellu, masnachfreinio),

cynllun marchnata argyhoeddiadol a thrylwyr ar gyfer ymestyn cwmpas masnachol gwasanaeth y Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyhoeddus (yn ddaearyddol ac o ran segmentau'r farchnad (e.e. denu teithwyr hamdden i mewn i Ogledd-orllewin Cymru), datblygu llwybrau newydd a gweithio gyda meysydd awyr Caerdydd ac Ynys Môn a rhanddeiliaid lleol er mwyn sicrhau bod cymorth marchnata parhaus yn sicrhau'r gwerth gorau am arian.

Mae hefyd yn darparu mwy o amser cyn lansio'r gwasanaeth er mwyn sicrhau'r gwaith paratoi a marchnata gorau posibl. Mae hyn yn cynnwys rhoi trefniadau newydd gyda'r Awyrlu ar waith (gweler isod) a marchnata'r llwybr(au) am sawl mis ymlaen llaw gan ddefnyddio technegau micro-rwydweithio i sicrhau'r gwerth gorau am arian.

Mae'r argymhelliad ynghylch darpariaeth farchnata well a pharhaus yn seiliedig ar brofiad cynnar Highland Airways ar y llwybr, lle y sicrhaodd o leiaf 2,000 yn fwy o deithwyr y flwyddyn na'r gweithredwyr a'i dilynodd. Cafodd Highland Airways gryn gefnogaeth gan randdeiliaid hefyd gan nifer o asiantaethau a oedd yn cynnwys Cyngor Sir Ynys Môn, CWL, Bwrdd yr Iaith Gymraeg a gweithgarwch micro-farchnata cymunedol medrus a gafodd ei grynhoi mewn atodiad i Astudiaeth Gwella'r Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyhoeddus. Yn hytrach na dibynnu ar hysbysebion drud mewn papurau newydd neu ar bosteri yn unig, mae technegau o'r fath (e.e. ymgyrchoedd yn y cyfryngau cymdeithasol, cystadlaethau gyda gorsafoedd radio lleol, storïau cysylltiadau cyhoeddus, trawsfarchnata gydag atyniadau a darparwyr llety allweddol), yn cael eu defnyddio'n aml mewn meysydd awyr llai o faint a chydnabyddir eu bod yn effeithiol.

Mae tystiolaeth o'r Alban hefyd yn awgrymu bod nifer defnyddwyr Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyhoeddus wedi cynyddu pan drosglwyddwyd y cyfrifoldeb am redeg y llwybr o gwmni awyrennau annibynnol i weithredwr masnachfraint â phroffil uwch. Roedd tystiolaeth hefyd o'r llwybr pan oedd strategaeth rheoli elw fwy 'mentrus', lle roedd gostyngiadau mwy sylweddol yn cael eu cynnig ar docynnau, wedi cael effaith gadarnhaol ar gludiadau yn ystod deiliadaethau Highland Airways a Links

Air.

## Goblygiadau Lleoli'r Awyren ym Maes Awyr Ynys Môn

Os ymddengys, o ganlyniad i broses dendro'r Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyhoeddus 2018-22, y bydd y gweithredwr yn fodlon lleoli ei awyren ar Ynys Môn, mae'n debyg y byddai angen awyrendy penodol i gadw'r awyren ynddo dros nos yn barhaol. Gellir codi awyrendy o fath 'Rubb' o fewn tri i bedwar mis ac am gost resymol (tua £750,000 am awyren sy'n cynnwys rhwng 19 a 31 o seddi ynghyd ag unrhyw waith sylfaen) a mantais awyrendy o'r fath yw bod modd ei ddatod ac, felly, ei symud i rywle arall os oes angen.

Er mwyn cyflwyno awyren â 31 o seddi byddai hefyd angen i'r maes awyr ar Ynys Môn gydymffurfio â NASP (y Rhaglen Diogelwch Hedfan Genedlaethol). Byddai hyn yn golygu cyflwyno cyfarpar sgrinio lefel tri a nifer o fesurau eraill yn ardal ochr yr awyr er mwyn atal tresmasu ar yr ardal gyfyngedig. Unwaith eto, amcangyfrifir y bydd hyn yn costio tua £750,000.

## Ymgysylltu â'r Awyrlu

Mae'r Awyrlu yn bartner allweddol yng ngweithrediad y Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyhoeddus am ei fod yn darparu'r seilwaith yn ardal ochr yr awyr a chymorth ar gyfer gweithrediadau na allai'r maes awyr sifil weithredu hebddynt. Er mwyn amrywio gwasanaeth presennol y Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyhoeddus neu ei hehangu bydd angen ei gydweithrediad parhaus ac, mewn rhai achosion, newidiadau sylweddol i'w oriau gweithredu presennol.

O'r argymhellion uchod, gellir gweithredu'r cynllun marchnata ac, yn ôl pob tebyg, un cylchdro canol dydd ychwanegol heb amrywio'r cytundeb presennol â'r Awyrlu/DIO[6]. Yr arwyddion cynnar yw ei bod yn bosibl y byddant yn fodlon dangos rhywfaint o hyblygrwydd, ond bydd yn cymryd amser i negodi trefniadau newydd a dylid anelu at sicrhau trwyddedau dros dro gyda chytundeb newydd yn dod i rym ar ddechrau'r Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyhoeddus newydd.

Mae'r trefniadau newydd yn debygol o arwain at gostau ychwanegol o ran taliadau ychwanegol a godir gan yr Awyrlu am ddefnyddio ei faes awyr a chostau cyfalaf i gynyddu gallu a gwella adnoddau cyfleusterau yn y maes awyr presennol neu estynedig. Bydd gan yr Awyrlu gyfiawnhad dros drosglwyddo'r costau hyn yn llawn os ydynt yn gysylltiedig â symudiadau trafnidiaeth awyr sy'n ymwneud â'r Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyhoeddus yn unig a'u bod y tu allan i'w oriau gweithredu craidd presennol. At hynny, os nad yw'n adlewyrchu'r costau, gallai hyn godi materion sy'n ymwneud â chymorth gwladwriaethol anghyfreithlon. Mae angen cadarnhau'r costau hyn cyn gynted â phosibl ac, os cânt eu derbyn, eu troi'n ddarpariaeth gyllidebol briodol yn y dyfodol.

Mae angen cadarnhau'r sefyllfa o ran cymorth gwladwriaethol hefyd. Er ei bod yn bosibl na fydd angen hysbysiad ffurfiol i gwmpasu unrhyw gostau cymorth cyfalaf ychwanegol neu wariant cyfalaf ar gyfleusterau gwell ar sail trothwy de-minimis neu Wasanaethau o Fudd Economaidd Cyffredinol (SGEI) ar gyfer swyddogion cyfrifyddu neu at ddibenion archwilio yn y dyfodol, byddai'n ddoeth gofyn i'r Adran

[6] Y Sefydliad Seilwaith Amddiffyn

Drafnidiaeth a'r UE gadarnhau hyn. Mae SGEI yn weithgareddau economaidd y mae awdurdodau cyhoeddus yn nodi eu bod yn arbennig o bwysig i ddinasyddion na fyddent yn cael eu cynnig (na'u cyflenwi o dan amodau gwahanol) heb ymyrraeth y cyhoedd. Yr enghreifftiau yw rhwydweithiau trafnidiaeth, gwasanaethau post a gwasanaethau cymdeithasol.

## Llywodraethu'r Maes Awyr

Am nifer o resymau, mae'n bosibl y bydd paratoi ar gyfer y Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyhoeddus newydd yn cynnig cyfle i ailedrych ar berchenogaeth a gweithrediad y maes awyr sifil ar Ynys Môn. Nodir y rhain yn fanylach yn Adran 9 o'r adroddiad, ond maent yn gysylltiedig ag arbedion effeithlonrwydd gweithredu, argaeledd adnoddau marchnata, arbenigedd ym maes diogelwch a dull gweithredu di-dor o ran polisi Llywodraeth Cymru a gweithredu.

Am y rheswm hwn, credwn y dylid ystyried o ddifrif ofyn i Faes Awyr Rhyngwladol Caerdydd Cyf ddod yn gyfrifol am weithredu Maes Awyr Ynys Môn ar ran Llywodraeth Cymru, ar ddyddiad y cytunir arno â Chyngor Sir Ynys Môn a'i gontractwr Bilfinger. Byddai rheolau TUPE yn golygu y byddai'r staff presennol yn symud pe câi'r contract gweithredu ei drosglwyddo i weithredwr arall. Rheoliadau Trosglwyddo Ymgymeriadau (Diogelu Cyflogaeth) 2006 (TUPE) yw gweithrediad y Deyrnas Unedig o Gyfarwyddeb Trosglwyddiadau Busnes yr Undeb Ewropeaidd. Mae'n rhan bwysig o gyfraith llafur y DU, gan ddiogelu cyflogeion y mae eu busnes yn cael ei drosglwyddo i fusnes arall.

Rydym yn ymwybodol mai Cyngor Sir Ynys Môn yw perchennog cyfreithlon presennol Cyfleusterau Maes Awyr Ynys Môn, a adeiladwyd â mantais prydles hir gan yr Awyrlu. Fodd bynnag, mae costau llawn y trefniadau rheoli gweithredol yn cael eu gwarantu gan Lywodraeth Cymru ac nid oes gan Gyngor Sir Ynys Môn ddigon o adnoddau i ymgymryd â rôl estynedig cleient ar gyfer cynllun mawr i ehangu'r maes awyr sifil a ragwelir yn ein hargymhellion eraill.

Felly, mae bron yn sicr y byddai'n symlach pe câi perchenogaeth y maes awyr sifil ei throsglwyddo i Lywodraeth Cymru a fyddai'n ymgymryd â'r cyfrifoldeb am ddod o hyd i weithredwr.

## Gwasanaethau o Benarlâg

Yn ein barn ni, cyfyngedig yw'r cyfleoedd i ddatblygu gwasanaethau a weithredir o Benarlâg tan 2022 ac ar ôl hynny. Fodd bynnag, byddai'n werth trafod y posibilrwydd o wneud hynny ymhellach ag APG ac Airbus yn ystod cyfnod estynedig y contract fel y gellir cyflwyno dealltwriaeth glir i'r rhai sy'n tendro ynglŷn â'r cyfleusterau a'r taliadau a gynigid i ddarpar weithredwr Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyhoeddus pe câi mynediad ei ganiatáu o gwbl.

Y farn a fynegir gennym, cyn y trafodaethau ffurfiol hyn, yw bod sicrhau mynediad i Benarlâg yn debygol o fod yn rhy ddrud, y byddai'n gofyn am fuddsoddiad cyfalaf sylweddol, y gallai ddenu cwynion ynghylch cymorth gwladwriaethol gan Feysydd Awyr cyfagos Lerpwl a Manceinion a'i bod yn golygu y bydd parhau i ddarparu gwasanaeth awyr ar gyfer rhanbarth Gogledd-orllewin Cymru, y mae'r holl dystiolaeth o'r astudiaethau technegol ategol yn awgrymu ei bod yn strategol bwysig, yn fwy cymhleth ac, felly, yn ddrutach hefyd, o bosibl. At hynny, a dehongli'r Rheoliadau'r Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyhoeddus

yn fanwl gywir, rydym yn amau a fyddai'r gwasanaethau rhwng Meysydd Awyr Penarlâg ac Ynys Môn/Caerdydd yn gymwys fel Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyhoeddus.

Yn y tymor hwy (h.y. ar gyfer cyfnod y Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyhoeddus 2022-26) efallai y bydd modd datblygu pecyn o gymorth i randdeiliaid allweddol (yn enwedig ymhlith cwmnïau a leolir yn yr ardaloedd menter perthnasol ar ddau ben y llwybr) er mwyn sicrhau gwasanaeth naw sedd uniongyrchol sy'n cysylltu Penarlâg â Chaerdydd, ond mater ar gyfer adolygiad yn y dyfodol yw hwnnw.

Yn bwysicach na hynny, mabwysiadu fformat 'galw heibio' neu 'drionglog' (e.e. VLY-CEG (Penarlâg)LHR-CEG-VLY) yw'r ffordd fwyaf tebygol y bydd Gogledd Cymru yn sicrhau mynediad uniongyrchol i Heathrow pan fydd ei redfa newydd yn agor, oherwydd y cyfyngiadau tebygol a osodir ar nifer y slotiau a ryddheir ar gyfer gwasanaethau domestig. Byddai gwasanaeth o'r fath yn dod â manteision sylweddol iawn o ran cysylltedd ar gyfer economi ehangach Gogledd Cymru ac, yn ein barn ni, dylai Llywodraeth Cymru fynd ati'n egnïol i geisio eu sicrhau yn ystod y ddwy flynedd nesaf ar gyfer ymrwymiadau gan Lywodraeth y DU a Heathrow yn ystod proses ei Orchymyn Caniatâd Datblygu (DCO).

## Mynediad i Heathrow

Nododd ymchwiliadau i'r galw am wasanaeth o'r fath a'r effaith economaidd y byddai cryn gefnogaeth i fynediad i LHR yn Ne Cymru yn ogystal â'r gogledd. Byddai gwasanaeth gwennol deirgwaith neu bedair gwaith y dydd yn gwasanaethu'r farchnad o deithwyr sy'n hedfan i Heathrow o dde Cymru er mwyn dal awyren i gyrchfan arall, y mae'r rhan fwyaf ohonynt yn gyrru ac yn parcio yn Heathrow ar hyn o bryd. Disgwylir i'w effaith ar y farchnad o fan i fan sy'n anelu at ganol Llundain o Dde Cymru, a wasanaethir yn dda gan amseroedd teithio byrrach ar drenau, fod yn fach. Ond gyda marchnad gyffredinol yr amcangyfrifwn ei bod yn cynnwys mwy na 200,000 o deithwyr, byddai sicrhau slotiau ar gyfer gwasanaeth gwennol o'r fath o Gaerdydd i Heathrow yn bwysig iawn yn economaidd a dylai fod yn flaenoriaeth uchel i Lywodraeth Cymru yn y byrdymor, gyda'r nod o sicrhau ymrwymiad, yn wleidyddol ac yn gytundebol, rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU (ac, o bosibl, Heathrow hefyd) cyn i'r cais am Orchymyn Caniatâd Datblygu ar gyfer y drydedd redfa gael ei gyflwyno yn 2019.

## Cymorth i Lwybr 'Tenau' Caerdydd

Nododd ein hastudiaethau y potensial ar gyfer datblygu llwybrau o Faes Awyr Caerdydd gydag awyren y Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyhoeddus (yn enwedig pe bai ganddi fwy na 29 o seddi) a hefyd lwybrau a ddiffinnir yn yr astudiaeth hon fel rhai 'tenau' (llai na 50,000 o deithwyr y flwyddyn). Ystyriwyd mesurau cymorth gwladwriaethol yn ychwanegol at systemau datblygu llwybrau meysydd awyr arferol. Yn ogystal â'r Gwasanaeth Gwennol i Heathrow uchod, nodwyd cyrchfannau hwb eraill ar dir mawr Ewrop megis Frankfurt fel rhai a allai berfformio'n dda; yn enwedig pe gellid sicrhau gwasanaeth ddwywaith y dydd yn ystod yr wythnos. Mae nifer o lwybrau domestig o Gaerdydd hefyd yn ymddangos yn addawol a byddai'n werth ymchwilio ymhellach iddynt, naill ai am nad yw'r cysylltiadau yn bodoli ar hyn o bryd neu am y bydd cynyddu nifer yr ehediadau dyddiol yn fuddiol iddynt. Mae'r rhain yn cynnwys Manceinion, Belfast, Leeds, Newcastle, Aberdeen a Norwich.

Ymhlith yr opsiynau ar gyfer cyflawni'r amcanion hyn mae Rhwymedigaethau Gwasanaeth Cyhoeddus ychwanegol, cymorth ariannol gan RACF[7] Llywodraeth y DU neu gynllun datblygu llwybrau â therfyn amser a sefydlir ac a ariennir gan Lywodraeth Cymru ei hun ond a fydd yn cyd-fynd â phrotocolau sefydledig y DU/UE.

**Argymhellion Byrdymor:**

I. Cynnwys yr opsiwn i gefnogi awyren â 30 o seddi ym mhroses dendro 2018-22 a gofyn i gynigwyr nodi unrhyw gyrchfannau eraill y byddent, o bosibl, yn ceisio eu gwasanaethu pe câi'r Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyhoeddus ei dyfarnu iddynt ar y sail honno.

II. Cyhoeddi Tendr y Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyhoeddus ar gyfer mis Medi 2018 yn ystod Hydref 2017 gyda'r nod o ddyfarnu'r contract ym mis Ionawr 2018.

Sicrhau bod Opsiynau'r Tendr yn ystyried yr ateb presennol, sef awyren â 19 o seddi, ac atebion sy'n cynnwys awyrennau mwy o faint (yn ddelfrydol gyda mentrau i ddatblygu llwybrau Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyhoeddus canol dydd neu lwybrau credadwy nad ydynt yn destun Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyhoeddus yn cael eu hannog).

Sicrhau bod Meini Prawf Dewis y Tendr yn pwyso a mesur y canlyniadau a ffefrir yn briodol ac y bydd hyn yn cynnwys cynlluniau i gynyddu nifer y defnyddwyr a chynlluniau marchnata; lleoli'r awyren; defnydd ychwanegol o'r awyren; GDS[8], rhynglinellu, masnachfreinio neu fanteision eraill. Rhoi pwysoliad priodol i ansawdd yn erbyn cost yn y gwerthusiad – awgrymwn y dylai'r naill fod yn 70% a'r llall yn 30%.

Canfasio sampl o weithredwyr ymlaen llaw er mwyn llywio'r opsiynau sy'n cael eu tendro'n well.

III. Os ymddengys, o ganlyniad i dreial a gynhelir yn ystod haf 2017, fod lleoli'r awyren ar Ynys Môn ac addasu'r amserlen yn unol â hynny, yn addawol, bydd angen cytuno ar safle ar gyfer awyrendy â RAF y Fali a nodi ateb ar gyfer storio'r awyren sy'n cynnig gwerth am arian a'i roi ar waith.

IV. Os bydd awyren â mwy na 29 o seddi yn llwyddo i ennill cystadleuaeth dendro dylid dechrau paratoi ar gyfer cydymffurfio â NASP i gyd-redeg â'r amser arwain ar gyfer lansio'r Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyhoeddus newydd. Yn y cyfamser dylid mireinio'r paratoadau ar gyfer cydymffurfio â NASP ymhellach os bydd hyn yn digwydd.

[7] Mae'r Gronfa Cysylltedd Awyr Rhanbarthol yn un o fentrau'r Adran Drafnidiaeth i helpu i ddatblygu llwybrau yn unol â Chronfeydd Datblygu Llwybrau Cymorth Gwladwriaethol a Ganiateir.

[8] Mae System Ddosbarthu Fyd-eang yn arwain yn ei hanfod at system docynnau fwy gweladwy

V. Negodi cytundeb newydd sy'n ymwneud â gweithredu'r maes awyr sifil, sy'n cwmpasu oriau gweithredu, taliadau ychwanegol sy'n gysylltiedig â hynny, cymeradwyaeth i gyflwyno mesurau NASP os bydd eu hangen yn y dyfodol a chaniatâd i ymestyn seilwaith parcio ceir a seilwaith ategol arall (e.e. awyrendy) os bydd ei angen.

VI. Penodi rheolwr prosiect ar gyfer y gwaith cyfalaf:

- Llunio amserlen ar gyfer cynllunio'r gwaith, sicrhau cymeradwyaeth ar ei gyfer a chael awdurdod cyllidebol i'w gwblhau;
- Tynnu lluniau pensaernïol a pheirianyddol ar gyfer y gwelliannau ffisegol arfaethedig (y tu mewn a'r tu allan);
  - Manylebau ar gyfer unrhyw gyfarpar newydd sy'n gysylltiedig â hwy;
  - Cael caniatâd cynllunio ac adeiladu ar gyfer y cynlluniau.

VII. Datblygu darpariaeth gyllidebol briodol – costau cyfalaf a chostau rhedeg – i dalu am yr eitemau hyn.

VIII. Asesu a oes angen cael cymeradwyaeth ar gyfer cymorth gwladwriaethol a naill ai:

- Cael cadarnhad gan yr Adran Drafnidiaeth a'r Comisiwn Ewropeaidd nad oes angen hysbysiad ffurfiol o gymorth gwladwriaethol;

- Cyflwyno hysbysiad ar gyfer y cynllun ehangu posibl llawn o dan yr argymhellion hyn a phob argymhelliad sy'n dilyn o fewn y tri mis calendr nesaf er mwyn cael cymeradwyaeth ar gyfer cymorth gwladwriaethol cyn i weithredwr y Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyhoeddus newydd gael ei ddewis a chyn i'r gwaith cyfalaf ddechrau.

IX. Tendro a gwneud unrhyw waith gwella cyfleusterau sy'n gysylltiedig â'r amserlen weithredol newydd cyn i gontract y Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyhoeddus newydd ddechrau.

X. Gyda Chyngor Sir Ynys Môn a CWL ystyried pa mor ymarferol fyddai i CWL ddod yn gyfrifol am redeg Maes Awyr Ynys Môn a rheoli rhaglen uwchraddio NASP.

XI. Cwblhau trafodaethau amlinellol ag APG ac Airbus ynghylch defnyddio Penarlâg ar gyfer gwasanaethau sifil rheolaidd:

- Cael eglurder ynghylch yr angen i adeiladu terfynfa newydd i deithwyr neu newid swyddogaeth y bwyty (a fyddai'n llai drud) pe bai angen NASP.
- Ymchwilio i awydd APG i fuddsoddi mewn unrhyw fentrau o'r fath sy'n ymwneud â gwasanaeth awyr sifil.
- Sicrhau y rhoddir gwybod i Airbus a'i fod yn fodlon ar y ffordd y mae pethau yn cael eu 'gadael'.
  Ceisio slotiau ar gyfer 'Gogledd Cymru' yn LHR3 ar gyfer gwasanaeth awyr trionglog.

Os ceir Tyrbin Un Injan (SET) ar gyfer HAW-CWL (gweler isod) ystyried opsiynau eraill ar gyfer yr awyren (e.e. HAW-CEG).

XII. Cyflwyno achos cryf o blaid mynediad i slotiau o Faes Awyr Caerdydd a Maes Awyr y Fali i LHR i'r Adran Drafnidiaeth a Llywodraeth y DU yn fwy cyffredinol.

XIII. Dylid cynnig cymorth gweithredol i CIAL ar gyfer datblygu ‘llwybr tenau’, yn annibynnol ar y Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyhoeddus bresennol ond sy'n ei hategu, gan ddefnyddio naill ai dynodiadau Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyhoeddus pellach neu Gronfa Datblygu Llwybrau a awdurdodwyd yn ffurfiol i hybu ymdrechion masnachol maes awyr safonol yn y maes hwn, ond hefyd i weithredu fel dewis amgen i Doll Teithwyr Awyr ostyngol os na chaiff y pŵer hwn ei ddatganoli i Lywodraeth Cymru yn y pen draw.

Ystyried dynodiadau Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyhoeddus cenedlaethol a rhyngwladol eraill.
Datblygu Cronfa Datblygu Llwybrau wedi'i hawdurdodi'n ffurfiol; a fydd yn seiliedig, yn ôl pob tebyg, ar fethodoleg debyg i Gronfa Cysylltedd Awyr Rhanbarthol yr Adran Drafnidiaeth sydd eisoes wedi'i hawdurdodi.
Rhagweld cwynion ynghylch cystadleuaeth a chymorth gwladwriaethol gan Faes Awyr Bryste a'u hateb a chadarnhau'n derfynol nad yw Bryste a Chaerdydd yn rhannu'r un dalgylch. Mae hyn yn hanfodol i bob menter bosibl yn y maes hwn. Comisiynu Astudiaeth o Ddalgylch sy'n dangos yr honiad hwn.

## Ymestyn y Rhwydwaith o Ogledd-orllewin Cymru

Fel y nodwyd uchod, mae'n debyg mai'r Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyhoeddus newydd (h.y. 201822) fydd y cyfle tebygol i gadarnhau unrhyw dreial sy'n cael ei gynnal mewn perthynas â lleoli awyren yng Ngogledd-orllewin Cymru. Mae hyn yn cynyddu hyd yr eithaf y cyfleoedd ar gyfer datblygu llwybrau ychwanegol o'r rhanbarth hwnnw. Wedyn, gellid defnyddio'r Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyhoeddus ddilynol (2022-26) fel y cyfle i ymestyn y rhwydwaith o Ynys Môn drwy ychwanegu gwasanaethau ychwanegol ac, o bosibl, gyflwyno Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyhoeddus ac awyren arall.

## Tyrbinau Un Injan

Gellir dadlau hefyd mai dyma'r adeg hefyd i wneud penderfyniad i ddiystyru defnyddio awyrennau Tyrbin Un Injan â naw o seddi i ddarparu gwasanaeth amlach ar brif lwybr y Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyhoeddus. O'r awyrennau Tyrbin Un Injan a ystyriwyd y Pilatus PC12 yw'r opsiwn mwyaf deniadol ond mae'n ddrud i'w gweithredu; mae'r Cessna Caravan yn cynnig costau isel ond nid yw'n darparu amgylchedd deniadol i deithwyr ac mae ond yn sicrhau arbedion cost bach o gymharu ag awyren â 19 o seddi os oes digon o alw i gyfiawnhau tri chylchdro y dydd. Byddai'r awyrennau Tyrbin Un Injan hefyd yn cyflwyno cyfyngiadau sylweddol ar nifer y seddi a gallent effeithio ar y galw am y gwasanaeth yn y dyfodol am fod tystiolaeth y bydd rhai teithwyr yn osgoi hedfan ar awyrennau bach iawn (fel y digwyddodd pan oedd Link Air yn defnyddio awyren King Air ar y Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyhoeddus ym mis Rhagfyr 2015).

Dim ond os bydd y galw am y gwasanaeth yn lleihau'n sydyn neu i lai na 7,500 o deithwyr y flwyddyn y dylid ystyried defnyddio awyrennau Tyrbin Un Injan ac ystyrir ei bod yn ddymunol cadw gwasanaeth y Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyhoeddus.  Gyda'r eithriad hwn, yn ein barn ni, gallai'r defnydd o awyrennau Tyrbin Un Injan gael ei gyfyngu i opsiynau hirdymor megis (HAW) Hwlffordd - CWL er mwyn cynnig ehediadau cysylltu i wasanaeth gwennol i Heathrow o Gaerdydd, ac unrhyw opsiynau ar draws y wlad (e.e. HAW - CEG (Penarlâg) neu Lanbedr i Gaerdydd a phan ystyrir bod y rhain yn angenrheidiol neu'n fuddiol.

## Opsiwn perchenogaeth o'r awyren

Yn ogystal â pharhau i graffu'n fanwl ar hynt y Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyhoeddus a sicrhau ei bod yn cael ei chyflawni mewn ffordd gosteffeithiol, dylid ystyried mater perchenogaeth bosibl yr awyren sy'n cael ei defnyddio ymhellach fel opsiwn, efallai gyda golwg ar gyfnod 2022-2026 y Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyhoeddus.

**Argymhellion Tymor Canolig – Hirdymor:**

I. Adolygu'r rhagolygon ar gyfer llwybrau yn y dyfodol, pan ddaw perfformiad y gwasanaethau a ddarparwyd o dan gontract 2018-22 yn glir.

II. Peidio â dewis opsiwn yr awyren Tyrbin Un Injan ar gyfer y Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyhoeddus bresennol. Ailystyried awyren Tyrbin Un Injan os bydd CWL yn cael mynediad i LHR. Gallai'r awyren hon wedyn ddarparu gwasanaeth hedfan bwydo defnyddiol o HAW i CWL, ar gyfer ei wasanaeth gwennol i LHR a hefyd gynnig y potensial i ddarparu cyswllt rhwng CEG-CWL.

III. Ystyried y posibilrwydd o ddatblygu Cyd-fenter â gweithredwr er mwyn helpu i rannu'r risg a galluogi Llywodraeth Cymru i gael budd o unrhyw slotiau a gafaelir yn Heathrow.

# 1 CYFLWYNIAD

1.1 Cynhaliwyd pum astudiaeth dechnegol fanwl fel rhan o adolygiad trylwyr o fodel y Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyhoeddus sy'n cefnogi'r gwasanaeth awyr presennol rhwng Caerdydd ac Ynys Môn. Bwriadwyd iddynt lywio penderfyniadau ynghylch dyfodol hirdymor y llwybr ac ymestyn system y Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyhoeddus, o bosibl, i gynnwys llwybrau eraill yng Nghymru a chyrchfannau mewn rhannau eraill o'r DU. Drwy ystyried amrywiaeth eang o senarios ac opsiynau ar gyfer llwybrau, mae'r adroddiad technegol wedi darparu cryn dipyn o wybodaeth a gwaith dadansoddi, y mae'r ddogfen hon wedi'u defnyddio i lunio crynodeb hawdd ei ddeall o'r gwaith, gan gynnwys canfyddiadau allweddol, casgliadau ac argymhellion.

1.2 Gan adeiladu ar ddwy astudiaeth gynharach – y gyntaf i ystyried gwelliannau posibl i wasanaeth awyr y Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyhoeddus rhwng Caerdydd ac Ynys Môn (gan gynnwys sut y gellid gwneud defnydd dwysach ac, felly, fwy effeithlon o awyren y Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyhoeddus), yr ail i adolygu amrywiaeth o gyfleoedd ar gyfer 'llwybr tenau'[9] o dan y Rhwymedigaeth Gwasanaeth i weithredu o Faes Awyr Caerdydd - comisiynodd Llywodraeth Cymru RPS a fu'n gweithio gyda Northpoint Aviation (sef awduron yr adroddiadau cynharach) i ymestyn y rhaglen waith yn adolygiad ehangach a manylach.

1.3 Roedd cwmpas y gwaith estynedig hwn yn cynnwys y canlynol:

I. Opsiynau ar gyfer lleihau costau/cymhorthdal y pen y gwasanaeth presennol rhwng Maes Awyr Caerdydd a Maes Awyr Ynys Môn, gan gynnwys ystyried lleihau nifer yr ehediadau/rhoi'r gorau i ddarparu'r gwasanaeth, a'r gwerth economaidd y mae'r Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyhoeddus yn ei ychwanegu ar hyn o bryd.

II. Cymharu llwybr y gwasanaeth hwnnw â llwybr amgen posibl rhwng Penarlâg a Chaerdydd.

III. Edrych ar y rhagolygon ar gyfer gwasanaethau mewnol o Hwlffordd a'r meysydd awyr llai o faint eraill yng Nghymru a chyfuniadau gwahanol ohonynt.

IV. Ystyried yr effaith y gallai penderfyniad diweddar Asiantaeth Diogelwch Hedfan Ewrop (EASA) i ardystio awyrennau ag un tyrbin injan (SETs) ar gyfer gwasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus masnachol ei chael o ran dichonoldeb y llwybrau gwahanol sy'n cael eu hystyried.

1.4 Ystyried y potensial i gynyddu'r gwasanaeth a gynigir, drwy gynyddu maint yr awyren i tua 31 o seddi a chysylltu'r Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyhoeddus â chyrchfannau domestig ac Ewropeaidd deniadol ac, o ganlyniad, ystyried hefyd ofynion posibl y

[9] Canolbwyntiodd yr astudiaeth o'r Llwybr Tenau ar lwybrau i Gaerdydd (CWL) ac oddi yno a fyddai'n cludo 50,000 o deithwyr y flwyddyn neu lai ac a fyddai'n llai tebygol, felly, o fod yn fasnachol ddichonadwy fel gwasanaeth annibynnol na'r rhai â marchnad bosibl sy'n fwy na hynny.

Rhaglen Diogelwch Hedfan Genedlaethol (NASP), lle mae awyrennau sy'n cynnwys mwy na 19 o seddi yn ofynnol ar lwybrau penodol (e.e. allan o Ynys Môn a Phenarlâg).

1.5 Gyda'i gilydd, cyfeirir at y corff hwn o waith fel Adolygiad 2016 o Rwymedigaeth Gwasanaeth Cyhoeddus Cymru ac mae'n cynnwys cyfres o adroddiadau astudiaethau 'technegol' (a restrir isod), sy'n gweithredu fel cyfres o atodiadau sy'n ategu'r adroddiad cryno lefel uchaf hwn:

I. Astudiaeth Gwella Llwybr Ynys Môn Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyhoeddus Cymru, gan gynnwys opsiynau ar gyfer ategu'r Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyhoeddus ag ehediadau canol dydd.

II. Opsiynau ar gyfer Datblygu Llwybrau Tenau o Faes Awyr Caerdydd, a ystyriodd opsiynau yn ychwanegol at y rhai sy'n ymwneud â gwneud defnydd ychwanegol o awyren y Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyhoeddus.

III. Gwerthusiad o Gydymffurfiaeth â NASP ym Meysydd Awyr Ynys Môn a Phenarlâg.

IV. Opsiynau ar gyfer Rhwymedigaethau Gwasanaeth Cyhoeddus Hedfan yng Nghymru yn yr hirdymor.

V. Ystyriaethau o ran Awyrennau sy'n Gysylltiedig â Chaffael Gwasanaethau Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyhoeddus yng Nghymru.

1.6 Felly diben yr Adroddiad Cryno hwn yw; crynhoi'r ddealltwriaeth allweddol, y gwaith dadansoddi a'r casgliadau o'r adroddiadau technegol; cyfuno eu canfyddiadau; dod i gasgliadau a chyflwyno argymhellion i'w hystyried gan Weinidogion Cymru.

## Y Cefndir i Weithrediad y Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyhoeddus Bresennol

1.7 Cyflwynodd Llywodraeth Cymru gyswllt awyr Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyhoeddus rhwng y gogledd a'r de a oedd yn canolbwyntio ar deithwyr busnes yn 2007 er mwyn gwella cysylltedd rhwng gogledd a de Cymru er budd economi Cymru. Cafodd llwybr y Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyhoeddus ei weithredu yn gyntaf gan Highland Airways o fis Mai 2007 tan fis Mawrth 2010, pan aeth y cwmni hedfan i law'r derbynnydd. Cafodd y Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyhoeddus ei haildendro ar unwaith ar gontract brys dros dro ac ailddechreuodd Manx2, a'i gwmni hedfan partner FLM, ddarparu'r gwasanaeth ar 10 Mai 2010. Fodd bynnag, yn hollbwysig, dylid nodi nad oedd gwasanaeth y Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyhoeddus ar gael am gyfnod o dri mis. Cynhaliwyd proses aildendro lawn yn fuan wedyn, gyda chontract pedair blynedd yn cael ei ddyfarnu i Manx2 ac FLM ym mis Rhagfyr 2010.

1.8 Fodd bynnag, ar ddechrau mis Tachwedd 2012, collodd FLM ei Dystysgrif Gweithredwr Awyr (AOC) ac fe'i disodlwyd fel cludwr y llwybr gan Links Air. Er i Lywodraeth Cymru gytuno i newyddu hawliau a rhwymedigaethau Manx2 o dan y contract i gwmni newydd, sef Citywing, ar 1 Ionawr 2013, ym mis Mawrth 2013 penderfynodd Llywodraeth Cymru benodi Links Air i redeg contract y gwasanaeth awyr ar gyfer cyfnod y contract a oedd yn weddill (h.y. rhwng 17 Mehefin 2013 a mis Tachwedd 2014).


1.9 Mewn cystadleuaeth dendro ddilynol, dyfarnodd Llywodraeth Cymru gontract Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyhoeddus newydd i Links Air ar gyfer y llwybr

yn dechrau ym mis Tachwedd 2014 ac yn para tan fis Rhagfyr 2018. Fodd bynnag, ym mis Hydref

2015, ataliwyd Tystysgrif Gweithredwr Awyr Links Air gan yr Awdurdod Hedfan Sifil. Ar ôl hynny, isgontractiodd awyrennau oddi wrth nifer o gwmnïau er mwyn darparu'r gwasanaeth. Tynnodd Links Air yn ôl o'r llwybr ym mis Ionawr 2016 ac, yn dilyn tendr cystadleuol, fe'i disodlwyd gan Van Air ar gontract dros dro, a ymestynnwyd wedyn tan fis Mai 2017.

1.10 Ar hyn o bryd mae'r gwasanaeth yn cynnwys LET410 sydd â 19 o seddi (Gweler Ffigur 1) a leolir yng Nghaerdydd ac sy'n cyflawni dau gylchdro bob dydd – ben bore ac yn hwyr y prynhawn - o ddydd Llun i ddydd Gwener (nid oes yr un cylchdro ar y penwythnos), gyda'r gwasanaeth yn gorffen yn gynharach ar ddydd Gwener oherwydd oriau agor byrrach yr Awyrlu yn RAF y Fali, lle mae Terfynfa Maes Awyr Ynys Môn yn faes awyr sifil oddi mewn iddo.

Dangosir nifer y teithwyr a gludwyd bob mis ers i'r llwybr ddechrau ar y graff isod. (noder i'r adran hon gael ei chwblhau cyn i VanAir dynnu'n ôl)




FFIGUR 1: AWYREN LET410 NAD YW DAN BWYSEDD A DDEFNYDDIR AR HYN O EI GWEITHREDU GAN VANAIR A'I MARCHNATA GAN CITYWING
BRYD (SIC) AR LWYBR Y RHWYMEDIGAETH GWASANAETH CYHOEDDUS - A GAIFF




1.11 Mae hanes brith y gwasanaeth wedi sicrhau bod perfformiad llwybr y Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyhoeddus, fel y'i mesurir yn ôl nifer y teithwyr, wedi'i nodweddu gan gryn anwadalrwydd. Mae ei danberfformiad diweddar yn debygol o adlewyrchu, o leiaf yn rhannol, y nifer fawr o heriau y mae'r gwasanaeth wedi'u hwynebu, yn enwedig y canlynol:

Dirwasgiad 2008/9;

Tarfu ar y gwasanaeth o ganlyniad i fethiant cwmni hedfan yn 2010;

Newidiadau i'r gweithredwr a'r math o awyren a oedd yn cael ei defnyddio;

Atal Tystysgrifau Gweithredwr Awyr (ar gyfer FLM a Links Air);

Y penderfyniad annisgwyl yn 2016 i ddileu'r gwasanaeth a dyfarnu contractau brys / dros dro er mwyn parhau i ddarparu'r gwasanaeth;

Arweiniodd rhywfaint o hyn at sylw negyddol a dyfalu yn y wasg;

Anghysondebau o ran polisïau prisio;

Dim digon o adnoddau i farchnata'r llwybr.

## Cyfleoedd yn y Dyfodol

1.12 Mae'r Adolygiad wedi nodi rhai cyfleoedd pwysig a allai helpu i wella ffawd y llwybr presennol a'i berfformiad, sef (heb fod mewn unrhyw drefn benodol):

bwriedir cyflawni datblygiadau pŵer a masnachol newydd mawr ar Ynys Môn sy'n golygu y bydd angen i gontractwyr a'u cynghorwyr gyrraedd yr ardal yn effeithlon; er enghraifft,

mae Prosiect Morlyn Llanw Abertawe yn brosiect ynni pwysig posibl a allai ryngweithio â rhaglen Ynys Ynni Môn;

Y potensial i ddenu mwy o dwristiaid i mewn i'r ardal, nid dim ond o weddill y DU, ond hefyd o dramor, gan ganolbwyntio'n benodol ar y farchnad gwyliau byr yn seiliedig ar yr asedau a'r profiadau twristiaeth awyr agored sydd gan Ogledd-orllewin Cymru i'w cynnig;

Y potensial i annog pecynnu dynamig drwy gydweithrediadau rhwng y cwmni hedfan, y meysydd awyr a darparwyr llety ac atyniadau lleol;

Y posibilrwydd y gallai gwasanaethau awyr hedfan i gyrchfannau eraill fel na fydd yr awyren yn segur pan na fydd ei hangen ar gyfer gweithgarwch sy'n gysylltiedig â'r Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyhoeddus;

Y gallai'r math o awyren a ddefnyddir, a allai fod yn wahanol, fod yn fwy cydnaws â'r nod o ysgogi marchnadoedd newydd (e.e. llwybr i Lundain a gweithrediadau siarter ad hoc), yn ogystal â bodloni gofynion gwasanaeth craidd y Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyhoeddus;

Y posibilrwydd y gellid newid oriau/dyddiau gweithredu er mwyn cynyddu hyd yr eithaf ddefnyddioldeb ar y farchnad ac ystyried, gyda rhanddeiliaid a busnesau allweddol, werth gwasanaeth a fydd yn ei gwneud yn bosibl i sectorau allweddol ac Ardaloedd Menter mewn rhannau gwahanol o Gymru gael eu cysylltu'n gyflym ac yn effeithlon.

# 2 COLADU'R DYSTIOLAETH

## Cyd-destun

2.1 Mae'n werth cadw mewn cof ei bod wedi cymryd mwy na blwyddyn i baratoi'r gyfres o adroddiadau technegol sy'n ategu'r ddogfen gryno hon a bod nifer o ddatblygiadau pwysig wedi bod ar droed yn ystod y cyfnod hwnnw sydd wedi dylanwadu'n uniongyrchol, neu'n anuniongyrchol, ar y Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyhoeddus, a chwmpas y gwaith roedd angen ei wneud ar gyfer yr adolygiad hwn, gan gynnwys:

- colli Tystysgrif Gweithredwr Awyr a phenderfyniad Links Air i ddileu gwasanaethau yn sgil hynny;
- y ffaith bod y llwybr yn gorfod cael ei weithredu o dan gontract brys ar hyn o bryd;
- y penderfyniad i ddewis Heathrow i adeiladu rhedfa newydd ar gyfer Deddwyrain Lloegr;
- pleidlais Brexit ac eglurhad diweddar Prif Weinidog y DU ynglŷn â goblygiadau hynny;
- Gweinidogion newydd o fewn Llywodraeth Cymru sy'n awyddus i ailedrych ar y Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyhoeddus;
- nifer o ddatblygiadau llwyddiannus o ran llwybrau a nifer gynyddol o deithwyr ym Maes Awyr Caerdydd.

Dangosir yr adroddiadau technegol yn Nhabl 1.

TABL 1: PYNCIAU, AMSERIAD A THREFN YR ASTUDIAETHAU

| Crynodeb Adroddiadau Technegol yr Adolygiad o'r Diwydiant Awyr yng Nghymru | Dyddiadau |
|---|---|
| Opsiynau gwella i wasanaeth awyr y Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyhoeddus rhwng Maes Awyr Caerdydd (CWL) a Maes Awyr Ynys Môn (VLY) neu roedd yr adroddiad yn dwyn y teitl mwy ffurfiol ***Demand Forecasting, Economic Analysis and Exploring Extending the Aircraft Size and Operating Hours at Anglesey Airport*** *gydag Adran Atodiadau ategol.* | Ionawr – Ebrill 2016 |
| Cyfleoedd datblygu llwybr tenau o CWL gyda'r adroddiad yn dwyn y teitl mwy ffurfiol ***Thin Route Development Possibilities out of Cardiff Airport and appropriate State Aid Mechanisms to help deliver***. | Ebrill – Gorffennaf 2016 |

| | |
|---|---|
| Archwilio gofynion posibl y Rhaglen Diogelwch Hedfan Genedlaethol (NASP), lle mae awyrennau sy'n cynnwys mwy na 19 o seddi yn ofynnol ar lwybrau penodol (e.e. allan o Ynys Môn a Phenarlâg). Yr adroddiad yn dwyn y teitl mwy ffurfiol Welsh Aviation Review - ***National Aviation Security Programme Implications*** | Tachwedd – Rhagfyr 2016 |
| Opsiynau ar gyfer lleihau costau/cymhorthdal y pen y gwasanaeth presennol rhwng Maes Awyr Caerdydd a Maes Awyr Ynys Môn, gan gynnwys ystyried lleihau nifer yr ehediadau/rhoi'r gorau i ddarparu'r gwasanaeth, a'r gwerth economaidd y mae'r Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyhoeddus yn ei ychwanegu ar hyn o bryd a Chymharu'r llwybr gwasanaeth hwnnw ag opsiwn amgen posibl o Benarlâg i Gaerdydd. Yr adroddiad yn dwyn y teitl mwy ffurfiol ***Technical Report into Long Term Future Options for Aviation PSOs in Wales*** *gydag Adran Atodiadau ategol.* | Medi – Rhagfyr 2016 |
| Ystyried yr effaith y gallai penderfyniad diweddar *Asiantaeth Diogelwch Hedfan Ewrop* (EASA) i ardystio awyrennau ag un tyrbin injan (SETs) ar gyfer gwasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus masnachol ei chael o ran dichonoldeb y llwybrau gwahanol sy'n cael eu hystyried. Roedd hefyd yn cynnwys ystyried Ystyriaethau o ran Awyrennau sy'n Gysylltiedig â Chaffael Gwasanaethau Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyhoeddus yng Nghymru Roedd yr adroddiad yn dwyn y teitl mwy ffurfiol Welsh Aviation Review - ***Aircraft Related Considerations*** | Tachwedd – Rhagfyr 2016 |
| **The Intra Wales Air Service PSO 2016 Review -** ***Summary Report*** | Ionawr – Chwefror 2017 |

2.2 Mae'r ddogfennaeth dechnegol sylfaenol yn adlewyrchu'r newidiadau hyn mewn amser real, gan ddibynnu ar ddyddiadau comisiynu a chwblhau. O ganlyniad, un o nodau'r ddogfen gryno hon yw defnyddio pob un ohonynt fel y bo angen a rhoi darlun cynhwysfawr, cyffredinol o'r opsiynau polisi amgen a werthuswyd ym mis Ionawr 2017.

## Ffynonellau a Data

2.3 Mae'r adolygiad presennol wedi bod yn ffodus am fod cryn nifer o astudiaethau hanesyddol o wasanaeth y Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyhoeddus yng

Nghymru ar gael iddo eu defnyddio, yn ogystal â sawl arolwg o deithwyr sy'n ymwneud â llwybrau penodol, data cyfredol ar y defnydd o'r gwasanaeth gan Gyngor Sir Ynys Môn ac, yn fwyaf diweddar, Arolwg Teithwyr yr Awdurdod Hedfan Sifil a gynhaliwyd yn 2015. At hynny, llwyddodd Northpoint i gael gafael ar rywfaint o hen ddata a thaenlenni Highland Airways sy'n helpu i ategu tybiaethau pwysig ac a'i gwnaeth yn bosibl i astudiaeth achos marchnata gael ei chynnal yn ystod camau cychwynnol y gwaith.

2.4 Ategwyd y deunydd craidd hwn gan adolygiad ehangach o lenyddiaeth, a nodir yn y Llyfryddiaeth helaeth (gweler Atodiad A), data hanesyddol yr Awdurdod Hedfan Sifil, nifer o ymgyngoriadau â rhanddeiliaid a chyfres o ymweliadau safle a chyfarfodydd â rhanddeiliaid ym mis Ionawr a mis Tachwedd 2016 (gweler Atodiad B).

2.5 Defnyddiodd yr astudiaeth feddalwedd APEX RDC Aviation[10], sy'n modelu economeg fasnachol gwasanaethau awyr yn seiliedig ar amrywiaeth eang o newidynnau cyfnewidiol, lle mae'r allbwn allweddol yn amcanestyniad pedair blynedd o elw a cholled neu'n amcangyfrif o'r pris cyfartalog (heb gynnwys trethi) y mae angen ei godi er mwyn mantoli'r cyfrifon. Gofynnwyd i RDC addasu APEX ar gyfer y gwaith hwn, drwy ychwanegu mathau newydd o awyrennau a meysydd awyr at y gronfa ddata honno. Hefyd, gofynnwyd i RDC ddiweddaru model disgyrchiant o fewn Cymru a ddefnyddiwyd yn yr astudiaethau dichonoldeb gwreiddiol yn 2003, er mwyn llunio rhagamcanion o'r galw o fan i fan ar gyfer sectorau lle nad oes unrhyw wasanaethau ar hyn o bryd. Darparodd fersiwn 2003 o'r model nifer o amcangyfrifon ar gyfer y llwybr rhwng Caerdydd ac Ynys Môn, y dangosodd y llwybr yn ddiweddarach eu bod yn gadarn yn y bôn ac o fewn lwfansau cyfeiliornad derbyniol.

2.6 At hynny, gwnaed gwaith meincnodi ar gyfer dulliau gweithredu tebyg mewn mannau eraill ledled Ewrop y gellir eu cymharu â Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyhoeddus Cymru, gan gyfeirio'n benodol at lwybrau a rhwydweithiau Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyhoeddus domestig mewnol, a gwasanaethau llwybr tenau eraill (e.e. i weddill y DU ac Ewrop). Darparodd y gwaith hwn ddeunydd cymharol defnyddiol ar gyfer amrywiaeth o senarios.

2.7 Yn olaf, mae'r astudiaethau technegol sy'n ategu'r adroddiad cryno hwn hefyd wedi cael budd, gyda'i gilydd, o gyfraniadau nifer o arbenigwyr mewnol ac allanol a gyflogwyd gan Northpoint ac a restrir yn Atodiad C.

2.8 Mae'n debygol mai hon yw'r astudiaeth fwyaf cynhwysfawr o'r Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyhoeddus, ac opsiynau ar gyfer ei dyfodol, a gomisiynwyd hyd yma.

## Methodoleg

### Opsiynau o ran Llwybrau

2.9 Rydym wedi defnyddio'r un fethodoleg a dull gweithredu a ddefnyddiwyd yn wreiddiol yn astudiaeth Gwella y Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyhoeddus (Ynys Môn) a'r astudiaeth o Ddatblygu Llwybrau Tenau (Caerdydd) i werthuso opsiynau gwahanol

[10] Mae APEX yn llwyfan dadansoddi perfformiad cwmnïau hedfan a ddatblygwyd gan RDC Aviation

ar gyfer llwybrau yn y mwyaf a'r mwyaf diweddar o'r adroddiadau technegol, sef Astudiaeth Adolygu'r Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyhoeddus. Mae'r olaf yn cynnwys meysydd awyr, mathau o awyrennau a chysyniadau gweithredu newydd, ond er mwyn sicrhau'r lefel uchaf posibl o gysondeb ar lefel llwybr, rydym wedi ceisio bod yn gyson o ran y technegau a ddefnyddiwyd i ragweld y galw, gwneud gwaith gwerthuso masnachol ac arfarnu llwybrau (gan gynnwys defnyddio gwaith dadansoddi WeLTAG [11] Cam 1). Roedd rhai gwahaniaethau, gan fod y rhagamcanion o'r galw a luniwyd gennym wedi gorfod defnyddio nifer o dechnegau gwahanol gan ddibynnu ar yr amgylchiadau a'r data a oedd ar gael; ond ar y cyfan, mae'r prosesau arfarnu yn debyg iawn i'w gilydd.

2.10 Wrth wneud hynny, bu'n bosibl inni lunio camau allweddol adnabyddadwy yn sail dystiolaeth pob un o'r adroddiadau technegol a oedd yn canolbwyntio ar lwybrau - dadansoddiad o'r farchnad, rhagamcanion o'r defnydd o'r gwasanaeth, gwaith arfarnu ariannol, gwaith asesu'r effaith economaidd ac, wedyn, feini prawf strategaeth a pholisi cyffredinol drwy broses WelTAG gan ddefnyddio amrywiaeth o fetrigau:

Hygyrchedd - pellter, cystadlu rhwng dulliau teithio, amseroedd/costau teithio;

Hyfywedd masnachol - ffactorau llwytho, y cymhorthdal sydd ei angen;

Effaith economaidd – cyflogaeth, y manteision i ddefnyddwyr a GYG;

Effeithiau amgylcheddol - allyriadau $CO^2$.

2.11 Mae'n werth nodi mai'r rheswm dros ddefnyddio un metrig amgylcheddol yn unig yw bod metrigau eraill, megis sŵn, ansawdd aer, ecoleg a mynediad ar y ddaear, yn cael eu hystyried yn llai amlwg am fod lefelau/symudiadau'r traffig sy'n gysylltiedig â hwy yn rhy fach i gael unrhyw effeithiau perthnasol, yn enwedig gan y bydd y gwasanaethau a ragwelir, ar lefel maes awyr, yn defnyddio seilwaith sy'n bodoli eisoes yn bennaf.

## Scenarios Polisi

2.12 Roedd y brîff yn yr Adolygiad o'r Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyhoeddus Tymor Hwy yn gofyn am gwblhau'r canlynol:

Yr Adroddiad ar yr Ystyriaethau o ran Awyrennau (neu SET - Tyrbin Un Injan);

[11] Mae WelTAG yn fethodoleg a ddefnyddir i arfarnu prosiectau trafnidiaeth yng Nghymru. Mae Cam 1 yn cyfeirio at arfarniad lefel uchel llai manwl cychwynnol.

Ymweliadau safle â phob un o'r meysydd awyr yng Nghymru a allai ddarparu ar gyfer gwasanaethau awyr cludo teithwyr rheolaidd;

Gwerthusiad NASP o Ynys Môn a Phenarlâg; a'r angen i ystyried yr holl faterion perthnasol eraill megis:

gofynion o ran seilwaith meysydd awyr, costau gweithredol a chostau cyfalaf cysylltiedig a pherchenogaeth a strwythurau llywodraethu;

sut y gallai rheoliadau Rhwymedigaeth Gwasanaethau Cyhoeddus gael eu cymhwyso; yr angen i ystyried opsiynau aml-lwybr (neu rwydwaith).

2.13 Ein nod oedd llunio nifer o senarios strategol mwy cyffredinol a oedd yn ystyried y parau o lwybrau, yr arosiadau a'r triongliannau a oedd yn ymddangos yn fwyaf addawol, ac mewn rhai achosion eu cyfuno, fel sail ar gyfer casglu'r amrywiaeth eang o opsiynau polisi, yr oedd yr holl waith blaenorol wedi'i nodi, at ei gilydd a'i hystyried.

2.14 Er mwyn gwneud hyn datblygwyd 12 'scenario' ar gyfer gwerthuso gan ddefnyddio WelTAG ac wedyn rhoddwyd pwysoliad i'r arfarniadau yn seiliedig ar bum amcan strategol, er mwyn help i nodi'r rhai a oedd yn ymddangos yn arbennig o aneffeithiol ac, i'r gwrthwyneb, y rhai a oedd yn ymddangos yn fwyaf addawol. Nodir y gwaith hwn yn dryloyw yn y prif adroddiad atodol ac mae'n un o elfennau canolog yr adroddiad cryno hwn oherwydd, ochr yn ochr â goblygiadau ariannol pob senario, mae'n ategu'r argymhellion sy'n dilyn wedyn ac yn helpu i'w llywio.


# 3 ASTUDIAETH GWELLA LLWYBR YNYS MÔN (NEU RWYMEDIGAETH GWASANAETH CYHOEDDUS CYMRU)

## Dalgylch a Thybiaethau

3.1 Canolbwyntiodd yr astudiaeth hon ar y ffordd y gellid defnyddio'r awyren a neilltuwyd i ddarparu gwasanaeth y Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyhoeddus rhwng Caerdydd ac Ynys Môn i gynnig gweithrediadau ‘masnachol’ (h.y. nad ydynt yn cael cymhorthdal) eraill ochr yn ochr â'i hymrwymiadau o dan y Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyhoeddus, a chynyddu nifer defnyddwyr gwasanaeth presennol y Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyhoeddus ar yr un pryd. Ystyriwyd y syniad amgen o leoli'r awyren yn Ynys Môn ac edrychwyd ar nifer o gyfleoedd i ddatblygu llwybrau deilliannol yn eithaf manwl, yn ogystal â gwelliannau posibl i lwybrau amgen allan o'r ganolfan bresennol yng Nghaerdydd.

3.2 Cludodd gweithrediad y Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyhoeddus bresennol 9,000 o deithwyr (pax) yn 2015. Ystyriwyd bod hyn wedi methu â gwireddu gwir botensial y llwybr pe bai'n cael ei weithredu'n gyson, heb fygythiadau y byddai'n cau, gyda gwaith marchnata priodol a thocynnau wedi'u prisio'n gystadleuol. Am y rheswm hwn, defnyddiwyd ffigur o 11,000 o deithwyr fel y dybiaeth sylfaenol mewn iteriadau rhagamcanu dilynol. Mae'r cynnydd yn nifer y teithwyr dros dri mis blaenorol (bryd hynny) 2016 yn awgrymu bod hon yn dybiaeth briodol yn ôl pob tebyg.

FFIGUR 2: DALGYLCHOEDD WEDI'U HAROSOD AR FAP SAMPLU ARUP (2015)



3.3 Mae'r dalgylch ar gyfer y gwasanaeth yng Ngogledd-orllewin Cymru yn seiliedig ar astudiaeth Arup a gynhaliwyd yn 2015 (gweler Ffigur 2). Rydym wedi tybio tynnu llinell goch solet er mwyn dangos y dalgylch craidd a llinell goch ddotiog er mwyn dangos dalgylch mwy o faint a dybir ar gyfer cyrchfannau newydd deniadol, yn arbennig prifddinasoedd yn y DU neu lwybrau i hybiau rhyngwladol, yn helaethach er mwyn adlewyrchu gwelliannau disgwyliedig i waith marchnata a'r ffaith y byddai'n cynnwys ardaloedd pwysig sy'n denu llawer iawn o dwristiaid i mewn i'r ardal (e.e. yr Wyddfa, Castell Conwy, Llandudno a rheilffordd Blaenau Ffestiniog).

3.4 O ganlyniad, bu'n bosibl inni ddefnyddio data arolygon yr Awdurdod Hedfan Sifil, a oedd yn seiliedig ar ffiniau Gwynedd ac Ynys Môn, fel sail ar gyfer cyfrifo teithiau presennol sy'n dechrau yn y dalgylch neu sydd â chyrchfan ynddo, a gynrychiolir yn graffigol gan y llinell doredig yn Ffigur 2. Yn y bôn, mae'r llinell hon yn nodi'r ffin amcangyfrifedig lle y byddai gwasanaethau wedi'u lleoli ar Ynys Môn yn cynnig mwy o fanteision i deithwyr na phe baent yn teithio am ddwy i dair awr i Faes Awyr Manceinion er mwyn hedfan i'r un cyrchfan.

## Methodolegau Rhagamcanu a Ddefnyddiwyd

3.5 Er mwyn gwahaniaethu rhwng y rhagamcanion ar gyfer y galw am lwybr craidd y Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyhoeddus yn y dyfodol a'r rhagamcanion ar gyfer gwelliannau posibl i rwydweithiau llwybrau allan o Gaerdydd ac Ynys Môn mabwysiadodd yr astudiaeth hon fethodolegau rhagamcanu gwahanol.

TABL 2: SENARIOS RHAGAMCANU'R DEFNYDD A FODELWYD AR LWYBR Y RHWYMEDIGAETH GWASANAETH CYHOEDDUS

| | |
|---|---|
| 1A | Gwneud dim-Prisiau Tocynnau Sylfaenol Uwch |
| 1B | Gwneud Dim-Prisiau Tocynnau Sylfaenol Is |
| Gwelliannau Posibl i'r Gwasanaeth | |
| 2A | Diwrnod Hwy-Prisiau Tocynnau Sylfaenol Uwch |
| 2B | Diwrnod Hwy-Prisiau Tocynnau Sylfaenol Is |
| 3A | Trydydd cylchdro-Prisiau Tocynnau Sylfaenol Uwch |
| 3B | Trydydd cylchdro-Prisiau Tocynnau Sylfaenol Is |
| 4A | Awyren fwy o faint-Prisiau Tocynnau Sylfaenol Uwch |
| 4B | Awyren fwy o faint-Prisiau Tocynnau Sylfaenol Is |
| 5A | Awyren fwy o faint +trydydd cylchdro-Prisiau Tocynnau Sylfaenol Uwch |
| 5B | Awyren fwy o faint +trydydd cylchdro-Prisiau Tocynnau Sylfaenol Is |

| | |
|---|---|
| 6A | Gwneud Dim + cylchdro prynhawn dydd Sul-Prisiau Tocynnau Sylfaenol Uwch |
| 6B | Gwneud Dim + cylchdro prynhawn dydd Sul-Prisiau Tocynnau Sylfaenol Is |

| Ffynonellau Posibl Eraill a fyddai'n Creu Traffig | |
|---|---|
| 7A | Gwell Gwaith Marchnata sydd â Gwell Adnoddau Gweithredwr nad yw'n Ddeiliad Masnachfraint-Prisiau Tocynnau Sylfaenol Uwch |
| 7B | Gwell Gwaith Marchnata sydd â Gwell Adnoddau Gweithredwr nad yw'n Ddeiliad Masnachfraint-Prisiau Tocynnau Sylfaenol Is |
| 8A | Gweithredwr Masnachfraint, gan gynnwys systemau 'GDS' a 'Code Share' ym Maes Awyr Caerdydd-Prisiau Tocynnau Sylfaenol Uwch |
| 8B | Gweithredwr Masnachfraint, gan gynnwys systemau 'GDS' a 'Code Share' ym Maes Awyr Caerdydd-Prisiau Tocynnau Sylfaenol Is |

3.6 Yn yr achos cyntaf, lle mae cryn dipyn o ddata ar berfformiad hanesyddol ar gael, rydym wedi dibynnu ar lunio blaenamcanestyniadau cynyddrannol yn seiliedig ar berfformiad hanesyddol a sawl tybiaeth wedi'i diffinio'n ofalus am welliannau i'r gwasanaeth (a nodir yn Nhabl 2), er mwyn llunio cyfres o ragamcanion amrywiol tryloyw ar gyfer y Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyhoeddus. Lluniwyd cyfres fanwl o ragamcanion yn y modd hwn, gan ddefnyddio patrymau yn y set ddata hanesyddol helaeth, ond hefyd brofiad o lwybrau tenau a Rhwymedigaethau Gwasanaeth Cyhoeddus eraill. Arweiniodd hyn at ragamcanion ar gyfer amrywiolion megis newidiadau i amserlenni a'r defnydd o'r gwasanaeth ar y penwythnos, defnyddio awyren fwy o faint, gwelededd GDS, dulliau gwahanol o reoli arenillion, pe bai'r gweithredwr yn ddeiliad masnachfraint cwmni hedfan mwy o faint a newidynnau eraill megis gwasanaeth amlach. Nodir y canlyniadau yn adran nesaf y bennod hon.

3.7 Yn yr ail achos (h.y. yr opsiynau ar gyfer llwybrau newydd), lle nad oes data Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyhoeddus ar gael gan nad oes unrhyw wasanaethau ar hyn o bryd, gwnaethom droi'n ôl at ddull rhagamcanu ‘o'r gwaelod i fyny’ traddodiadol ar gyfer llwybrau sy'n cyrraedd safon y diwydiant, gan ddefnyddio data arolygon yr Awdurdod Hedfan Sifil a thybiaethau eithaf ceidwadol o ran treiddio i'r farchnad a chyfraddau ysgogi.

3.8 Adolygwyd cyfyngiadau gweithredol a gwelliannau posibl yn RAF y Fali (e.e. oriau agor, diffyg awyrendy i storio'r awyren dros nos, cau ar y penwythnos a chydymffurfio â NASP), yn ogystal â mathau tebygol o awyrennau ar y llwybr. Wedyn amcangyfrifwyd trefn fras maint costau gwahanol opsiynau ac ystyriwyd a chofnodwyd gweithredwyr awyr Ewropeaidd perthnasol, gan roi sylw i gynlluniau fflydoedd presennol cwmnïau hedfan. Ar y cyd â'r rhagamcanion a luniwyd eisoes, roedd y wybodaeth hon yn golygu ein bod yn gallu defnyddio model APEX RDC Aviation i adolygu hyfywedd masnachol manylebau Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyhoeddus gwahanol a gwahanol opsiynau ar gyfer llwybrau.

3.9 Wedyn bu pob opsiwn gwella ar y rhestr fer a ystyriwyd felly yn destun asesiad dangosol o'r effaith economaidd, gan nodi swyddi a allai gael eu creu neu eu colli, manteision i ddefnyddwyr a GYG blynyddol er mwyn rhoi sylw i ystyriaethau

Gwerth am Arian wrth werthuso lefelau rhagamcanol o gymhorthdal y byddai ei angen.

3.10 Yn olaf, bu'r Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyhoeddus a'r opsiynau ar gyfer llwybrau newydd yn destun adolygiad ansoddol o'u rhinweddau cymharol gan ddefnyddio methodoleg arfarnu WelTAG Cam 1. Lluniwyd amcangyfrifon o gostau sy'n gysylltiedig â hyd y diwrnod gweithredol ac o bosibl, y gwaith o adeiladu awyrendy ar Ynys Môn hefyd.

3.11 Crynhoir y canlyniadau allweddol o'r holl waith dadansoddi hwn yn y tablau yn adran y canlyniadau sy'n dilyn.

## Crynodeb o'r Canlyniadau Allweddol

### Rhagamcanion sy'n Gysylltiedig â Gwelliannau i'r Gwasanaeth ar Lwybr y Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyhoeddus

3.12 Y cyfnod rhagamcanu ar gyfer yr opsiynau ar gyfer gwella gwasanaeth y Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyhoeddus oedd 2017-2022, a gwnaeth y dybiaeth graidd y byddai'r awyrendy yn parhau i gael ei leoli yng Nghaerdydd. Dangosir y canlyniadau manwl mewn Atodiad i'r Adroddiad ar Ymestyn y Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyhoeddus ond ceir crynodeb o'r cyfuniadau mwyaf realistig (h.y. diwrnod hwy ac awyren fwy o faint; mynediad i GDA a gwell gwaith marchnata; a thrydydd cylchdro) yn Nhablau 3 a 4 isod.

TABL 3: RHAGAMCANION O NIFER Y TEITHWYR O DAN WAHANOL WELLIANNAU I WASANAETH Y RHWYMEDIGAETH GWASANAETH CYHOEDDUS

| Tybiaethau'r Opsiynau | Prisiau Tocynnau* | 2015 Nifer y Teithwyr | 2018 Nifer y Teithwyr | 2022 Nifer y Teithwyr |
|---|---|---|---|---|
| Rhagamcanion Sylfaenol | Pris Tocyn Uchel | 11,000 | 10,631 | 11,173 |
| | Pris Tocyn Isel | | 11,701 | 13,464 |
| Ddwywaith y Dydd, yn ystod yr wythnos | | | | |
| Gyda Diwrnod Hwy a Awyren â 31 o Seddi | Pris Tocyn Uchel | 11,000 | 12,281 | 12,945 |
| | Pris Tocyn Isel | | 12,742 | 14,593 |
| Fel uchod, gyda GDS a Gwaith Marchnata | Pris Tocyn Uchel | 11,000 | 14,938 | 15,738 |
| | Pris Tocyn Isel | | 15,667 | 17,958 |
| Deirgwaith y Dydd, yn ystod yr wythnos | | | | |
| Gyda Diwrnod Hwy ond Awyren â 19 o Seddi | Pris Tocyn Uchel | 11,000 | 13,183 | 13,854 |
| | Pris Tocyn Isel | | 13,899 | 15,819 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Fel uchod, gyda GDS a Gwaith Marchnata | Pris Tocyn Uchel | 11,000 | 15,841 | 16,648 |
| | Pris Tocyn Isel | | 16,824 | 19,185 |

Ffynhonnell: Dadansoddiad ymgynghorwyr

TABL 4: RHAGAMCANION O NIFER Y TEITHWYR O DAN WAHANOL SENARIOS AR GYFER GWASANAETH Y RHWYMEDIGAETH GWASANAETH CYHOEDDUS

| Tybiaethau'r Opsiynau | Prisiau Tocynnau | 2018 Nifer y Teithwyr | Ffactor Llwytho % | 2022 Nifer y Teithwyr | Ffactor Llwytho (%) |
|---|---|---|---|---|---|
| Rhagamcanion Sylfaenol | Pris Tocyn Uchel | 10,631 | 54.9 | 11,173 | 57.7 |
| Awyren â 19 o Seddi* | Pris Tocyn Isel | 11,701 | 60.4 | 13,464 | 69.5 |
| Ddwywaith y Dydd, yn ystod yr wythnos | | | | | |
| Gyda Diwrnod Hwy a | Pris Tocyn Uchel | 12,281 | 38.8 | 12,945 | 40.9 |
| Awyren â 31 o Seddi** | Pris Tocyn Isel | 12,742 | 40.3 | 14,593 | 46.1 |
| Fel uchod, gyda GDS | Pris Tocyn Uchel | 14,938 | 47.2 | 15,738 | 49.8 |
| a Gwaith Marchnata | Pris Tocyn Isel | 15,667 | 49.5 | 17,958 | 56.8 |
| Deirgwaith y Dydd, yn ystod yr wythnos | | | | | |
| Gyda Diwrnod Hwy ond | Pris Tocyn Uchel | 13,183 | 45.3 | 13,854 | 47.7 |
| Awyren â 19 o Seddi*** | Pris Tocyn Isel | 13,899 | 47.8 | 15,819 | 54.4 |
| Fel uchod, gyda GDS | Pris Tocyn Uchel | 15,841 | 54.5 | 16,648 | 57.3 |
| a Gwaith Marchnata | Pris Tocyn Isel | 16,824 | 57.9 | 19,185 | 66.0 |

Ffynhonnell: Dadansoddiad ymgynghorwyr

Nodiadau: * Capasiti/Y flwyddyn = 19,380 o seddi

** Capasiti/Y flwyddyn = 31,620 o seddi

*** Capasiti/Y flwyddyn = 29,070 o seddi

3.13 Er mwyn rhoi rhywfaint o gyd-destun i'r canlyniadau hyn, mae'n werth nodi'r canlynol:

a. Mae'r cyfraddau twf cymharol fach, sef 1.25% ac 1.75%, a ddefnyddiwyd yn adlewyrchu'r ffaith bod y llwybr wedi bod yn weithredol ers bron i naw mlynedd

a dylid eu hystyried yng nghyd-destun Rhagamcanion 2015 y Comisiwn Meysydd Awyr a ddefnyddiodd dwf 1.8% y flwyddyn, ar gyfartaledd, rhwng 2010 a 2020 ar lwybrau awyr domestig yn y DU.

b. Mae prisiau tocynnau is eisoes wedi'u profi ar lwybr Ynys Môn. Yn 2015 y pris cyfartalog a dalwyd am docyn oedd rhwng £45 a £33, sy'n golygu bod prisiau tocynnau am deithiau hamdden yn debygol o fod wedi gostwng o lai na £40 i lai na £30, o bosibl. Felly, os caiff y prisiau tocynnau is eu hadfer (fel y tybir yn yr amcangyfrifon uchaf o dan Gwneud Dim), nid oes fawr ddim cyfle i ddenu teithwyr ychwanegol drwy ostwng prisiau ymhellach, a sicrhau hefyd fod y pris cyfartalog uwch a delir gan deithwyr busnes yn cael ei ddiogelu. Gellir dadlau mai'r brif ffordd o gynyddu traffig fyddai drwy gyflwyno diwrnod hwy, ehediadau ar ddydd Sul ac ati, gan ddarparu gwasanaeth ar adegau pan fydd pobl am deithio.

c. Byddai trefniant masnachfraint yn sicrhau bod y llwybr yn fwy amlwg ar y rhyngrwyd e.e. ar wefan Flybe. Fodd bynnag, nid oes amrywiaeth eang o ehediadau cysylltu ar gael yng Nghaerdydd ac mae llawer ohonynt ar adegau/diwrnodau nad ydynt yn cyd-fynd ag amserlen y Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyhoeddus.

d. Mae mwy o amlygrwydd ar GDS (System Ddosbarthu Fyd-eang y fasnach deithio e.e. Amadeus, Sabre) yn annhebygol o drawsnewid rhagolygon masnachol y llwybr, gan ei bod yn debyg bod llawer o'r defnyddwyr busnes mwyaf eisoes yn ymwybodol ohono. Ond, yn ddiau, byddai mwy o amlygrwydd yn yr uwch faes arbenigol hwn yn helpu i ddwyn y llwybr i sylw marchnadoedd trefnwyr gwyliau a thwristiaeth ac mae'n bosibl y byddai'n helpu i ysgogi rhywfaint o alw o du teithwyr hamdden premiwm.

3.14 Yn ei astudiaeth ym mis Mawrth 2015, rhagwelodd Arup y byddai 13,000 o deithwyr yn defnyddio'r llwybr yn 2018 yn seiliedig ar weithrediad yn cynnwys awyren â 19 o seddi; ei brif amrywiad oedd defnyddio awyren fwy o faint y rhagwelodd y byddai'n arwain at 18,000 o ddefnyddwyr yn yr un flwyddyn. Er bod y tablau hyn yn dangos bod y ffigurau hyn o fewn amrediad ein rhagamcanion ein hunain, rydym yn amau y gallai ei dybiaeth y gallai un amrywiad (maint yr awyren) arwain at ganlyniad mor wahanol oni chaiff ei gefnogi gan amrywiadau eraill y bwriedir iddynt ysgogi'r galw (e.e. gostwng prisiau tocynnau yn sylweddol) mewn ymateb i'r capasiti sydd ar gael.

3.15 Mae nifer y teithwyr sy'n gysylltiedig â'r fath gyfuniadau o amrywiadau yn y rhagamcanion hyn (e.e. prisiau tocynnau is, diwrnod gweithredu hwy, cylchdro ar ddydd Sul a chael deiliad masnachfraint ar y llwybr) yn fwy na'r nifer a ragwelwyd gan Arup ar gyfer awyren â 19 o seddi ac mae rhai o'r amrywiadau yn arwain at fwy na 16,000 o deithwyr y flwyddyn tua diwedd

y cyfnod rhagamcanu. Mae hyn yn cyfateb i ffactorau llwytho cyfartalog sydd gryn dipyn yn uwch nag 80% - o gymharu â'r ffigur presennol, sef 60% - sy'n awgrymu y byddai angen awyren fwy o faint yn y pen draw.

**Rhagamcanion ar gyfer Estyniadau Posibl i'r Rhwydwaith (Ar y cyd â'r Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyhoeddus)**

3.16 Nodir y rhain yn Nhablau 5 a 6 isod, sy'n gorffen gyda cholofn sy'n darparu gwerthusiad cyffredinol o lwybrau yn seiliedig ar y dadansoddiad o'r farchnad a wnaed a'r galw a'r ffactorau llwytho a ragwelwyd. Mae'r tabl yn cynnwys nifer o opsiynau ar gyfer llwybrau sy'n ymddangos yn ddeniadol o Ynys Môn a Chaerdydd, gyda chysylltiadau â Llundain a hybiau pwysig yn Ewrop yn ymddangos yn arbennig o addawol.

TABL 5: OPSIYNAU AR GYFER TRI CHYLCHDRO

| Service Routing | Assumptions | Catchment Leakage | Frequency | Competition | Attractiveness over Alternatives | Assumed Market Penetration | Existing Market Captured | Potential Stimulation | Estimated Total Demand | Seat Capacity | Projected Load Factor | Route Evaluation | Comments |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Anglesey Base - 3 Rotations | | | | | | | | | | | | | |
| VLY - ABZ | 19 Seat Aircraft (Potentially via Intermediate Point) | 5,889 | 1 | Limited: Long by road/rail; or via MAN | High | 60% | 3,533 | 20% | 4,240 | 9,690 | 43.8% | Poor | Better combined with INV |
| VLY - INV | 19 Seat Aircraft (Potentially via Intermediate Point) | 9,460 | 1 | Limited: Long by road/rail; or via MAN | High | 60% | 5,676 | 20% | 6,811 | 9,690 | 70.3% | Promising | Better combined with ABZ |
| VLY - BHD | 19 Seat Aircraft (Potentially via Intermediate Point e.g. IOM) | 10,715 | 1 | Surface by Ferry via Dublin; or via LIV + MAN | Modest | 50% | 5,358 | 20% | 6,429 | 9,690 | 66.3% | Possible | Drop-in to IoM merits investigation |
| VLY - London | 19 Seat Aircraft (Direct to LUT or NHT) | 18,000 | 1 | Surface by road/rail +4hr; or via MAN to LHR - others not served | Modest | 40% | 7,200 | 10% | 7,920 | 9,690 | 81.7% | Good | Depend on Airport + price |
| VLY - London | 31 Seat Aircraft (Direct to LUT or NHT) | 18,000 | 1 | Surface by road/rail +4hr; or via MAN to LHR - others not served | Modest | 45% | 8,100 | 15% | 9,315 | 15,810 | 58.9% | Modest | 19 seater better until day rtn can be offered |
| Cardiff Base - 3 Rotations | | | | | | | | | | | | | |
| Extra Paris | 31 Seat Aircraft (Direct to CDG) | 24,000 | 1 | Long surface journey; or via BRS/London. Adds second rotation. | Modest | 50% | 12,000 | 30% | 15,600 | 22,135 | 70.5% | Promising | Need code share to work |
| Frankfurt | 31 Seat Aircraft (Direct to FKT) | 36,405 | 1 | Long surface journey; or via London. | High | 60% | 21,843 | 20% | 26,212 | 22,135 | 118.4% | Very Good | Strong option even for bigger aircraft |
| ABZ and INV | 31 Seat Aircraft (Direct); ABZ 3/pw, INV 4/pw | 16,937 | 1 | Long surface journey; or via BRS/London. | Modest | 50% | 8,469 | 25% | 10,586 | 22,135 | 47.8% | Poor | Market too small for +29 seats |
| ORK and SNN | 31 Seat Aircraft (Direct); ORK 4/pw, SNN 3/pw | 15,600 | 1 | Long journey by ferry or via BRS/London. Restores established market; access US | Modest | 50% | 7,800 | 50% | 11,700 | 22,135 | 52.9% | Modest | Might be better seasonal only |

Codau: ABZ – Aberdeen; INV – Inverness; BHD – Maes Awyr Dinas Belfast; ORK – Cork; SNN – Shannon; VLY – Ynys Môn

## TABL 6: OPSIYNAU AR GYFER PEDWAR CYLCHDRO

| Service Routing | Assumptions | Catchment Leakage | Frequency | Competition | Attractiveness over Alternatives | Assumed Market Penetration | Existing Market Captured | Potential Stimulation | Estimated Total Demand | Seat Capacity | Projected Load Factor | Route Evaluation | Comments |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Anglesey Base - 4 Rotations (Assumes longer opening hours at VLY can be secured) | | | | | | | | | | | | | |
| VLY - NHT for London | 31 Seat Aircraft (Direct to NHT for LHR) | 36,310 | 2 | Surface by road/rail +4hr; or via MAN to LHR - others not served | High | 60% | 21,786 | 40% | 30,500 | 31,620 | 96.5% | Very Strong | Offering day return and NHT crucial |
| VLY: x1 London + x1 EDI | 31 Seat Aircraft (Direct for both services 5 days per week) | 23,625 | 2 | Surface by road/rail 3hr to LHR; or via BRS/LHR for EDI | Slight | 50% | 11,813 | 45% | 17,128 | 31,620 | 54.2% | Modest | Would work better with 19 seats. But more ops risk as aircraft slower |
| VLY: x1 London + x1 ABZ/INV | 31 Seat Aircraft (Direct for both services 5 days per week) | 26,500 | 2 | to LHR, Long to ABZ/INV; or via BRS/LHR for EDI | Modest | 50% | 13,250 | 40% | 18,550 | 31,620 | 58.7% | Modest | Would work better with 19 seats. But more ops risk as aircraft slower |
| VLY: x1 BHD + x1 ABZ/INV | 31 Seat Aircraft (Direct to NHT for LHR) | 19,500 | 2 | drive by road/rail, Long to ABZ/INV; or via BRS/LHR for all. | High | 60% | 11,700 | 35% | 15,795 | 31,620 | 50.0% | Modest | Would work better with 19 seats. But more ops risk as aircraft slower |
| CWL Base - 4 Rotations | | | | | | | | | | | | | |
| CWL - London City | 31 Seat Aircraft (Direct to NHT for LHR) | 38,000 | 2 | Surface by road/rail 3hr | Modest | 50% | 19,000 | 28% | 24,320 | 37,945 | 64.1% | Possible | Costs at LCY means high fare & business only |
| CWL:Frankfurt and Norwich (Drop-in) | 31 Seat Aircraft (Direct to NHT for LHR) | 46,000 | 2 | Surface by road/rail +5hr or FT via London | High | 55% | 25,300 | 30% | 32,890 | 44,270 | 74.3% | Promising | NWI drop-in enroute to FKT merits further investigation. |
| CWL: Brussels and ABZ/INV | 31 Seat Aircraft (Direct to NHT for LHR) | 25,000 | 2 | Surface by road/rail +6hr or via BRS | High | 55% | 13,750 | 40% | 19,250 | 44,270 | 43.5% | Poor | Needs 19 seat; but even so better prospects elsewhere |

Codau: NHT – Northolt; EDI - Caeredin

## Dadansoddiad Masnachol APEX

Gwasanaethau Gwella'r Rhwydwaith o Ynys Môn

3.17 Mae'r tablau sy'n dilyn yn nodi allbynnau model Apex ac, felly, yn cynnig cipolwg ar berfformiad masnachol dangosol awyrennau penodol ar nifer o'r llwybrau mwyaf addawol o'r rhagamcanion uchod. Yr opsiynau mwyaf addawol o ran gwella'r Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyhoeddus o Faes Awyr Ynys Môn fyddai gwasanaeth i Lundain - yn yr achos hwn, defnyddiwyd Luton fel enghraifft o Faes Awyr cyffredinol yn Llundain, ond gallai eraill fod yr un mor bosibl. Nododd Astudiaeth Gwella'r Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyhoeddus Gychwynnol y gallai RAF Northolt fod yn derfynfa bosibl yn Llundain ar gyfer awyrennau rhanbarthol bach am ei fod yn cynnig cysylltiadau ffordd cymharol gyflym ar fws gwennol i Heathrow neu fynediad i Lundain ar drên trwm neu drenau tanddaearol (gweler Tabl 7).

TABL 7 YNYS MÔN I LUNDAIN

| Llwybrau Ymestyn Ynys Môn | VLY-Llundain | VLY-Llundain | VLY-Llundain | VLY-Llundain |
|---|---|---|---|---|
| Awyren (Seddi) | DHC6-300 (19) | Dornier 328-100 (31) | DHC6-300 (19) | Dornier 328-100 (31) |
| Man cychwyn | Maes Awyr Ynys Môn | Maes Awyr Ynys Môn | Maes Awyr Ynys Môn | Maes Awyr Ynys Môn |
| Cyrchfan | Maes Awyr Luton, Llundain | Maes Awyr Luton, Llundain | Maes Awyr Luton, Llundain | Maes Awyr Luton, Llundain |
| Cwmni Hedfan | Cyffredinol | Cyffredinol | Cyffredinol | Cyffredinol |
| Awyren | DHC6-300 | Dornier 328-100 | DHC6-300 | Dornier 328-100 |
| Ffactor Llwytho (%) | 55 | 60 | 95 | 80 |
| Cyfanswm y Teithwyr | 5,434 | 9,672 | 18,808 | 25,842 |
| Pris Tocyn Cyfartalog | 90 | 90 | 90 | 90 |
| Amlder (yr wythnos) | 5 | 5 | 10 | 10 |
| Refeniw (£) | 500,020.21 | 893,239.48 | 173,0664.36 | 2,386,552.67 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Costau (£) | 819,718.41 | 856,950.16 | 170,8112.62 | 1,771,303.75 |
| Elw/Colled y Llwybr (£) | (-319,698.2) | +36,289.32 | +22,551.74 | +615,248.92 |

Mae'r syniad o gyflwyno awyren teithwyr masnachol fach i Northolt, ochr yn ochr â'r jetiau busnes masnachol y mae eisoes yn darparu ar eu cyfer yn ogystal â'i draffig milwrol a VIP, yn gysyniad y mae Flybe ymhlith eraill wedi bod yn pwyso ar y Llywodraeth i'w ystyried er mwyn gwella mynediad awyr rhanbarthol i Lundain a Heathrow. Mae Northolt yn addas iawn i ddarparu ar gyfer y math o awyren fach rydym wedi'i rhagweld ar y llwybr hwn ac ni ddylai'r taliadau a godir fod yn annhebyg i'r rhai a godir yn Luton neu Stansted. Y maen tramgwydd mawr ar hyn o bryd yw anfodlonrwydd y Weinyddiaeth Amddiffyn i ystyried newid defnydd o'r gweithrediad presennol yn Northolt sy'n canolbwyntio ar jetiau busnes, ond efallai fod hwn yn fater y gallai Llywodraeth Cymru fod mewn sefyllfa dda i'w godi gyda Gweinidogion y Weinyddiaeth Amddiffyn neu drwy gysylltiadau yn RAF y Fali. Rydym o'r farn y gallai gwasanaeth rhwng RAF y Fali ac RAF Northolt fod yn boblogaidd ymhlith personél milwrol yn ogystal â defnyddwyr eraill.

TABL 8: AMCANGYFRIFON APEX O NIFER Y TEITHWYR YN ERBYN RHAGAMCANION YN SEILIEDIG AR GYFRADDAU GOLLWNG

| Awyren | Llwybr | Amcangyfrifedig | APEX |
|---|---|---|---|
| Awyren â 19 o Seddi (Yn uniongyrchol i LTN[12] neu NHT) | VLY - Llundain 1 y dydd | 7,920 | 6,916 |
| Awyren â 31 o Seddi (Yn uniongyrchol i LTN neu NHT) | VLY - Llundain 1 y dydd | 9,315 | 11,284 |
| Awyren â 31 o Seddi (Yn uniongyrchol i NHT ar gyfer LHR[13]) | VLY - NHT ar gyfer Llundain 2 y dydd | 30,500 | 25,842 |
| Awyren â 19 o Seddi (Drwy Fan yn y Canol o Bosibl) | VLY - INV 1 y dydd | 6,811 | 6,916 |
| Awyren â 19 o Seddi (Drwy Fan yn y Canol o Bosibl e.e. IOM[14]) | VLY - BHD 1 y dydd | 6,429 | 8,866 |

[12] Luton, Llundain
[13] Heathrow, Llundain
[14] Ynys Manaw

3.18 Mae Tabl 8 yn cymharu'r rhagamcanion ar gyfer y llwybr yn Nhablau 5 a 6 â'r galw y mae APEX yn cyfrifo y byddai ei angen i sicrhau bod y gweithrediad yn mantoli'r cyfrifon, ac fel y gellir gweld mae'r ddau yn debyg iawn ar gyfer cylchdro awyren â 19 o seddi a thua 20% yn uwch nag a ragwelwyd ar gyfer awyren â 31 o seddi sy'n hedfan un cylchdro y dydd. Y rheswm dros hyn yw y bydd y gallu i wneud diwrnod o fusnes a dychwelyd yn allweddol i gael cyfran sylweddol o'r traffig sy'n teithio ar hyn o bryd o ogledd-orllewin Cymru i Heathrow ar y ffordd, ar drên neu mewn awyren o Fanceinion. Felly, rhagwelir y byddai gwasanaeth ddwywaith y dydd sy'n defnyddio awyren â 31 o seddi yn denu mwy o deithwyr nag y gallai ddarparu ar eu cyfer o gymharu â nifer o deithwyr y nododd APEX y byddai angen eu denu er mwyn mantoli'r cyfrifon, yn seiliedig ar bris tocyn unffordd o £90 a phris arweiniol a fyddai'n agosach i £49, yn ôl pob tebyg. Mae'r prisiau hyn yn cymharu'n dda â chostau nodweddiadol taith unffordd ar y ffordd neu ar drên yn Nhabl 9.

TABL 9: COSTAU TEITHIAU UNFFORDD I GYRCHFANNAU TARGED O FANGOR

| Bangor i | Cost Tocyn Trên (Yfory am 0700) | Cost Tocyn Trên ymhen 30 diwrnod y tu allan i oriau brig | Cost Tocyn Trên ymhen 60 diwrnod y tu allan i oriau brig | Amser | Pellter ar y ffordd | Car @ £0.45c y filltir | Amser |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Kings Cross, Llundain | £161 | £94 | £88 | 3 awr 40 mun | 264 | £119 | 5 awr 01 fun |
| Aberdeen | £150 | £150 | £150 | 7 awr 30 mun | 427 | £192 | 7 awr 02 fun |
| Inverness | £156 | £156 | £156 | 9 awr 00 mun | 452 | £203 | 7 awr 32 fun |
| Caeredin | £117 | £117 | £117 | 5 awr 00 mun | 298 | £134 | 5 awr 12 mun |
| Glasgow | £122 | £40 | £47 | 5 awr 07 mun | 294 | £132 | 4 awr 42 fun |
| Belfast (gan ddefnyddio Fferi Caergybi) | £49 | £49 | £49 | 7 awr 40 mun | 198 | £89 | 5 awr 09 mun |

3.19 Yn yr un modd, pan wneir cymariaethau tebyg ar gyfer darpar lwybrau o Faes Awyr Ynys Môn (VLY) i Belfast ac Inverness yn Nhabl 10 gan ddefnyddio awyren â 19 o seddi, mae'r canlyniadau yn gadarnhaol, er yr ymddengys y byddai angen i bris tybiedig tocyn i Belfast yn APEX, sef £80, fod yn uwch er mwyn mantoli'r cyfrifon pe bai nifer y teithwyr yn parhau i fod yn gyfyngedig neu'n gostwng er mwyn ysgogi'r farchnad yn fwy a denu defnyddwyr ychwanegol. Ystyriwyd economeg awyren â 31 o seddi hefyd gydag elw ond yn bosibl ar sail ffactorau llwytho a phrisiau uwch. Ar hyn o bryd, byddai'r gwasanaeth yn gwneud colled sylweddol a dim ond pan ragwelir y bydd y traffig ar lwybr VLY-INV yn agos i ddwbl y ffigur disgwyliedig y mae gwasanaeth Inverness yn gweithio, ac ymddengys fod hyn yn annhebygol o ddigwydd.

TABL 10: YNYS MÔN I GYRCHFANNAU ERAILL YN Y DU

| Llwybrau Ymestyn Ynys Môn | VLY-BHD | VLY-BHD | VLY-INV | VLY-INV |
|---|---|---|---|---|
| Awyren (Seddi) | Dornier 328-100 (31) | DHC6-300 (19) | DHC6-300 (19) | Dornier 328-100 (31) |
| Man cychwyn | Maes Awyr Ynys Môn | Maes Awyr Ynys Môn | Maes Awyr Ynys Môn | Maes Awyr Ynys Môn |
| Cyrchfan | Maes Awyr Belfast | Maes Awyr Belfast | Maes Awyr Inverness | Maes Awyr Inverness |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Cwmni Hedfan | Cyffredinol | Cyffredinol | Cyffredinol | Cyffredinol |
| Awyren | Dornier 328-100 | DHC6-300 | DHC6-300 | Dornier 328-100 |
| Ffactor Llwytho (%) | 55 | 68 | 70 | 70 |
| Cyfanswm y Teithwyr | 8,866 | 6,718 | 6,916 | 11,284 |
| Pris Tocyn Cyfartalog | 80 | 80 | 100 | 100 |
| Amlder (yr wythnos) | 5 | 5 | 5 | 5 |
| Refeniw (£) | 720,716.37 | 544,900.13 | 712,401.74 | 1,167,996.29 |
| Costau (£) | 835,323.02 | 713,455.73 | 1,118,570.04 | 1,108,115.44 |
| Elw/Colled/ y Llwybr (£) | (-114,606.65) | (-168,555.6) | (-406,168.3) | +59,880.85 |

3.20 Ystyriwyd un gwasanaeth dyddiol o Ynys Môn i Amsterdam gan ddefnyddio awyren â 31 o seddi yng nghanol y dydd (gweler Tabl 11). Awgrymodd data'r Awdurdod Hedfan Sifil fod 19,425 o deithwyr o ddalgylch Maes Awyr Ynys Môn eisoes yn hedfan i Amsterdam bob blwyddyn (ac nid yw'r ffigur hwnnw yn cynnwys y rhai sy'n defnyddio Lerpwl ac, felly, yn realistig mae'n debygol o fod yn llawer uwch nag 20,000. Gan dybio y byddai 40% o'r rhain yn newid i wasanaeth newydd o Ynys Môn ac y byddai bodolaeth y llwybr yn llwyddo i gynyddu traffig 50%, rhagwelir y bydd bron 11,700 o deithwyr yn defnyddio'r gwasanaeth. Mae'r ffigur hwn yn uwch na nifer y teithwyr y rhagwelodd APEX y byddai eu hangen yn seiliedig ar bris tocyn unffordd o £120.

TABL 11 YNYS MÔN I FAES AWYR HWB RHYNGWLADOL

| Llwybrau Ymestyn Ynys Môn | VLY-AMS |
|---|---|
| Nifer y Seddi yn yr Awyren | Dornier 328-100 (31) |
| Man cychwyn | Maes Awyr Ynys Môn |
| Cyrchfan | Amsterdam - Maes Awyr Schiphol |
| Cwmni Hedfan | Cyffredinol |
| Awyren | Dornier 328-100 |
| Ffactor Llwytho (%) | 65 |
| Cyfanswm y Teithwyr | 10478 |
| Pris Tocyn Cyfartalog | 120 |
| Amlder (yr wythnos) | 5 |
| Refeniw (£) | 1,306,075.73 |
| Costau (£) | 1,263,450.24 |
| | +42,625.49 |

| Elw/Colled/ y Llwybr (£) | |
|---|---|

3.21 Mae hyn oll yn awgrymu y byddai un gwasanaeth dyddiol i Amsterdam yn un diddorol i'w ystyried ochr yn ochr â chyswllt i Lundain ond, gyda slotiau yn prinhau yn Amsterdam yn ogystal â Heathrow, nid yw'n glir a roddid blaenoriaeth

i awyren â 31 o seddi o farchnad fach gael mynediad i Schiphol am gost dderbyniol. Fodd bynnag, mae gwasanaeth Maes Awyr Dundee i Amsterdam, a lwyddodd i sicrhau gwerthiannau arbennig o dda nes iddo gael ei drosglwyddo dros dro i Gaeredin am resymau gweithredol, yn gynsail cadarnhaol.

## Asesiad o'r Effaith Economaidd

3.22 Nodir effeithiau economaidd dangosol amrywiadau'r gwasanaeth ar Lwybr y Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyhoeddus ac opsiynau ar gyfer gwella llwybrau newydd yn y ddau dabl nesaf.

## TABL 12: EFFEITHIAU'R OPSIYNAU AR GYFER AMRYWIADAU I WASANAETH Y RHWYMEDIGAETH GWASANAETH CYHOEDDUS

| Option Assumptions | Fares* | 2015 Pax | 2022 Pax | Incremental Pax by 2022 | Estimated Direct Jobs | Indirect + Induced Jobs | Total Jobs Created | % Business Pax | Travel Cost Saving per Business Pax (£) | Time Savings per Pax (hrs) | Cost Saving pa - Air vs Road (£) | User Benefits (£) | GVA Per Year (£) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Baseline Forecasts | High Fare | 11,000 | 11,173 | 173 | 0.2 | 0.3 | 0.5 | 78% | 45 | 2 | 6,067 | 6,742 | 6,405 |
| | Low Fare | | 13,464 | 2,464 | 3.0 | 3.6 | 6.6 | 68% | 55 | 2 | 92,142 | 83,765 | 87,954 |
| 2x Daily, Weekdays | | | | | | | | | | | | | |
| With Longer Day & 31 Seat Aircraft | High Fare | 11,000 | 12,945 | 1,945 | 2.3 | 2.8 | 5.2 | 78% | 45 | 2 | 68,266 | 75,852 | 72,059 |
| | Low Fare | | 14,593 | 3,593 | 4.3 | 5.2 | 9.6 | 68% | 55 | 2 | 134,360 | 122,146 | 128,253 |
| As above, with GDS and Marketing | High Fare | 11,000 | 15,738 | 4,738 | 5.7 | 6.9 | 12.6 | 78% | 45 | 2 | 166,308 | 184,787 | 175,548 |
| | Low Fare | | 17,958 | 6,958 | 8.4 | 10.2 | 18.5 | 68% | 55 | 2 | 260,246 | 236,587 | 248,416 |
| 3x Daily, Weekdays | | | | | | | | | | | | | |
| With Longer Day but 19 Seat Aircraft | High Fare | 11,000 | 13,854 | 2,854 | 3.4 | 4.2 | 7.6 | 78% | 45 | 2 | 100,188 | 111,320 | 105,754 |
| | Low Fare | | 15,819 | 4,819 | 5.8 | 7.0 | 12.8 | 68% | 55 | 2 | 180,246 | 163,860 | 172,053 |
| As above, with GDS and Marketing | High Fare | 11,000 | 16,648 | 5,648 | 6.8 | 8.2 | 15.0 | 78% | 45 | 2 | 198,230 | 220,255 | 209,242 |
| | Low Fare | | 19,185 | 8,185 | 9.8 | 12.0 | 21.8 | 68% | 55 | 2 | 306,182 | 278,302 | 292,217 |

**TABL 13:** EFFEITHIAU ECONOMAIDD Y LLWYBRAU YMESTYN POSIBL

| Service Routing | Estimated Total Demand | Estimate of Generated Traffic | Projected Load Factor | Route Commercial Evaluation | Estimated Direct Jobs | Indirect + Induced Jobs | Total Jobs Created | % Business Pax | Travel Cost Saving per Business Pax (£) | Time Savings per Pax (hrs) | Cost Saving pa - Air vs Road (£) | User Benefits (£) | GVA (£/m) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Anglesey Base - 3 Rotations | | | | | | | | | | | | | |
| VLY - ABZ (19 seats) | 4,240 | 707 | 43.8% | Poor | 5 | 7 | 13 | 60% | 80 | 4.0 | 186,564 | 443,088 | 0.630 |
| VLY - INV (19 seats) | 6,811 | 1,135 | 70.3% | Promising | 8 | 12 | 20 | 30% | 80 | 5.0 | 149,846 | 444,857 | 0.595 |
| VLY - BHD (19 seats) | 6,429 | 1,072 | 66.3% | Possible | 8 | 11 | 19 | 35% | 140 | 6.0 | 288,769 | 587,852 | 0.877 |
| VLY - NHT (19 seats) | 7,920 | 720 | 81.7% | Good | 10 | 14 | 23 | 45% | 20 | 2.0 | 68,040 | 323,190 | 0.391 |
| VLY - NHT (31 Seats) | 9,315 | 1,215 | 58.9% | Modest | 11 | 16 | 27 | 45% | 20 | 2.0 | 78,368 | 372,246 | 0.451 |
| Cardiff Base - 3 Rotations (All 31 seats) | | | | | | | | | | | | | |
| Extra CDG | 15,600 | 3,600 | 70.5% | Promising | 19 | 27 | 46 | 40% | 120 | 6.0 | 662,400 | 1,821,600 | 2.484 |
| FRA | 26,212 | 4,369 | 118.4% | Very Good | 31 | 46 | 77 | 65% | 210 | 10.0 | 3,279,699 | 8,589,688 | 11.869 |
| ABZ and INV | 10,586 | 2,117 | 47.8% | Poor | 13 | 19 | 31 | 40% | 115 | 5.5 | 438,248 | 995,585 | 1.434 |
| ORK and SNN | 11,700 | 3,900 | 52.9% | Modest | 14 | 20 | 35 | 20% | 95 | 6.0 | 185,250 | 643,500 | 0.829 |
| Anglesey Base - 4 Rotations (Assumes longer opening hours at VLY and all 31 seats) | | | | | | | | | | | | | |
| VLY - NHT x2 | 30,500 | 8,714 | 96.5% | Very Strong | 37 | 53 | 90 | 60% | 30 | 2.0 | 470,581 | 1,490,174 | 1.961 |
| VLY - NHT x1 + EDI x1 | 17,128 | 5,316 | 54.2% | Modest | 21 | 30 | 51 | 60% | 50 | 3.5 | 434,104 | 1,443,395 | 1.877 |
| VLY - NHT x1 + ABZ/INV x1 | 18,550 | 5,300 | 58.7% | Modest | 22 | 32 | 55 | 65% | 50 | 4.5 | 516,750 | 2,209,106 | 2.726 |
| VLY - BHD x1 + ABZ/INV x1 | 15,795 | 4,095 | 50.0% | Modest | 19 | 28 | 47 | 45% | 110 | 5.5 | 680,501 | 1,616,190 | 2.297 |
| CWL Base - 4 Rotations (All 31 seats) | | | | | | | | | | | | | |
| CWL - LCY x 2 | 24,320 | 5,320 | 64.1% | Possible | 29 | 43 | 72 | 75% | 0 | 2.5 | 0 | 1,929,094 | 1.929 |
| CWL - FRA + NWI (Drop-in) x 2 | 32,890 | 7,590 | 74.3% | Promising | 39 | 58 | 97 | 60% | 130 | 7.5 | 2,269,410 | 7,201,013 | 9.470 |
| CWL - BRU + ABZ/INV x 2 | 19,250 | 5,500 | 43.5% | Poor | 23 | 34 | 57 | 60% | 100 | 5.5 | 990,000 | 2,994,750 | 3.985 |

3.23 Mae'r canlyniadau yn awgrymu mai dim ond manteision economaidd cynyddrannol bach a fydd yn deillio o'r gwelliannau i wasanaeth presennol y Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyhoeddus ond y gallai rhai o'r llwybrau 'ymestyn' sy'n defnyddio cyfnodau segur awyren y Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyhoeddus fod yn gadarnhaol iawn o ran arenillion economaidd yn gyfnewid am unrhyw gymorth a ddarperir, gyda Frankfurt gryn dipyn ar y blaen i'r lleill oherwydd pellter, ond gyda Llundain ac Amsterdam hefyd yn dangos manteision a allai fod yn rhai sylweddol.

## Arfarniad Ansoddol o'r Rhestr Hir

3.24 Crynhoir yr effeithiau ansoddol nas mesurwyd sy'n codi o'r bennod hon ar yr arfarniad, ac a ddefnyddiwyd i lunio'r tablau WelTAG yn yr un nesaf, er hwylustod isod yn Nhabl 14 ar gyfer gwelliannau i'r rhwydwaith o Ynys Môn a Thabl 15 ar gyfer opsiynau ar gyfer gwella'r rhwydwaith o Faes Awyr Caerdydd.

TABL 14: CRYNODEB O EFFEITHIAU GWELLIANNAU POSIBL I'R RHWYDWAITH AWYR O YNYS MÔN

| Math o Welliant | Effaith | Maint yr Effaith |
|---|---|---|
| Gwell amserlen ar gyfer y Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyhoeddus | Y Gwasanaeth yn fwy poblogaidd ymhlith trigolion Cymru sy'n golygu bod teithiau mwy cynhyrchiol yn bosibl | + |
| Mwy o gapasiti ar lwybr y Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyhoeddus | Bydd yn amrywio'r defnydd a wneir o'r gwasanaeth gydag ystod ehangach dybiedig o brisiau. Bydd hefyd yn fwy defnyddiol i hyrwyddo twristiaeth i mewn i'r ardal o Dde Cymru | + |
| Awyren a leolir ar Ynys Môn | | |
| Cyswllt ddwywaith y dydd â Northolt | Byddai'n drawsnewidiol drwy globaleiddio'r rhanbarth a'i wneud yn fwy hygyrch i nifer o wledydd teithiau hir eraill a marchnad bwysig Llundain. Byddai angen newid yn ddidrafferth o'r naill awyren i'r llall yn LHR. | + + + |
| Cyswllt dyddiol neu ddwywaith y dydd â Maes Awyr arall yn Llundain | Byddai'r drawsnewidiol drwy godi proffil y rhanbarth yn yr UE a'i wneud yn fwy hygyrch i nifer o gyrchfannau eraill sydd hefyd yn cysylltu â maes awyr Llundain – hyd yn oed gydag ehediadau hunangysylltu, a hefyd farchnad bwysig Llundain | + NEU + + |
| Cysylltiadau â Chyrchfannau newydd yn Ynysoedd Prydain | Byddai marchnad yr Alban yn bwysig i'r Ynys Ynni - cyrchfannau yn Iwerddon sydd oll yn cynnig cyfleoedd busnes a thwristiaeth gwahanol - byddai Protectoriaethau'r Goron yn cael llai o effaith ar fusnes | + NEU + + |
| Awyren a leolir yng Nghaerdydd | | |

| | | |
|---|---|---|
| Gwell cysylltiadau yng | Gallai Gogledd Cymru hefyd gael budd o unrhyw gysylltiadau ymlaen yng Nghaerdydd pe bai'r un awyren | + |
| Nghaerdydd | yn cael ei defnyddio a phe bai'r amserlennu yn weddol ddi-dor.<br><br>I'r gwrthwyneb, gallai cyrchfannau gael mynediad di-dor i Ogledd Cymru ar gyfer gwyliau byr drwy Gaerdydd. | NEU<br><br>+ + |

Noder bod arwyddion plws ( + + + ) yn dynodi Dwysedd effaith gydag arwydd minws ( - ) yn dynodi ychydig o effaith neu effaith niwtral.

TABL 15: CRYNODEB O EFFEITHIAU GWELLIANNAU POSIBL I'R RHWYDWAITH GWASANAETH AWYR O FAES AWYR CAERDYDD

| Math o Welliant | Effaith | Maint yr Effaith |
|---|---|---|
| Gwell amserlen ar gyfer y Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyhoeddus | Yn fwy poblogaidd ymhlith trigolion Gogledd Cymru. Yn llai buddiol i ddalgylch Caerdydd | - |
| Mwy o gapasiti ar lwybr y Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyhoeddus | Bydd yn amrywio'r defnydd o'r gwasanaeth gydag ystod ehangach dybiedig o brisiau | + |
| Awyren a leolir yng Nghaerdydd | | |
| Gwasanaeth ddwywaith y dydd i LCY | Byddai hyn yn arbennig o fuddiol i'r sector Ariannol, ac mae nifer o gyrchfannau ymlaen yn LCY a fyddai o ddiddordeb hefyd | + + + |
| Gwasanaethau ychwanegol i Baris | Byddai hyn yn hwyluso busnes ym Mharis a'i nifer fawr o gysylltiadau ymlaen | + + + |
| Unwaith y dydd i Frankfurt | Ychwanegiad i'w groesawu i fwrdd cyrchfannau Cymru ac efallai y byddai ymestyn y gwasanaeth i Norwich hefyd i'w groesawu | + + |
| Gogledd yr Alban | Gallai'r potensial i wasanaethu Inverness, gwella cysylltiadau ag Aberdeen ac, efallai, ddefnyddio mannau aros yn y canol megis LBA neu NCL oll fod yn ddefnyddiol | + + |
| De Iwerddon | Byddai Cork a Shannon yn gyrchfannau defnyddiol i'w hadfer yng Nghaerdydd | + + |
| Ynysoedd y Sianel | Byddai'n fuddiol atgyfnerthu cysylltiadau ag Ynysoedd y Sianel, ond ni fyddai'n arbennig o drawsnewidiol | + |
| Gwelliannau yng Nghaerdydd | Byddai rhai o'r gwelliannau hyn i lwybrau i gyrchfannau cyfagos yn Ewrop, Iwerddon, Ynysoedd y Sianel a Norwich o ddiddordeb i ddalgylch Ynys Môn a byddent yn ysgogi rhywfaint o draffig drwodd | + |

| Awyren a leolir ar Ynys Môn | | |
|---|---|---|
| Cysylltiadau â Chyrchfannau newydd yn Ynysoedd Prydain | Gallai Cysylltiadau Newydd ag Inverness, Belfast ac Ynys Manaw fod yn ddefnyddiol i ddalgylch Caerdydd | + + |

**Casgliadau ac Argymhellion** yr Astudiaeth Ymestyn Llwybrau

3.25 Pa gymysgedd bynnag o ddulliau cyflawni posibl a ddefnyddir i sicrhau'r gwelliannau gorau posibl i rwydwaith llwybrau cysylltiedig y Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyhoeddus, mae'n amlwg o'n gwaith dadansoddi a'r arfarniad mai un o'r penderfyniadau allweddol fydd p'un a fydd y gwelliannau hynny yn canolbwyntio ar Ogledd neu Dde Cymru. Bydd hefyd angen cyfaddawdu rhwng costau cyfalaf ychwanegol yn Ynys Môn, yr angen am awyren Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyhoeddus fwy o faint er mwyn i Gaerdydd gael budd a dosbarthiad manteision cysylltedd ar ddau ben y llwybr.

3.26 Fodd bynnag, nid oes angen gwneud penderfyniad ynghylch y mater hwn ar unwaith am fod angen gosod sawl conglfaen paratoadol pwysig yn y cyfamser. Yn ddelfrydol, bydd angen datblygu rhyw fath o ewyllys wleidyddol gydsyniol ar gyfer prosiect sy'n pontio cylchoedd gwleidyddol; nodi cyllidebau; y rôl allweddol y bydd yr Awyrlu yn ei chwarae yn hyn o beth, argaeledd Northolt ar gyfer ehediadau rheolaidd ac ymchwil bellach i fesurau i hwyluso cymorth gwladwriaethol o hyd.

3.27 Gan grynhoi'r argymhellion a wnaed yn yr Adroddiad Technegol gwnaethom awgrymu y dylid cymryd y camau cerrig milltir canlynol:

i. Paratoi Gwahoddiad i Dendro ar gyfer y Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyhoeddus bresennol gan dybio y bydd yr awyren wedi'i lleoli ym Maes Awyr Caerdydd. Gadael lle i ddatblygu cyn neu yn ystod y Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyhoeddus (e.e. newid yr oriau gweithredu). Dod o hyd i ffordd o roi hwb i weithgarwch marchnata'r llwybr er mwyn cynyddu nifer y defnyddwyr, am fod hyn yn lleihau'r risg a'r gost ar gyfer datblygiadau dilynol.

ii. Dechrau deialog â'r RAF/DIO er mwyn trafod y canlynol:

- Oriau agor hwy yn ystod yr wythnos;
- Y posibilrwydd o agor ar y penwythnos, hyd yn oed os mai dim ond ar gyfer ehediadau siarter arbennig achlysurol y gwneir hynny';
- Y potensial i leoli'r awyren ar Ynys Môn a goblygiadau hynny (e.e. awyrendy ac ôl troed mwy o faint gan y maes awyr sifil);
- Addasiadau er mwyn cydymffurfio â NASP ac amserlenni;
- Cost.

iii. Cwblhau addasiad manylach o NASP ochr yn ochr â'r trafodaethau hyn; nodi'r gost, cael dyfynbris am gyfarpar, cytuno arno â'r RAF a phennu amserlenni.

iv. Cynnal astudiaethau economaidd-gymdeithasol er mwyn gweld a ellir cyfiawnhau Rhwymedigaethau Gwasanaeth Cyhoeddus rhwng Maes Awyr Ynys Môn a Llundain neu Amsterdam ac, yn yr un modd, a ellir cyfiawnhau/cynnal dulliau cefnogi llwybr priodol ar gyfer gwasanaeth ychwanegol unwaith y dydd i Baris neu lwybrau newydd i Lundain neu Frankfurt. Bydd hyn yn gofyn am waith manylach, gan gynnwys, o bosibl,

gynnal arolygon o ymwelwyr, a fydd yn cwmpasu marchnad dwristiaeth gogleddorllewin Cymru er mwyn gallu deall ac asesu manteision posibl gwell cysylltedd yn iawn.

v. O ran Llundain yr opsiwn mwyaf addawol ar gyfer Ynys Môn (ac, o bosibl, Gaerdydd) nes i'r drydedd redfa gael ei hadeiladu yn Heathrow, yw gwasanaeth i RAF Northolt, a dylai Llywodraeth Cymru geisio negodi cytundeb â'r Weinyddiaeth Amddiffyn er mwyn hwyluso hyn.

vi. Ar yr un pryd, byddai'n briodol drafftio cynllun ar gyfer Cronfa Datblygu Llwybrau i Gymru a cheisio cymeradwyaeth[15] ar ei gyfer, y gellir ei ddefnyddio i wneud gwelliannau i lwybr y Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyhoeddus a gwelliannau i lwybrau eraill ym Maes Awyr Caerdydd a Maes Awyr Ynys Môn.

vii. Yn ystod hydref 2016[16] dyfarnu contract Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyhoeddus tan ddiwedd 2020. Yn ddelfrydol, bydd hyn yn cynnwys cymal i ddiddymu'r contract yn 2018 os na fydd y gweithredwr yn fodlon ystyried uwchraddio'r awyren na chyfleoedd eraill ar gyfer datblygu llwybrau. Ers hynny, cytunwyd â Llywodraeth Cymru y byddai'n well ceisio estyniad dros dro i'r contract presennol er mwyn gallu cynllunio'n iawn ar gyfer contract Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyhoeddus newydd yn 2018.

viii. Felly, mae'n bwysig bod yr amser ychwanegol sydd ar gael yn cael ei ddefnyddio i gynllunio'r broses aildendro yn ofalus a rhoi sylw i ystyriaethau megis gwaith paratoi ar osod seilwaith (e.e. yr awyrendy, maes parcio gofynnol a gwelliannau i aliniadau ffyrdd fel y gellir lleoli awyren yn y Fali yn bennaf gan ddefnyddio'r ôl-troed sifilaidd cyfredol).

ix. Mae hefyd yn bwysig bod Llywodraeth Cymru yn cymryd amser i ymgynghori â CWL a gweithredwyr awyr ynghylch gwahanol opsiynau ar gyfer llwybrau a'r cymorth gwladwriaethol sydd ar gael cyn i'r tendr newydd gael ei gyhoeddi.

x. Bydd hyn yn ei dro yn helpu i fireinio'r gwahoddiad terfynol i dendro ar gyfer y Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyhoeddus a ddylai gael ei gyhoeddi, yn ddelfrydol, o leiaf flwyddyn cyn y dyddiad dechrau. Defnyddir yr amser ychwanegol hwn i werthuso'r gwahanol opsiynau ar gyfer gwelliannau yn well; sicrhau bod y cynigwyr yn gwneud rhyw fath o ymrwymiadau credadwy o ran eu mentrau i ddatblygu llwybrau ychwanegol, a rhoi amser i lansio unrhyw lwybrau newydd gyda gwell siawns o lwyddo.

xi. Yn fuan ar ôl dyfarnu Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyhoeddus 2018 rydym yn argymell y dylai'r gwaith paratoi ddechrau ar gyfer y Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyhoeddus dilynol a fydd, yn ddelfrydol, yn adeiladu ar waith y 6/7 mlynedd flaenorol.

xii. Pa gwmni bynnag a benodir fel gweithredwyr y Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyhoeddus, mae'n rhaid iddo ddatblygu cynllun marchnata cynhwysfawr nid yn unig ar

---

[15] Mae'r Gronfa Datblygu Llwybrau yn gategori o gymorth ar gyfer llwybrau a gymeradwywyd gan yr UE ar gyfer cymorth gwladwriaethol o dan amgylchiadau ac egwyddorion penodol.

[16] Noder, wrth lunio'r adroddiadau amrywiol, fod amserlen dyddiadau cychwyn posibl y Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyhoeddus yn esblygu. Dylai'r dyddiadau hyn gael eu hystyried yn enghreifftiol yn hytrach nag yn ddiffiniol.

gyfer llwybr y Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyhoeddus ond hefyd unrhyw welliannau, a

rennir ac a gefnogir gan unrhyw bartneriaid perthnasol ac a ariennir yn ddigonol er mwyn gwneud effaith sylweddol.

3.28 Yn ogystal â'r uchod, gwnaethom hefyd gynnig cyfres o argymhellion manylach eraill a oedd yn fwy tactegol eu natur:

a) Sicrhau bod yr Adran Drafnidiaeth a noddwr y rhedfa newydd (LHR yn ôl pob tebyg) yn glir bod Cymru yn disgwyl cael slotiau ar gyfer Meysydd Awyr Caerdydd ac Ynys Môn pan fydd unrhyw gapasiti rhedfa ychwanegol ar gael. Tynnu sylw at y ffaith y disgwylir i'r rhain gael eu diogelu gan Rwymedigaethau Gwasanaeth Cyhoeddus.

b) Hysbysu'r Adran Drafnidiaeth bod cefnogaeth i ddefnyddio Northolt fel mesur dros dro tra bod capasiti rhedfa newydd yn cael ei ddarparu. Mae'n debyg y bydd gan Ynys Môn fwy o ddiddordeb yn hyn na Chaerdydd oherwydd amseroedd mynediad byrrach ar y ddaear.

c) Adolygu gyda'r RAF/DIO a yw model ariannu JSP360 yn gweithio orau ar gyfer maes awyr sifil Ynys Môn. Er enghraifft, efallai y byddai ffi flynyddol sefydlog yn hytrach na ffi ostyngol JSP360 yn gweithio'n well. Mae pryder mai dim ond yr Awyrlu a fyddai'n cael budd o fusnes sifil ychwanegol a allai gael ei ddenu i'r maes awyr gan ymdrechion marchnata'r rhanddeiliaid cenedlaethol a rhanbarthol. Nid yw hyn yn ymddangos yn deg, ond mae'n rhoi cymhelliant i wahanol gyrff fanteisio i'r eithaf ar botensial economaidd ochr sifil y maes awyr (y maent yn ei hariannu) yn ogystal â'i botensial o ran twristiaeth. Yn y cyfamser dylid ystyried ehediadau siarter ychwanegol gan ddefnyddio awyren y Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyhoeddus, busnes a hedfan yn gyffredinol, ehediadau siarter IT[17] ac agor oriau cyfyngedig ar y penwythnos.

d) Gweithredu Unedig a Chydgysylltiedig gan Randdeiliaid er enghraifft ym maes Marchnata - Mae'n well gan weithredwyr hedfan weithio gyda grŵp unedig a chydgysylltiedig o randdeiliaid wrth lansio a datblygu eu llwybr. Hefyd, mae'n well ganddynt allu negodi ag un cynrychiolydd o'r rhanbarth yn hytrach na nifer o asiantaethau gwahanol. Mae dulliau Llywodraeth Iwerddon a Llywodraeth yr Alban o gefnogi llwybrau yn cynnig model, ac yn rhanbarthau Ffrainc yn aml mae ganddynt Gymysgedd o Syndicetau â Llywydd, (a gynghorir gan y maes awyr lleol fel arfer) sydd â'r pŵer i lunio cytundebau â'r cwmni hedfan.

e) Bydd y Gwahoddiad i Dendro a thelerau contract y Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyhoeddus yn bwysig iawn i sicrhau bod nodau Llywodraeth Cymru yn cyd-fynd yn agos â nodau gweithredwyr hedfan. Rhoddwyd rhai enghreifftiau yng nghasgliadau'r adroddiad *Demand Forecasting, Economic Analysis and Exploring Extending the Aircraft Size and Operating Hours at Anglesey Airport* a gyhoeddwyd yn 2016.

f) Arloesi - Argymhellir y dylid cyflwyno opsiynau i'r gystadleuaeth dendro er mwyn sicrhau y caiff atebion gwahanol gweithredwyr eu hannog ac y gellir eu cymharu â nodau rhaglen y Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyhoeddus. Gall y Gwahoddiad i Dendro wahodd gweithredwyr i gynnig atebion eraill sy'n cyflawni nodau'r rhaglen gan ddefnyddio dulliau nas rhagwelwyd yn y manylebau. Dylai'r Llywodraeth gadw'r hyblygrwydd i ystyried atebion newydd.

g) Mwy na chwe mis o rybudd - O dan Reoliadau'r Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyhoeddus (Rheoliad Rhif 1008/2008) mae'n ofynnol i awdurdodau caffael roi 'o leiaf chwe mis' o rybudd o'r bwriad i ddyfarnu Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyhoeddus. Mae bron pob un wedi dehongli hyn yn ymarferol i olygu (yn ddieithriad) chwe mis. Oherwydd natur gymhleth y broses o baru Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyhoeddus â gwelliannau eraill sy'n cael eu hystyried yma byddem yn argymell yn gryf bod Llywodraeth Cymru yn cynnig mwy na 12 mis ar ei Gwahoddiad i Dendro. Mae hyn yn golygu bod modd paratoi'n briodol, gwneud gwaith marchnata ymlaen llaw a throsglwyddo'n ddidrafferth a pharatoi

[17] Teithio Cynhwysol megis Gwyliau Pecyn

a rhagfarcio unrhyw lwybrau ychwanegol. Y nod yw dyfarnu contract y Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyhoeddus o leiaf dri mis cyn y dyddiad dechrau.

h) Defnyddio treialon i osgoi aildendro - Os oes awydd i newid manyleb Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyhoeddus yn ystod tymor y contract dim ond gyda phroses aildendro lawn y gellir gwneud hyn. Fodd bynnag, gellir ymdrin â mân newidiadau disgwyliedig drwy gynnal treialon, y gellir eu hadolygu'n rheolaidd a rhoi'r gorau iddynt os ydynt yn aflwyddiannus. Rydym yn argymell y dylid cyflwyno llawer o agweddau (megis arbrofion i sicrhau'r arenillion mwyaf posibl, manylion amserlenni hyd yn oed) fel treialon y gellir eu haddasu heb ysgogi proses aildendro lawn.

i) Opsiynau o ran Profion ac atebion gwahanol disgwyliedig - Mae'n ddigon posibl y bydd y broses dendro ei hun yn cyflwyno opsiynau gwahanol ar gyfer gwella llwybrau i'w dewis gan Lywodraeth Cymru. Ni all Llywodraeth Cymru ficroreoli mentrau'r llwybrau dymunol a dylid nodi hefyd y bydd gan weithredwyr gwahanol ddadansoddiadau gwahanol ac asesiadau gwahanol o gyfleuster gweithredol.

j) Mentrau Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyhoeddus - Gall rhai contractau Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyhoeddus, oherwydd eu cymalau ar ariannu diffygion ariannol, greu cymhellion gwael i ddatblygu'r llwybr neu neilltuo adnoddau digonol ar gyfer gweithgarwch marchnata. Mewn geiriau eraill, caiff unrhyw welliant o ran refeniw'r llwybr ei ddefnyddio i leihau'r cymhorthdal, ac nid er budd y cwmni hedfan[18].

   Yn fwyfwy, mae awdurdodau yn mynd i'r afael â'r anghysondeb cytundebol hwn.

k) Cynllun Datblygu Llwybr y Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyhoeddus - dylid annog llunio cynllun datblygu llwybr argyhoeddiadol sy'n esbonio sut y gellir datblygu refeniw y llwybr a chynyddu nifer y defnyddwyr a'i wobrwyo yn yr asesiad o gynigion tendro, a dylid adlewyrchu'r ymdrechion hyn mewn amcangyfrifon ar gyfer y cynnydd yn nifer y defnyddwyr a refeniw o flwyddyn i flwyddyn, a chyflwyno targedau yn y cyflwyniad.

l) Mae'r adnodd Uchafswm Prisiau yn offeryn eithaf anfanwl i sicrhau fforddiadwyedd a'r cyfranogiad mwyaf posibl. Bydd gan y cwmni hedfan a'r awdurdod noddi uchelgeisiau gwahanol o ran arenillion cyfartalog a nifer y teithwyr a dylid cymhwyso canllawiau a dylanwad clir at y polisi ar brisiau a all, fel y rhagwelwn ar sail y rhagamcanion ar gyfer y llwybr, arwain at niferoedd gwahanol iawn o deithwyr.

m) Meini Prawf Gwerthuso cynigion ar gyfer y Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyhoeddus. Yn ôl y rheoliad dim ond prif benderfynydd y cynigiwr a ffefrir fydd y cymhorthdal y gofynnir amdano ac nid yr unig benderfynydd. Gellir datblygu meini prawf eraill er mwyn gwobrwyo atebion sy'n fwy addas i gyflawni amcanion strategol ehangach Llywodraeth Cymru.

n) Cydsyniadoli ystod gynyddol o gamau gwella ac amserlen y gellir ymrwymo iddynt, ac wedyn eu monitro, yn enwedig yn erbyn cerrig milltir allweddol (e.e. cynnydd yn nifer

[18] Merkert, R. ac O'Fee, B. (2013) Efficient procurement of public air services - Lessons learned from European transport authorities' perspectives, Transport Policy (Mehefin 2013)

defnyddwyr y llwybr, mesurwyd gan NASP, mesurwyd gan yr Awyrlu, nodwyd y Rhwymedigaethau Gwasanaethau Cyhoeddus/Cronfeydd Datblygu Llwybr, rhanddeiliaid wedi ymrwymo ar y cyd).

3.29 Yn seiliedig ar yr uchod gellir crynhoi'r camau nesaf sydd i'w cymryd ar unwaith fel a ganlyn:

Llunio eglurhad ffurfiol o nodau rhaglen y Rhwymedigaeth Gwasanaethau Cyhoeddus (ac, o bosibl, ymgynghori arnynt), a all wedyn weithredu fel cyfeirbwynt ar gyfer llawer o gamau gweithredu dilynol.

Cychwyn deialog â'r RAF/Sefydliad Seilwaith Amddiffyn ynglŷn â phosibiliadau ar gyfer gwelliannau.

Cwblhau'r Gwahoddiad presennol i Dendro gyda pha welliannau syml bynnag y gellir eu hymgorffori o fewn yr amserlen dynn - rydym yn awgrymu:

- Diwrnod estynedig os yw'n dderbyniol gan yr Awyrlu o fewn amserlen a chyllideb yr Adran
- Gwell gwaith marchnata sydd â gwell adnoddau
- Cymhellion i'r gweithredwr hedfan gydweithredu yn y marchnata hwnnw
- Ystyried y ffordd orau o ddylanwadu'n gadarnhaol ar y polisi ar reoli arenillion er mwyn ehangu cyfranogiad yn y defnydd o'r gwasanaeth
- Cytuno ymlaen llaw ar rai amserlenni 'Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyhoeddus' ychwanegol ar y penwythnos ar ddechrau pob blwyddyn (e.e. Rygbi, Pêl-droed, rasys TT, siopa Nadolig, digwyddiadau pwysig)
- Sgorio unrhyw welliannau i'r llwybr gan y cynigwyr yn gadarnhaol

3.30 Cynhwyswyd y casgliadau a'r argymhellion yn yr Argymhellion a'r Camau Nesaf yn Adran 10 o'r adroddiad hwn.

# 4 OPSIYNAU AR GYFER DATBLYGU LLWYBRAU TENAU O FAES AWYR RHYNGWLADOL CAERDYDD

4.1 Gan fod cryn dipyn o orgyffwrdd rhwng y gwaith drafft sydd eisoes wedi'i wneud ar *Maes Awyr Caerdydd: Astudiaeth o Lwybrau Tenau ar gyfer y Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyhoeddus a gwelliannau i Lwybr Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyhoeddus Cymru (gweler Tabl 1)*; cynigiwyd y gallai fod yn ddefnyddiol cyfuno allbynnau'r ddwy astudiaeth i ffurfio un ymarfer mwy cynhwysfawr sy'n nodi llwybrau teithiau byr y mae'n debygol y bydd

angen ymyrraeth Llywodraeth Cymru arnynt er mwyn eu diogelu a'u hatgyfnerthu dros y tair i bum mlynedd nesaf.

4.2 Ystyriodd y gwaith ar y Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyhoeddus lwybrau y gallai fod yn bosibl eu gwasanaethu gan ddefnyddio awyrennau yn y categori 19-34 o seddi fel ychwanegiad at wasanaeth craidd y Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyhoeddus; canolbwyntiodd yr astudiaeth hon o Lwybrau Tenau ar lwybrau i faes awyr Caerdydd (CWL) ac oddi yno a fyddai'n denu 50,000 o deithwyr y flwyddyn neu lai ac, felly, a fyddai'n llai tebygol o fod yn fasnachol hyfyw fel gwasanaeth annibynnol na'r rhai â marchnad bosibl a oedd yn fwy na hynny. Defnyddiodd yr adroddiad arfarniad cyfatebol er mwyn hwyluso cymariaethau ag opsiynau ar gyfer gwella'r Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyhoeddus.

4.3 Gan ddefnyddio dull gweithredu tebyg i'r un a ddefnyddiwyd gan yr astudiaeth gwella'r Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyhoeddus flaenorol nid oedd tîm yr astudiaeth wedi'i gyfyngu i ddefnyddio awyren Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyhoeddus ‘Ynys Môn’ ac roedd hefyd yn ceisio nodi llwybrau a allai oroesi ar sail heblaw am Rwymedigaeth Gwasanaeth Cyhoeddus e.e. cymhellion datblygu llwybrau arferol a Chronfeydd Datblygu Llwybrau.

4.4 Amcangyfrifwyd y galw ar sail cyfraddau gollwng o ddalgylchoedd a gafwyd o arolygon teithwyr yr Awdurdod Hedfan Sifil a phrofwyd hyfywedd masnachol gan ddefnyddio modelau APEX fel o'r blaen.

4.5 Nodwyd amrywiaeth o lwybrau a rhoddwyd sgôr iddynt yn seiliedig ar feini prawf meintiol ac ansoddol. Mae rhai materion allweddol yn cynnwys prisiau tocynnau yn erbyn dulliau teithio ar y ddaear neu gystadleurwydd yn erbyn prisiau tocynnau ym Mryste. Roedd y ddwy astudiaeth yn ymwneud ag ymyriadau cymorth gwladwriaethol; sy'n gyfreithlon ac a all gyfrannu'n sylweddol at y gwaith o ddatblygu llwybrau.

4.6 Daw'r astudiaeth i'r casgliad fod rhwng 10 a 15 o gyfleoedd gwerth chweil ar gyfer datblygu llwybrau o Gaerdydd nad ydynt yn gysylltiedig â theithiau hamdden allan o'r brifddinas (mae'n debyg bod rhwng 10 a 15 arall o'r rhain hefyd), y gallai cymysgedd o gyllid y Gronfa Datblygu Llwybrau a'r DMF[19] helpu i'w hariannu ac y gallai fod achos economaidd dros wneud hynny ar eu cyfer. Mae angen gwneud rhagor o waith i ddatblygu methodoleg a fydd yn bodloni gofynion y llyfr gwyrdd[20] ac yn ei gwneud yn bosibl dangos gwerth am arian, ond darperir y gwaith craidd i gyfiawnhau comisiynu gwerthusiad manylach o'r math hwnnw, sy'n cwmpasu Caerdydd yn ogystal ag Ynys Môn, gan y dadansoddiad yn yr adroddiad hwn a'r astudiaeth ymestyn y Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyhoeddus gysylltiedig.

4.7 Mae'r adroddiad hwn yn ystyried pum dull hwyluso a allai chwarae rôl o ran datblygu llwybrau, sef:

i. Rhwymedigaethau Gwasanaeth Cyhoeddus

[19] Mae Cronfeydd Marchnata Cyrchfannau yn ffordd gyffredin y mae cronfeydd cyhoeddus yn ariannu llwybrau allweddol o fewn terfynau a nodwyd.

[20] Canllawiau Trysorlys EM i gyrff yn y sector cyhoeddus ar sut i arfarnu cynigion cyn neilltuo arian ar gyfer polisi, rhaglen neu brosiect

ii. Cronfeydd Datblygu Llwybrau a noddir gan y wladwriaeth neu'n lleol ac a gymeradwyir gan yr UE; iii. Mentrau marchnata cyrchfannau; iv. Cyllid de-minimis;

v. Pecynnau cymorth arferol ar gyfer llwybrau a ariennir gan feysydd awyr.

## Crynodeb o'r Adolygiad o'r Astudiaeth o Lwybrau Tenau

TABL 16: NODODD YR ARFARNIAD O LWYBRAU TENAU RHWNG 10 A 15 MENTER BOSIBL AR GYFER DATBLYGU LLWYBRAU

| | Amlder cylchdro / wythnos | Y Fantais i Gymru CCC | Y Tebygolrwydd o'i Gyflawni | Y Dull Cyflawni |
|---|---|---|---|---|
| Y Deyrnas Unedig | | | | |
| Maes Awyr Norwich | 5 / wythnos gefeilliedig â rhannau cyfagos o Ewrop | | | Y Gronfa Datblygu Llwybrau |
| Maes Awyr Aberdeen | 3/6 wythnos a gwella'r gwasanaeth presennol | | Amheuaeth sylweddol | datblygu llwybrau arferol |
| Maes Awyr Inverness | 3/5/6 wythnos | | | Y Gronfa Datblygu Llwybrau |
| Leeds/Bradford | 4/5 gefeilliedig â'r Alban? | | Amheuaeth sylweddol | Y Gronfa Datblygu Llwybrau |
| Dinas Llundain | 10 (heb ei fodelu) | | | Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyhoeddus |
| Dibyniaethau'r Goron | | | | |
| Maes Awyr Ynys Manaw | 3 wedi'u rhannu â Guernsey | | | datblygu llwybrau arferol |
| Maes Awyr Guernsey | 3/wythnos | Mân neu niwtral | | datblygu llwybrau arferol |
| De Iwerddon | | | | |
| Maes Awyr Cork | 5/6 neu wedi'u rhannu | | | datblygu llwybrau arferol |
| Maes Awyr Shannon | 3/wythnos | | | Y Gronfa Datblygu Llwybrau |
| Rhannau Cyfagos o Ewrop | | | | |
| Paris - Maes Awyr CDG | 5 yn ychwanegol at yr un presennol | | | Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyhoeddus |
| Maes Awyr Brwsel | 4/5 wythnos | | | Y Gronfa Datblygu Llwybrau |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Berlin - Schoenefeld | 2 wedi'u rhannu | | | Y Gronfa Datblygu Llwybrau |
| Maes Awyr Zurich | 2 wedi'u rhannu | | | Y Gronfa Datblygu Llwybrau |
| Maes Awyr Hamburg | 4/5 wythnos | | | Y Gronfa Datblygu Llwybrau |
| Maes Awyr Frankfurt | 5/6 wythnos | | | Y Gronfa Datblygu Llwybrau |
| Maes Awyr Frankfurt | 10 (slotiau?) | | Amheuaeth sylweddol | Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyhoeddus / Y Gronfa Datblygu Llwybrau |
| Maes Awyr Genefa | 3/wythnos | | | Y Gronfa Datblygu Llwybrau |
| Maes Awyr Oslo | 1/5 wythnos | | Amheuaeth sylweddol | Y Gronfa Datblygu Llwybrau |
| Toulouse - Blagnac | 4/5 wythnos | | | Y Gronfa Datblygu Llwybrau |
| Maes Awyr Bordeaux | 2 wedi'u rhannu | | | Y Gronfa Datblygu Llwybrau |
| Rhannau Pellennig o Ewrop | | | | |
| Milan - Maes Awyr Linate | 3/5 wythnos | | | Y Gronfa Datblygu Llwybrau |
| Rhufain - Fiumicino | 3/wythnos | | | Y Gronfa Datblygu Llwybrau |
| Rhufain - Fiumicino | 5/wythnos | | | Y Gronfa Datblygu Llwybrau |
| Istanbul - Ataturk | 3/5 wythnos | | Amheuaeth sylweddol | Y Gronfa Datblygu Llwybrau |
| Mae symbol sgorio yn dynodi cryfder asesu a defnyddir codau lliw er mwyn gwahaniaethu rhwng opsiynau cyflenwi | | | | |

# 5 GWERTHUSIAD O GYDYMFFURFIAETH Â NASP - MEYSYDD AWYR YNYS MÔN A PHENARLÂG

5.1 Un o elfennau allweddol diogelwch hedfan yn y DU yw'r Rhaglen Diogelwch Hedfan Genedlaethol. Hon yw safon y Llywodraeth sy'n sicrhau y caiff y gofynion, y polisïau a'r gweithdrefnau cenedlaethol sy'n cwmpasu'r holl ddarpariaethau perthnasol ar gyfer diogelwch hedfan yn y rheoliadau gweithredu o dan gyfraith y DU ac Ewrop, eu diffinio. Mae'n ofynnol i bob awyren nad yw'n pwyso mwy na 10,000 kg pan fydd yn esgyn i'r awyr a/neu sydd â mwy na 19 o seddi ddod o dan ddarpariaethau NASP. At hynny, o dan NASP, mae'n rhaid sefydlu Ardal Gyfyngedig at ddibenion Diogelwch (SRA) a/neu Ran Hanfodol ohoni, yn y maes awyr a nodi'n glir mai hon yw'r ardal ochr yr awyr ddiffiniedig lle mae'r awyren sydd i'w defnyddio yn cael ei lleoli, a'r ardal y caiff yr holl unigolion hynny sydd ag angen dilys i fynd i mewn i'r Rhan Hanfodol, fynd i mewn iddi. Bydd hyn yn cynnwys bagiau, cerbydau a staff wedi'u sgrinio. Diogelu'r SRA/CP yw'r brif flaenoriaeth yn narpariaeth NASP. Bydd angen cytuno ar ddynodiad yr SRA/CP â'r rheoleiddiwr a bydd angen i'r rheoleiddiwr gymeradwyo'r dynodiad hwnnw cyn i unrhyw weithrediadau NASP ddechrau.

5.2 Adeiladodd yr adroddiad hwn ar waith a nododd opsiynau lle y gallai awyren â 19 o seddi weithredu o Faes Awyr Ynys Môn a fyddai'n golygu bod yn rhaid iddi gydymffurfio â'r set lymach hon o safonau diogelwch.

5.3 Roedd adroddiad gan Quelltex ar gyfer Cyngor Sir Ynys Môn, a gyhoeddwyd yn 2015, ar y posibilrwydd y byddai angen cydymffurfio â NASP ym Maes Awyr Ynys Môn, a adeiladodd ar adroddiad cynharach gan Quelltex ar yr un pwnc, a gyhoeddwyd yn 2009, ar gael i'r astudiaeth hon. Llywiwyd yr adroddiad hefyd gan ymweliadau safle â Meysydd Awyr Penarlâg ac Ynys Môn a thrafodaethau ag Airbus, APG, staff Terfynfa Bilfinger a Chyngor Sir Ynys Môn.

5.4 Ymwelodd yr astudiaeth â meysydd awyr rhanbarthol eraill yng Nghymru hefyd, er iddi farnu ei bod yn annhebygol y byddai angen eu cynnwys o dan NASP o fewn unrhyw senario tebygol ar gyfer gwella llwybrau yn y meysydd awyr eraill hyn.

5.5 Amcangyfrifodd yr adroddiad y byddai angen gwario tua £750,000 ar Faes Awyr Ynys Môn er mwyn sicrhau ei fod yn cydymffurfio â NASP a rhwng £1.36m a £2.3m ar Faes Awyr Penarlâg, gan ddibynnu ar b'un a fyddai angen adeiladu terfynfa newydd ochr yn ochr â chydymffurfiaeth NASP. Cydnabuwyd mai maes awyr sifil APG ym Mhenarlâg oedd yr ardal orau i leoli datblygiad o'r fath. O ran amserlenni, byddai'n ddoeth caniatáu rhwng chwech ac wyth mis i gwblhau'r broses drosglwyddo am ei bod yn gofyn am brynu cyfarpar newydd, hyfforddi staff, gweithredwyr maes awyr (yr Awyrlu ac Airbus i gydweithredu) a chael cymeradwyaeth reoleiddiol.

5.6 Y ffigur ar gyfer Ynys Môn, sef tua £750k, yw'r amcangyfrif gorau o'r hyn y byddai'n ei gostio i gydymffurfio'n llawn ar gyfer y newid i lefel 3 ar gyfer sgrinio bagiau a roddir yn yr howld erbyn mis Medi 2018. Mae'r ffigur hwnnw yn cynnwys system bagiau caban

newydd sy'n rhagweld y bydd angen newid ar unwaith i'r gofyniad hwnnw. Dyna a wnaed ym Maes Awyr Newquay, er enghraifft, er mwyn diogelu ei hun at y dyfodol. Hefyd, bydd y lefel hon o gyfarpar yn ddigonol ar gyfer llawer mwy na 60,000 o deithwyr y flwyddyn, ar yr amod bod lle iddynt giwio. Yn anecdotaidd, dim ond un 'bwa' diogelwch sydd gan Newquay ac mae'n disgwyl gallu prosesu mwy na 400,000 o deithwyr gyda dau beiriant ar waith weithiau.

5.7 Efallai y bydd modd dod i gytundeb ynglŷn â dileu diogelwch electronig yn llwyr ar gyfer Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyhoeddus yng Nghymru sy'n defnyddio awyren â 19 o seddi, yn enwedig gan fod cyn lleied o deithwyr yn rhynglinellu ym Maes Awyr Caerdydd. Cafwyd cytundeb o'r fath yn ddiweddar, gyda chymeradwyaeth CAA yn yr Alban mewn meysydd awyr fel Campbeltown, Tiree a Barra yn hedfan i mewn i Glasgow. Fodd bynnag, nes i Faes Awyr Ynys Môn gydymffurfio â NASP, ni fyddai modd i unigolion sy'n teithio i'r de rynglinellu'n ddidrafferth oherwydd, pan gyrhaeddant o Ynys Môn, byddai angen iddynt fynd drwy'r system ddiogelwch unwaith eto (ym Maes Awyr Caerdydd) er mwyn parhau â'u taith awyr.

# 6 YSTYRIAETHAU O RAN AWYRENNAU SY'N GYSYLLTIEDIG Â CHAFFAEL GWASANAETHAU RHWYMEDIGAETH GWASANAETH CYHOEDDUS YNG NGHYMRU

6.1 Gofynnwyd i dîm yr astudiaeth ystyried yr effaith y gallai ardystio awyren â thyrbin un injan (SET) ar gyfer gwasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus masnachol gan Asiantaeth Diogelwch Awyrennau Ewrop (EASA) yn ei chael ar hyfywedd y gwahanol lwybrau sy'n cael eu hystyried, a rôl bosibl Modelau Perchenogaeth a Gweithredu Amgen lle y gallai Llywodraeth Cymru hwyluso datblygiadau arloesol dymunol.

6.2 Ystyriodd yr astudiaeth ddau fath cynrychioliadol o awyrennau SET o amrywiaeth o safbwyntiau gweithredol ac mae'r math yn cynnig posibiliadau yng Nghymru o dan opsiynau penodol.

6.3 Prin yw'r cyfleoedd i sicrhau arbedion cost yn y byrdymor, ond mae potensial i ddatblygu llwybrau oddi mewn i Gymru yn nes ymlaen, er yr awgrymir y dylid ailystyried y rhan fwyaf o'r posibiliadau hyn ymhen 3-5 mlynedd.

6.4 Ystyriwyd dau fath yn fanwl fel rhai sy'n cynrychioli'r ‘dosbarth’, sef y Cessna Grand Caravan (nad yw dan bwysedd) a'r Pilatus P12 (sydd dan bwysedd). Mae awyren dan bwysedd yn rhoi gwell profiad i deithwyr, drwy hedfan ‘uwchben y tywydd’, gan osgoi'r anghysur a achosir gan ddatgywasgiad ac, oherwydd yr uchder, mae'n gofyn am lai o feysydd awyr dargyfeirio mewn argyfwng.

6.5 Mae'n bosibl sicrhau rhai arbedion (gweler tabl 17), ond nid ydynt mor sylweddol os dewisir y Pilatus P12 sy'n fwy deniadol. Gwnaed cyfres o amcangyfrifon cost ar gyfer y llwybr presennol a rhai llwybrau posibl eraill oddi mewn i Gymru (Tabl 18).

TABL 17: CYMHARU COSTAU - ACHOS SYLFAENOL Y DEILIAD (LET410) YN ERBYN AWYRENNAU SET AMGEN

**Anglesey to Cardiff (x2 daily M-F)**

| Aircraft Type | Seat Capacity (PA) | Op Cost Estimate (£ PA) | Ops Cost relative to base/estimated change in PSO Subsidy (£ PA) |
|---|---|---|---|
| LET 410 – 17 seat | 16660 | 967,000 | Base |
| Cessna Grand Caravan – 9 seat | 8820 | 773,000 | -194,000 |
| Pilatus PC12 – 9 seat | 8820 | 946,000 | - 21,000 |

**Anglesey to Cardiff (x3 daily M-F)**

| Aircraft Type | Seat Capacity (PA) | Op Cost Estimate (£ PA) | Ops Cost relative to base/estimated change in PSO Subsidy (£ PA) |
|---|---|---|---|
| Cessna Grand Caravan – 9 seat | 13230 | 948,000 | - 19,000 |
| Pilatus PC12 – 9 seat | 13230 | 1,129,000 | + 162,000 |

**Anglesey to Cardiff (x4 daily M-F)**

| Aircraft Type | Seat Capacity (PA) | Op Cost Estimate (£ PA) | Ops Cost relative to base/estimated change in PSO Subsidy (£ PA) |
|---|---|---|---|
| Cessna Grand Caravan – 9 seat | 17640 | 1,122,000 | + 155,000 |
| Pilatus PC12 – 9 seat | 17640 | 1,313,000 | + 346,000 |

TABL 18: CYMHARU COSTAU - ACHOS SYLFAENOL Y DEILIAD (LET410) YN ERBYN AWYRENNAU SET AMGEN AR GYFER LLWYBRAU NEWYDD

**New route options:**

**Hawarden to Cardiff (x2 daily M-F + x1 daily Sat/Sun)**

| Aircraft Type | Seat Capacity (PA) | Op Cost Estimate (£ PA) | Ops Cost relative to base/estimated change in PSO Subsidy (£ PA) |
|---|---|---|---|
| LET 410 – 17 seat | 20400 | 1,345,000 | Base |
| Cessna Grand Caravan – 9 seat | 10800 | 987,000 | - 358,000 |
| Pilatus PC12 – 9 seat | 10800 | 1,201,000 | - 144,000 |

**Hawarden to Cardiff (x3 daily M-F + x2 daily Sat/Sun)**

| Aircraft Type | Seat Capacity (PA) | Op Cost Estimate (£ PA) | Ops Cost relative to base/estimated change in PSO Subsidy (£ PA) |
|---|---|---|---|
| LET 410 – 17 seat | 32300 | 1,771,000 | Base |
| Cessna Grand Caravan – 9 seat | 17100 | 1,256,000 | - 515,000 |
| Pilatus PC12 – 9 seat | 17100 | 1,505,000 | - 241,000 |

**Hawarden to Haverford West (x2 daily M-F + x1 daily Sat/Sun)**

| Aircraft Type | Seat Capacity (PA) | Op Cost Estimate (£ PA) | Ops Cost relative to base/estimated change in PSO Subsidy (£ PA) |
|---|---|---|---|
| LET 410 – 17 seat | 20400 | 1,277,000 | Base |
| Cessna Grand Caravan – 9 seat | 10800 | 933,000 | - 344,000 |
| Pilatus PC12 – 9 seat | 10800 | 1,147,000 | - 130,000 |

**Cardiff to Haverford West (x2 daily M-F + x1 daily Sat/Sun)**

| Aircraft Type | Seat Capacity (PA) | Op Cost Estimate (£ PA) | Ops Cost relative to base/estimated change in PSO Subsidy (£ PA) |
|---|---|---|---|
| LET 410 – 17 seat | 20400 | 1,214,000 | Base |
| Cessna Grand Caravan – 9 seat | 10800 | 893,000 | - 321,000 |
Dylai fod yn bosibl dynodi llwybrau i LHR yn Rhwymedigaethau Gwasanaeth Cyhoeddus unwaith y bydd gan LHR gapasiti ychwanegol – dylid gwrthod eu dynodi yn y cyfamser am resymau ymarferol – (dim slotiau).


Mae manion y byddai angen rhoi sylw manwl iddynt mewn perthynas â 'bwndelu' ad 'grwpio' llwybrau a nodir yn naratif yr adroddiad.

## Casgliadau

7.38 Yn y bôn, mae'r darn hwn o waith yn canolbwyntio'n fwy ar Benarlâg ar gyfer gwasanaethau awyr oddi mewn i Gymru a gwasanaethau awyr posibl eraill. Bu'n gyfle hefyd i'r astudiaeth arddel safbwynt mwy cyfyngedig o ran rôl bosibl Meysydd Awyr Rhanbarthol eraill yng Nghymru ac adlewyrchir y rhain yn yr argymhellion.

7.39 Yn gyffredinol, mae'r tablau arfarnu yn cyfeirio at y manteision sylweddol sy'n gysylltiedig â datblygu cysylltiadau â hybiau (Heathrow yn benodol). Mae atyniadau ehediadau trionglog neu ehediadau bwydo hefyd yn amlwg.

FFIGUR 1: LLWYBRAU GWASANAETH AWYR DANGOSOL I HEATHROW ESTYNEDIG



7.40 Penderfyniad allweddol y bydd angen i Lywodraeth Cymru ei wneud wrth ystyried yr arfarniad o opsiynau yw p'un a yw am ganolbwyntio ar wneud y defnydd gorau posibl o awyren lai o faint â naw sedd neu 19 o seddi neu ddatblygu llwybrau newydd a ph'un a ddylai dalu cost ychwanegol cyflwyno awyren â mwy na 19 o seddi (gan gynnwys y goblygiadau o ran NASP), er mwyn ymestyn yr ystod o opsiynau sy'n bosibl, gan gynnwys hybiau rhyngwladol yn ogystal â gwasanaethau domestig, llwybrau o Gaerdydd yn ogystal ag Ynys Môn/Penarlâg. Gan dybio y byddai angen yr opsiwn olaf hwn lle mae llwybrau yn cael eu rhannu er mwyn ei gwneud yn dderbyniol i'r Llywodraeth a Heathrow ddarparu slotiau ar gyfer gwasanaeth awyr o'r fath o Ogledd Cymru.

7.41 Bydd marchnad fwy o faint Caerdydd yn golygu bod llai o risg yn gysylltiedig â datblygu llwybrau a gallai ddod â mwy o fanteision i Gymru CCC mewn termau absoliwt.

# 8 SENARIOS POLISI STRATEGOL

8.1 Mae'r portffolio o adroddiadau wedi gwneud nifer o argymhellion manylach i'w hystyried. Mae'r adran hon yn crynhoi'r manylion yn set o opsiynau sy'n dibynnu ar flaenoriaethau strategol.

## Y Senarios Polisi

8.2 Crynhowyd 12 Opsiwn Polisi a chynhaliwyd asesiad amlochrog ohonynt.

i. Achos Sylfaenol/Gwneud Dim: Mae'r Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyhoeddus yn parhau fel y mae, dim ymyriadau; dim ond twf marchnadoedd cefndirol a dybir.

ii. Terfynu Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyhoeddus Caerdydd - Ynys Môn: Mae Llywodraeth Cymru yn diddymu'r Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyhoeddus yn gyfan gwbl, yn arbed £1.5m y flwyddyn ac yn dibynnu ar deithio ar y trên, ond mae'n dileu costau buddsoddi a manteision economaidd a gollwyd (Gwerth Presennol Net negyddol o ganlyniad i amseroedd teithio arafach). D.S. Dylid nodi y bydd angen mynd i gostau ychwanegol i adfer hyder y farchnad os rhoddir y gorau i ddarparu'r gwasanaeth yn y cyfamser ac wedyn ei ailddechrau yn y dyfodol. Dim ond os yw'n hollol sicr nad yw am ei weithredu yn awr, nac yn y dyfodol, y dylai Llywodraeth Cymru derfynu'r gwasanaeth.

iii. Mabwysiadu SET ar gyfer CWL-VLY: Un opsiwn fyddai mabwysiadu awyren â naw sedd ac arbed, o bosibl, uchafswm o £300k y flwyddyn, ond lleihau'r farchnad teithwyr ymhellach a chynyddu'r cymhorthdal fesul teithwyr.

iv. Cyflwyno SET yn CEG-CWL yn lle CWL-VLY: Mae'n ddigon posibl y bydd y farchnad gyfan yn fwy, a byddai'n cysylltu â dau glwstwr awyrofod pwysig. Bydd angen i deithwyr o Ogledd-orllewin Cymru gyrraedd y gwasanaeth yn y car. Byddai'r opsiwn hwn yn gofyn am lai o gymhorthdal am ei bod yn bosibl mai dim awyren â naw sedd gyda hydoedd sector ychydig yn fyrrach y bydd ei hangen arno.

v. Cyflwyno Gwasanaeth Trionglog o Ynys Môn a Phenarlâg i Gaerdydd: Mae'r opsiwn hwn yn defnyddio awyren â 19 o seddi sy'n bodoli eisoes er mwyn osgoi NASP (cost = £750k), ond mae'n cynyddu'r ffactorau llwytho yn erbyn yr Achos Sylfaenol. Mae'n cael ei ysgogi gan yr angen i leihau'r cymhorthdal a chynyddu'r cysylltedd a gynigir gan y Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyhoeddus. Mae'r gwasanaeth blaenorol rhwng Plymouth – Newquay – Llundain, a oedd yn cael ei rannu, yn gynsail; a cheir enghreifftiau eraill o wasanaeth o'r fath hefyd.

vi. Manteisio i'r Eithaf ar y Gwasanaeth Presennol: Mae'r opsiwn hwn yn ymrwymo i barhau â'r ateb presennol (19 o seddi) ond gan fynd ati o'r newydd i ddatblygu'r llwybr a'i farchnata. Mae gwahanol agweddau yn cynnwys mentrau megis cronfa farchnata gwerth £100k; cyflwyno'r amseriadau gorau posibl ar gyfer cysylltiadau ymlaen o CWL; tocynnau drwodd i fysiau ar ddau ben y llwybr a llwybr carlam yn CWL i ddeiliaid tocynnau am gyfnod prawf.

vii. Gwella'r gwasanaeth presennol o VLY yn raddol: Mae'r opsiwn hwn yn cynnwys gwneud cynnydd yn unol ag argymhellion ***Astudiaeth Gwella'r Llwybr*** gan symud tuag at (a) awyren â 31 o seddi â dau gylchdro y dydd neu (b) awyren â 19 o seddi â dau gylchdro y dydd a chylchdro canol dydd â naw sedd.

viii. Cyflwyno Llwybrau Masnachol Canol Dydd i Ategu'r Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyhoeddus o VLY: Yn ychwanegol at vii, mae'r opsiwn hwn hefyd yn rhagweld (a) llwybrau newydd canol dydd o Gaerdydd gyda'r awyren Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyhoeddus i gyrchfannau eraill (a nodir yn yr ***Astudiaeth o Lwybrau Tenau*** + £725k VLY NASP) neu (b) llwybrau canol dydd o VLY i BHD neu AMS (amcangyfrifir y bydd y llwybr yn colli £110k+ ar gyfer BHD a bron â mantoli'r cyfrifon yn AMS). Fodd bynnag, mae'n debygol y byddai angen awyrendy a NASP yn VLY (tua £700k a £700k yn y drefn honno).

ix. Gwella VLY yn raddol ac ychwanegu gwasanaethau annibynnol o CEG: O dan yr opsiwn hwn câi gwelliannau cynyddrannol eu ceisio yn VLY. I ddechrau, gallai hyn gynnwys ychwanegu awyren â naw sedd er mwyn ychwanegu gwasanaeth canol dydd at wasanaethau'r bore a'r hwyr (e.e. VLY – CWL 2 x 19 + 1 x 9 sedd); neu gylchdro canol dydd yn gadael Ynys Môn bob diwrnod gwaith gan ddefnyddio awyren â 19 o seddi i gyrchfan arall y tu allan i Lundain; neu ymgorffori Penarlâg (VLY- CEG – CWL) gan ddefnyddio tri chylchdro gydag awyren â naw sedd.

x. Strategaeth Tri Maes Awyr: Adeiladu ar y trefniadau presennol (ix. uchod) ond cyflwyno awyren â naw sedd deirgwaith y dydd o HAW i CWL.

xi. Strategaeth Cysylltiadau â Hybiau: Byddai'r opsiwn hwn fel x. (uchod) ond gydag (a) gwasanaethau trionglog yn defnyddio awyren 31 o seddi drwy VLY + CGE ddwywaith y dydd i LHR ac unwaith y dydd i AMS neu (b) awyren â 50 o seddi yn gwneud yr un peth; ynghyd ag ehediadau bwydo i Gaerdydd gan ddefnyddio awyren â naw sedd o HAW sydd wedi'u hamseru i gysylltu â gwasanaeth gwennol o CWL i Lundain. Byddai hyn yn gofyn am Rwymedigaeth Gwasanaeth Cyhoeddus CWL – LHR a Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyhoeddus VLY-CEG-LHR. Byddai'r gofynion yn debygol o gynnwys uwchraddio i gydymffurfio â NASP yn y Gogledd (a buddsoddi gwerth £3m i gydymffurfio â NASP ac adeiladu Terfynfa newydd yn CEG fel y nodir yn ***Adroddiad Technegol yr Adolygiad o'r Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyhoeddus***) a chymhorthdal tebygol ar gyfer ehediadau o Ogledd Cymru a Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyhoeddus ar gyfer HAW-CWL. Mae'n bosibl y bydd y sector preifat yn darparu rhywfaint o arian ar y cyd ym Mhenarlâg.

xii. Strategaeth Rhwydwaith Llawn: Mae'r opsiwn hwn fel xi. (uchod) ond gydag awyren â 19 o seddi yn cael ei defnyddio ar gyfer y Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyhoeddus, ac yn darparu gwasanaeth ychwanegol o Ynys Môn e.e. i Inverness (INV). Yn y pen draw gallai hyn arwain at bedwar cylchdro y dydd gyda'r awyren â naw sedd a chylchdro trionglog ychwanegol i Belfast (BHD). Câi'r awyren â 31 o seddi ei defnyddio i ddarparu gwasanaeth trionglog i LHR gan alw ddwywaith yn AMS, neu câi ei defnyddio hefyd i alw ddwywaith yn CDG (gallai'r gwelliannau hyn gael eu cyflawni gan y farchnad rydd neu mae'n bosibl mai dim ond cymorth ariannol gan y Gronfa Datblygu Llwybrau y bydd ei angen arnynt) o CEG. Byddai hyn yn gofyn am gydymffurfio â NASP yn y ddau Faes Awyr gogleddol. Mae llawer o opsiynau posibl.

## Cymhwyso Pwysoliadau Gwahanol yn seiliedig ar Nodau Polisi Strategol

8.3 Ystyriwyd pob senario wedyn yn erbyn amrywiaeth o arfarniadau WelTAG. Ceir crynodeb o'r dadansoddiad hwn, a nodir yn fanylach yn yr ***Adroddiad Technegol ar Opsiynau***

***Hirdymor y Dyfodol ar gyfer Rhwymedigaethau Gwasanaeth Cyhoeddus sy'n ymwneud â Hedfan yng Nghymru*** yn Nhabl 35. Ceisiwyd defnyddio'r nodau polisi

strategol canlynol i lywio prosesau gwneud penderfyniadau drwy nodi pa senarios a oedd yn perfformio orau o dan bob un.

Lleihau Gwariant Cyhoeddus i'r eithaf

Gwella Cysylltedd a Hygyrchedd Cymaint â Phosibl

Sicrhau'r Manteision Economaidd Mwyaf Posibl i Gymru CCC

Amcanion Cynaliadwy ac Amgylcheddol

Integreiddio Rhanbarthol / Cenedlaethol

Dull Gweithredu Strategol Integredig

8.4 Crynhoir y canlyniadau yng ngweddill y Bennod hon sy'n dilyn Tabl 35.

TABL 35: ARFARNIAD O SENARIOS STRATEGOL A DDEWISWYD YN ERBYN AMRYWIAETH O YSTYRIAETHAU

| No | Strategic Scenarios | Changes to the connectivity, frequency and travel times allowed | Direct cost of travel/Value of time per pax | Impact on cost of operation at Anglesey Airport & its future use | Potential Cost to the public purse | Impact on jobs, GVA and the relevant Local economies | Effect on Energy Island proposal + plans to develop infrastructure in North Wales | Effect on the Welsh economy as a whole | Risk | State Aid mechanisms | Nation Building and National Integration | Symbolism of such a move | Environmental | Social and Tourism |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 1 | Base Case/Do Nothing | / | / | / | / | / | / | / | / | PSO | / | / | / | / |
| 2 | Terminate Cardiff Anglesey PSO | --- | -- | +++ | +++ | - | -- | - | - | n/a | -- | --- | / | / |
| 3 | Adopt SET Solution for CWL-VLY | / | - | - | + | - | - | - | - | PSO | - | -- | / | / |
| 4 | Replace CWL-VLY with SET at HAW-CWL | - | -- | +++ | / | - | - | - | - | PSO? | -- | -- | / | / |
| 5 | Triangulate Anglesey & Hawarden to Cardiff route | ++ | + | / | - | + | / | + | - | PSO | + | ++ | / | + |
| 6 | Optimisation of Existing Service | ++ | + | + | -- | ++ | + | + | - | PSO | + | ++ | / | + |
| 7 | Incremental Enhancement of existing VLY Service | ++ | ++ | ++ | -- | ++ | + | + | - | PSO | ++ | ++ | / | + |
| 8 | Introduction Midday Routes to Complement the PSO from VLY | ++ | ++ | ++ | -- | ++ | ++ | ++ | - | PSO/RDF | ++ | +++ | / | ++ |
| 9 | Incremental Enhancement of VLY and Add Independent Services from Hawarden | +++ | ++ | +++ | --- | ++ | + | + | -- | PSO | +++ | ++ | / | + |
| 10 | Three Airport Strategy | ++ | ++ | ++ | -- | ++ | + | + | -- | PSO? | +++ | ++ | / | + |
| 11 | Hub connections Strategy | +++ | +++ | +++ | --- | +++ | +++ | +++ | -- | PSO/RDF | + | +++ | - | +++ |
| 12 | Full Network Strategy | +++ | +++ | +++ | --- | +++ | +++ | +++ | -- | PSO/RDF | + | +++ | - | +++ |

Sylwebaeth: Mae'r 12 senario strategol hyn yn ceisio nodi'r opsiynau mwyaf atyniadol a'r system gymorth debygol a fydd yn eu hwyluso. Mae'n anochel mai'r opsiynau mwyaf atyniadol yw'r rhai mwyaf costau i bwrs y wlad. Mae gwelliannau cynyddrannol hefyd yn sgorio'n dda wrth gydbwyso risg â chost.

## Lleihau Gwariant Cyhoeddus i'r eithaf

8.5 Os mai hwn yw'r maen prawf hollbwysig, yna mae dau ateb posibl.

Rhoi'r Gorau i'r Gwasanaeth

Bydd hyn yn arbed tua £1.5m ac yn arwain at golli tua 27 o swyddi a cholli GYG gwerth £1.4

Fodd bynnag, bydd yn creu anesmwythyd yn y rhanbarth. Byddai'n ddoeth paratoi ar gyfer rhai canlyniadau anffafriol, ac efallai y byddai'n ddoeth cynnig mentrau digolledu i'r ardal er mwyn tawelu'r rhanbarth. Wrth gwrs, mae'n debygol y byddai costau yn gysylltiedig â'r rhain.

Cyflwyno awyren â naw sedd ar y llwybr

Byddai hyn yn arbed tua £300k y flwyddyn ond byddai'r lleihau capasiti ffurfiol i 8,820 a chapasiti realistig i tua 80% o'r ffigur hwnnw (7,000).

Fodd bynnag, mae'n debygol mai anfantais gyflwyniadol hyn yw y bydd yn cynyddu'r cymhorthdal fesul teithwyr.

Mae'r opsiwn hwn yn annhebygol o fod ar gael yn weithredol am ddwy flynedd.

## Gwella Cysylltedd a Hygyrchedd Cymaint â Phosibl

8.6 Os mai'r ffocws hirdymor yw gwella cysylltedd a hygyrchedd yna mae'r canlynol yn atyniadol, yn enwedig yng ngoleuni'r strategeiddio sy'n gysylltiedig â Brexit.

Cysylltedd oddi mewn i Gymru – datblygu llwybr y Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyhoeddus er mwyn cyfiawnhau awyren â +29 o seddi (gan ddefnyddio ffocws marchnata uwch) – gall gymryd dau gylch Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyhoeddus (2x 4 blynedd) i'w gyflawni. Wedyn mae'n bosibl y bydd yr awyren hon yn chwarae rôl mewn perthynas â'r canlynol. Os yw'n bosibl sicrhau mynediad i LHR, ystyried triongli VLYCEG-LHR ac ehediadau bwydo i CWL o HAW. Ymhen 5 mlynedd, adolygu a ellir cyfiawnhau/ymgorffori HAW-CEG.

Cysylltedd Cymru â Gweddill y DU ac Iwerddon – defnyddio gwahanol systemau cymorth gwladwriaethol i wella cysylltiadau â Llundain, yr Alban, Belfast, De Iwerddon a Dibyniaethau'r Goron.

Cysylltedd â Gweddill Ewrop – defnyddio gwahanol systemau cymorth gwladwriaethol i wella cysylltiadau i FRA neu CDG o CWL.

Cysylltedd Teithiau Hir – atgyfnerthu cysylltiadau CWL ag AMS, CDG a FRA a/neu gefnogi cysylltiadau o Ogledd Cymru â rhai o'r rhain.

## Sicrhau'r Manteision Economaidd Mwyaf Posibl i Gymru CCC

8.7 Mae'r nod hwn yn awgrymu'r canllaw amcanion allweddol canlynol ar wneud penderfyniadau:

Y cyswllt â LHR yw'r cyflawniad mwyaf buddiol amlycaf; mae cyswllt â maes awyr arall/meysydd awyr eraill yn Llundain yn werthfawr (e.e. LCY).

Mae cysylltiadau â FRA na gwell cysylltiadau â CDG yn sicrhau manteision da.

Nid yw cysylltiadau â gweddill y DU a gwell cysylltiadau â De Iwerddon yn perfformio cystal o ran sicrhau manteision economaidd ond maent yn haws eu cyflawni ac mae'n werth ymdrechu i wneud hynny.

Rhoddir sylw i fentrau sy'n canolbwyntio ar Ynys Môn a Phenarlâg isod.

## Amcanion Cynaliadwy ac Amgylcheddol

8.8 Am nad oes portffolio cynhwysfawr o wasanaethau hedfan yng Nghymru ar hyn o bryd, ceir cyfraddau gollwng o ddalgylchoedd uchel iawn o Gymru i Feysydd Awyr yn Lloegr.

8.9 Mae gollyngiad yn digwydd yn y car yn bennaf, er bod y rheilffordd yn bwysig ar y llwybrau Gogledd Cymru i Ddinas Caerdydd, Dinas Manceinion a Chanol Llundain a Chaerdydd i Ganol Llundain; a bydd gwelliannau ar y llinellau yn ategu hyn. Fodd bynnag, mae canrannau trafnidiaeth gyhoeddus i Feysydd Awyr Manceinion, Bryste, Birmingham a Heathrow oll yn isel iawn. Dylai lleihau'r defnydd a wneir o'r car wrthbwyso'r allyriadau ychwanegol o ehediadau ychwanegol neu awyrennau mwy o faint rywfaint.

8.10 Er mwyn bod yn Gynaliadwy yn Wleidyddol ac yn Ariannol, mae angen cynyddu nifer defnyddwyr a defnyddioldeb Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyhoeddus Gogledd Cymru fel mater o frys er mwyn osgoi unrhyw feirniadaeth.

8.11 Bydd manteision pendant ychwanegol megis cyswllt â LHR yn ennyn cefnogaeth eang yng Ngogledd a De Cymru, yn enwedig am y dylai cymhorthdal cyhoeddus fod yn isel neu'n ddiangen.

## Hwyluso Integreiddio Rhanbarthol / Cenedlaethol

8.12 Os mai'r amcan pennaf yw ysgogi rhanbarthau Cymru, yna:

<u>Gogledd-orllewin Cymru</u>

Cynyddu maint yr awyren ar y Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyhoeddus ac ysgogi'r galw drwy waith marchnata â gwell adnoddau a dewis cludwr addas â GDS a rhynglinellu gwell a chynyddu'r oriau agor yn y Fali (tua awr yn unig yn y nos). Gwarantu'r gwaith uwchraddio i gydymffurfio â NASP

Lleoli'r awyren ar Ynys Môn a cheisio cyrchfannau ar gyfer teithiau sy'n dechrau ar Ynys Môn yn unol â'r adroddiad – NHT/LHR; yr Alban; Ynys Manaw, Belfast.

<u>Gogledd-ddwyrain Cymru</u>

Os sicrheir mynediad i LHR triongli'r ehediad gydag Ynys Môn; gwarantu/hwyluso'r gwaith uwchraddio i gydymffurfio â NASP a gwaith uwchraddio arall.

Cefnogi cyfleoedd i ddatblygu llwybrau eraill o Benarlâg ar sail y buddsoddiadau hyn; yr Alban, Iwerddon a rhannau cyfagos o Ewrop.

Ystyried gwasanaeth trionglog VLY-CEG-CWL, a all helpu i gyfiawnhau awyren fwy o faint.

De-orllewin Cymru

Os bydd CWL yn sicrhau slot yn LHR yna ystyried ehediad bwydo is-NASP gan ddefnyddio awyren â naw sedd o HAW. Ar ôl iddo gael ei sefydlu ystyried HAW – CEG. Ni ellir cyflawni'r rhain ar hyn o bryd.

**Dull Gweithredu Strategol Integredig**

8.13 Sicrhau'r Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyhoeddus drwy waith marchnata â gwell adnoddau, ystyried cynnwys CWL yn y gwaith o weithredu maes awyr sifil VLY, cynyddu oriau agor VLY, ac os deuir o hyd i weithredwr ag awyren â mwy na 29 o seddi a chynnig argyhoeddiadol gwarantu'r gwaith uwchraddio i gydymffurfio â NASP (gan ystyried caniatáu mwy o amser cyn i'r gwasanaeth gwell ddechrau er mwyn darparu ar gyfer gwneud y gwaith uwchraddio). Gwobrwyo gweledедd GDS a rhannu codau, a bwriad canol dydd ychwanegol i ddefnyddio'r awyren yn y Meini Prawf Gwerthuso Tendrau.

8.14 Ystyried yr opsiwn yn y tendr i gynnwys gwasanaeth trionglog VLY-CEG-CWL a derbyn cynigion sy'n defnyddio awyrennau â 19 o seddi a mwy na 29 o seddi. Cadw'r opsiwn i gyflwyno cynigion yn cynnwys awyren â naw sedd yn y tendr, er ei bod yn bosibl na fydd gweithredwyr yn barod i wneud hyn yn y byrdymor. Os cyflwynir cynnig argyhoeddiadol sy'n cynnwys awyren â mwy na 29 o seddi, ystyried gwarantu'r gwaith uwchraddio i gydymffurfio â NASP yn HAW. Cydgysylltu ag AGP ac Airbus i drafod y posibiliadau hyn cyn cyhoeddi tendrau.

8.15 Ochr yn ochr â hyn ceisio slotiau yn LHR ac os llwyddir i'w sicrhau ar gyfer CWL, ystyried Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyhoeddus ar gyfer CWL-LHR a Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyhoeddus ar gyfer ehediad bwydo HAW-CWL.

8.16 Os sicrheir slotiau yn LHR ar gyfer awyrennau yng Ngogledd Cymru, dechrau ar y gwaith uwchraddio i gydymffurfio â NASP a thendro ar gyfer Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyhoeddus drionglog (mae rhai manion sy'n gysylltiedig â thendro y gall fod angen rhoi sylw iddynt er mwyn cyflawni'r canlyniad hwn).

8.17 Yn y tymor canolig, ac os bydd rhywfaint/pob un o'r rhain yn digwydd, ystyried defnyddiau ychwanegol ar gyfer awyren â naw sedd oddi mewn i Gymru megis HAW-CEG ac i gyrchfannau cyfagos megis HAW-DUB neu VLY Ynys Manaw.

# 9 DATBLYGIADAU ARLOESOL TREFNIADOL POSIBL YN Y SECTOR HEDFAN YNG NGHYMRU

---

9.1 Un maes olaf y gofynnwyd i ni ei ystyried yn ystod yr Adolygiad oedd p'un a oedd unrhyw Fodelau Stiwardiaeth Arloesol y dylai Llywodraeth Cymru fod yn eu hystyried. Rhestrodd yr adroddiad ar yr Ystyriaethau o ran Awyrennau sawl posibilrwydd, a thrafodir opsiynau ar

gyfer meysydd awyr posibl ym mhrif Adroddiad Technegol yr Adolygiad o'r Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyhoeddus. Mae'r opsiynau yn cynnwys y canlynol:

Perchenogaeth Gyhoeddus o'r Awyren

Cyd-fentrau Cyrff yn y Sector Cyhoeddus yn Ffurfio Cyd-fentrau â'r Sector Preifat

Menter Cyllid Preifat

Model Ymddiriedolaeth a Sefydliadau Nid er Elw

Sefydliadau yn y Trydydd Sector

9.2 Mae'r posibilrwydd o fabwysiadu awyrennau SET ar gyfer un neu ragor o'r llwybrau Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyhoeddus tenau, a'r angen i sicrhau bod y math cywir o awyren ar gael i hedfan i Gaerdydd a Heathrow, Llundain o Ogledd a Gorllewin Cymru yn cynnig cyfle i gyflwyno ehediadau bwydo o rannau ymylol o Gymru, ac mae hyn dangos bod angen i Lywodraeth Cymru ystyried ei hopsiynau ar gyfer y ffordd y caiff yr awyrennau sydd eu hangen eu caffael ac, yn wir, eu perchenogi. Os oes ymrwymiad gwleidyddol sylweddol i wella'r rhwydwaith o wasanaethau hedfan mewnol a chysylltiadau â hwb cenedlaethol yn y DU yn Heathrow, yna gallai caffael mathau perthnasol o awyrennau gan Lywodraeth Cymru (p'un a gânt eu prynu neu eu rhentu ar brydles), fel sy'n digwydd yn achos Transport Scotland, helpu i warantu y caiff llwybrau allweddol eu gwasanaethu fel sy'n ofynnol. Ac os mabwysiedir model Aurigny, byddai hefyd yn helpu i sicrhau y caiff unrhyw werth cysylltiedig (e.e. o hawliau taid i slotiau yn Heathrow) eu mewnoli yn hytrach na chael eu creu ar gyfer gweithredwr preifat.

9.3 Drwy ateb rhywfaint o amharodrwydd y farchnad i gaffael awyrennau newydd, yn enwedig lle mae'r math o awyren sydd ei hangen yn gymharol arbenigol, byddai ymgeiswyr am Rwymedigaeth Gwasanaeth Cyhoeddus wedyn yn gallu gwneud cais i weithredu a chynnal a chadw'r math o awyren yn hytrach na'i chyflenwi hefyd Mae dull gweithredu o'r fath yn golygu y gellir sicrhau'r uchafswm o gynigwyr posibl ar gyfer Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyhoeddus. Fodd bynnag, er mwyn i hyn ddigwydd, mae hefyd angen rhoi digon o amser dechrau gweithredol i gynigwyr i ychwanegu'r math o awyren i'w Tystysgrifau Gweithredwr Awyr. Gall hyn fod yn her ar gyfer Rhwymedigaethau Gwasanaeth Cyhoeddus sy'n cael eu hadnewyddu lle nad yw'r asedau a ddarparwyd ar gael, o bosibl, i'w gwneud yn bosibl i weithgareddau dechrau Tystysgrif Gweithredwr Awyr ddigwydd ochr yn ochr â gweithrediadau'r deiliad sy'n dal i

fynd rhagddynt. Fodd bynnag, gall y dull hwn o weithredu fod yn llai addas lle mae'r awyren sydd ei hangen o fath mwy cyffredin na'r un a all gael ei gynnig gan y farchnad.

9.4 Dengys ein dadansoddiad y gallai'r Dornier 228NG a'i frawd hŷn, mwy o faint y D328 'turbo-prop' sydd dan bwysedd fod yn addas i wasanaethu rhwydwaith Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyhoeddus yng Nghymru, tra'n gallu cyflawni tasgau ychwanegol ‘amser cinio’ ac, o bosibl, gyda'r hwyr a fyddai o fudd i Gymru CCC.

Pe bai Llywodraeth Cymru yn caffael enghreifftiau o'r fath, o bosibl ochr yn ochr ag awyren â naw sedd, yna gellid cynllunio llwybrau Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyhoeddus a

llwybrau nad ydynt yn destun Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyhoeddus mewn ffordd fwy cydlynol.

9.5 Pwysleisir pwysigrwydd mynd ati o ddifrif i farchnata'r llwybrau hyn mewn llawer o'r adroddiadau technegol ar Rwymedigaethau Gwasanaeth Cyhoeddus yng Nghymru sy'n ategu'r adroddiad hwn. Mewn llawer ystyr mae Cymru CCC yn 'berchen' ar y llwybrau hyn yn fwy na'r gweithredwr presennol ac, felly, efallai y byddai'n well i'r llwybrau hyn gael eu brandio a'u marchnata gan bara-endid a allai gael ei reoli gan Lywodraeth Cymru, Maes Awyr Caerdydd neu Gyngor Sir Ynys Môn Yn ddelfrydol, byddai rhanddeiliaid allweddol gan gynnwys y gweithredwr hedfan yn cefnogi ei waith.

9.6 At hynny, gallai dod o dan berchenogaeth Maes Awyr Rhyngwladol Caerdydd CCC fod o fudd i weithrediad maes awyr sifil yn RAF y Fali hefyd, yn enwedig pe bai angen cydymffurfio â NASP. Byddai hyn yn diogelu Cyngor Sir Ynys Môn rhag cael ei dynnu i mewn i feysydd y tu hwnt i'w gymwyseddau craidd a gellid ymestyn cyfrifoldebau rheolwyr atebol presennol yn CWL yn gosteffeithiol i gwmpasu'r gwaith o farchnata llwybrau Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyhoeddus Maes Awyr Ynys Môn a Chymru. Gallai'r trefniant hwn hefyd arbed cryn dipyn o gostau gweithredol i Lywodraeth Cymru hefyd.

9.7 Opsiwn mwy anarferol fyddai i Lywodraeth Cymru ymrwymo i gyd-fenter â chwmni hedfan sy'n bodoli eisoes er mwyn ffurfio cwmni â chenhadaeth graidd i ddatblygu llwybrau arloesol o Feysydd Awyr yng Nghymru. Gellid cynllunio'r sefydliad a ddeilliai o hynny i fod yn un 'nid er elw personol' yn hytrach na 'sefydliad nid er elw' am y byddai angen iddo gynhyrchu gwargedion (nid 'elw') i fod yn ariannol gynaliadwy. Fodd bynnag, byddai angen sicrhau bod y cwmni yn un hyd braich ac na fyddai'n cael cymorth gwladwriaethol annerbyniol er mwyn helpu i dalu am ei weithrediadau.

9.8 Mae angen ystyried y gwahanol bosibiliadau hyn yn fanylach ar ôl i benderfyniad gael ei wneud ynghylch faint o ymrwymiad y mae Llywodraeth Cymru am ei wneud i gefnogi rhwydwaith o wasanaethau Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyhoeddus sy'n cynnwys cysylltiadau mewnol ac, o bosibl, gysylltiadau â hybiau yn Llundain.

9.9 Adlewyrchir yr argymhelliad hwn yn adran olaf yr Adroddiad Cryno (Adran 10).

# 10 CANFYDDIADAU, CASGLIADAU AC ARGYMHELLION

10.1 Mae'r Ddogfen Gryno hon wedi ceisio cymathu a chyflwyno'r dadansoddiad allweddol o'r farchnad, yr arfarniad o opsiynau a'r gwerthusiadau o bolisïau strategol o rhwng 5-600 o dudalennau o ddeunydd ategol yn yr adroddiadau technegol cefndir. O gofio bod y gwaith yn yr adroddiadau hynny wedi cymryd bron i flwyddyn i'w gwblhau, mae'r syniadaeth wedi newid mewn nifer o feysydd, a chafwyd sawl trafodaeth ddefnyddiol â swyddogion Llywodraeth Cymru. Yn seiliedig ar y crynodeb o'r holl waith hwnnw ym mhenodau blaenorol y ddogfen hon, rydym wedi nodi 12 o argymhellion strategol i'w hystyried gan Weinidogion Llywodraeth Cymru; rydym wedyn wedi'u pennu i'r hyn y rhagwelwn ei bod yn gyfres o gerrig milltir pwysig yn y dyfodol, gan greu llinell amser a all ddarparu 'agenda'r camau nesaf' i'w chymeradwyo ac, wedyn, ei gweithredu gan Lywodraeth Cymru.

## Argymhellion i'w Gweithredu ar Unwaith

**Cael Eglurder ynglŷn â Dyfodol Gwasanaeth y Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyhoeddus**

Mae dadl economaidd gref o blaid cadw gwasanaeth y Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyhoeddus rhwng meysydd awyr Caerdydd ac Ynys Môn sy'n seiliedig ar y ffaith bod arbedion amseroedd teithio i deithwyr busnes yn cynhyrchu GYG sy'n cyfateb, fwy neu lai, i'r cymhorthdal sy'n cael ei fuddsoddi. At hynny, mae hefyd yn cefnogi swyddi sy'n bodoli eisoes a gallai greu rhai newydd, yn enwedig ar Ynys Môn, ac mae'n darparu cysylltedd â De Cymru na all y rheilffyrdd na'r ffyrdd ei ddarparu am lefel y cymorth ariannol a gynigir. Yn strategol, mae'n darparu cysylltiad gweithredol a symbolaidd pwysig rhwng y gogledd a'r de, sy'n ei gwneud yn haws i gwmnïau o Gymru gael mynediad at farchnadoedd mewnol.

**Ymestyn y Contract Presennol**

Dengys y Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyhoeddus arwyddion clir y gallai dyfu ymhellach nag a welwyd hyd yma ond, yn y byrdymor, mae angen cyfnod o weithredu, amserlennu ac optimeiddio prisiau cyson a di-dor ac, yn bwysicach na dim, waith marchnata gwell er mwyn i'r twf hwnnw gael ei wireddu. Yn ogystal â'r camau hanfodol hyn, mae osgoi rhagor o ddyfalu gwleidyddol ynghylch dyfodol y llwybr yn bwysig i feithrin hyder teithwyr yn y llwybr a sicrhau eu bod yn gwneud mwy o ddefnydd ohono.

Mae canfyddiadau'r rhaglen astudio hon yn awgrymu bod nifer o gamau byrdymor megis newid lleoliad gorsaf yr awyren, ymestyn oriau gweithredu yn ystod yr wythnos, ychwanegu cylchdroadau, sicrhau bod prisiau tocynnau yn parhau i fod yn gystadleuol a chynyddu ymwybyddiaeth o'r gwasanaeth a allai helpu i wella perfformiad y gwasanaeth a sicrhau ei fod yn cynnig mwy o werth am arian i Gymru nag y mae eisoes yn ei wneud. Gallai pob un o'r rhain gael ei brofi, gyda chytundeb y gweithredwr, pe câi'r contract dros dro presennol ei ymestyn i roi digon o amser i aildendro'r
Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyhoeddus

Mae ein hasesiad o'r effaith economaidd yn rhagweld, pe câi gweithrediad awyren â 19 o seddi ei gadw, ond ag oriau gweithredu estynedig a phrisiau tocynnau deniadol, y gallai nifer y teithwyr sy'n defnyddio'r

llwybr gynyddu, erbyn 2022, o'r hyn roeddem yn ystyried ei fod yn amcangyfrif rhesymol o'r llinell sylfaen wedi'i normaleiddio yn 2015 - sef tua 11,000 o deithwyr y flwyddyn - i ychydig dros 14,200 neu gyfradd defnyddio seddi o 73%. Drwy sicrhau gwaith marchnata llawer gwell (gan gynnwys gweithgarwch hyrwyddo drwy ddefnyddio systemau GDS) ac ychwanegu trydydd cylchdro sicrheid 19,150 o deithwyr (sef cyfradd defnyddio seddi o 66%), yr amcangyfrifir y byddai'n creu 20 o swyddi a GYG ychwanegol o tua £290k y flwyddyn.

Pe baem yn cymhwyso cyfres debyg o welliannau, ond yn cynyddu maint yr awyren i 31 o seddi ac yn parhau â dim ond dau gylchdro y dydd ar y llwybr, amcangyfrifir y byddai hyn yn sicrhau bron 18,000 o deithwyr y flwyddyn (sef cyfradd defnyddio seddi o lai na 60%), gyda hyd at 18 o swyddi yn cael eu creu a GYG o tua £250k y flwyddyn.

Mae hyn yn awgrymu bod achos cryf dros ymestyn y contract dros dro presennol tan 30 Medi 2018 - a fydd yn rhoi digon o amser i dreialu datblygiadau arloesol masnachol a gweithredol yn ddigonol er mwyn llywio gofynion y contract pedair blynedd dilynol. Bydd ymestyn y contract gan fis Medi 2018 hefyd yn rhoi digon o amser i gynnal y broses dendro, a fydd yn ei gwneud yn bosibl i ofynion gael eu cwmpasu'n llawn ac i weithredwr yn y dyfodol gael ei gaffael yn gystadleuol a'i benodi 6-8 mis cyn i'r gwasanaethau ddechrau. Bydd yr amser hanfodol hwn yn galluogi'r gweithredwr i wneud y trefniadau a'r gwaith paratoi angenrheidiol cyn mynd yn gyfrifol am ddarparu'r gwasanaeth yn weithredol.

Bydd unrhyw estyniad i'r contract dros dro yn gofyn am drafodaethau manwl â'r darparwr presennol a fydd, o bosibl, yn ceisio iawndal ychwanegol am dderbyn risgiau gweithredol neu fasnachol ychwanegol sy'n gysylltiedig â rhai o'r datblygiadau arloesol a gynigir (e.e. os caiff yr awyren ei lleoli ar Ynys Môn yn ystod yr haf efallai y bydd angen ei hanfon i safleoedd amgen megis Ynys Manaw neu, o bosibl, Gaernarfon ar y penwythnos er mwyn gwneud gwaith cynnal a chadw arni). Ond mae hefyd yn cynnig cyfle unigryw i dreialu'r syniadau hyn 'yn y byd go iawn', ac mae'n darparu tystiolaeth empeiraidd amhrisiadwy ar gyfer y tymor canolig i'r hirdymor. Gan gadw hyn mewn cof, rydym o blaid ymestyn y contract presennol.

### Argymhellion i'w Gweithredu ar Unwaith:

I Cadw'r Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyhoeddus o'r Gogledd i'r De rhwng Caerdydd ac Ynys Môn.

II Ymestyn y contract presennol â Van Air tan 30 Medi 2018 cyn gynted â phosibl.

III Wrth wneud hynny, cyflwyno cyfres o welliannau posibl i'r gwasanaeth a rhywfaint o gymorth allanol wedi'i dargedu. Dylai'r rhain gynnwys rhai neu bob un o'r canlynol:

- Sicrhau y caiff awyren y Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyhoeddus ei defnyddio'n amlach drwy gyflwyno tri chylchdro y dydd, naill ai drwy ychwanegu gwasanaeth canol dydd ar y llwybr rhwng Caerdydd ac Ynys Môn neu drwy fynd ati gyda'r gweithredwr i nodi cyrchfan masnachol nad yw'n destun y Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyhoeddus i'r awyren ei wasanaethu.
- Trafod treial â'r gweithredwr i brofi'r galw am amserlen o chwith drwy ailamserlennu'r Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyhoeddus a'i lleoli ym Maes Awyr Ynys Môn ar gyfer haf 2017.

Ymestyn yr oriau gweithredol ym Maes Awyr Ynys Môn cyn gynted ag y gellir cytuno ar hyn â'r Awyrlu, ond dim ond os bydd yr amserlen newydd yn gofyn am hynny.

Negodi unrhyw amrywiad sydd ei angen i'r cytundeb cymhorthdal presennol sy'n deillio o'r newidiadau hyn, yn amodol ar drosglwyddo'n drefnus i unrhyw drwydded Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyhoeddus newydd, yn enwedig os bydd yn cynnwys gweithredwr newydd.

Rhoi mwy o gymorth marchnata ar sail arian cyfatebol – rydym o'r farn y gallai hyn olygu cyfraniad cyhoeddus wedi'i gapio o hyd at £25,000 yn ystod y cyfnod rhwng mis Medi 2017 a swm ychwanegol o £50,000 rhwng mis Medi 2017 a diwedd cyfnod estynedig y contract.

Mae angen cytuno ar gynllun marchnata 'micro-rwydweithio' rhwng y cwmni awyrennau, y meysydd awyr a rhanddeiliaid allweddol eraill (buddiannau twristiaeth gogledd Cymru, Cyngor Sir Ynys Môn a Chyngor Sir Gwynedd). Dylai Llywodraeth Cymru arwain y gwaith o baratoi'r cynllun drwy grŵp marchnata sy'n cynnwys rhanddeiliaid yn y Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyhoeddus, ond ar ôl iddo gael ei gwblhau, dylai ddirprwyo'r cyfrifoldeb am ei roi ar waith i aelod addas o'r cydweithrediad.

Sicrhau ymrwymiadau i ddarparu adnoddau mewn arian parod neu mewn da gan aelodau'r cydweithrediad marchnata, a nodi ffordd o reoli, cydgysylltu a monitro ymdrechion parhaus. Gellir hysbysebu'r ymrwymiadau hyn yn y ddogfen Gwahoddiad i Dendro i gynigwyr ar gyfer y Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyhoeddus lle y gellir eu cyflwyno fel ymgymeriadau sy'n cael arian cyfatebol gan y gweithredwr.

## Argymhellion Byrdymor ar gyfer y Cyfnod hyd at fis Medi 2018

### Sicrhau y Gwneir y Defnydd Mwyaf Posibl o Awyren y Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyhoeddus

Yn realistig, hyd yn oed pe câi'r awyren a gontractiwyd ar gyfer y Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyhoeddus rhwng Caerdydd ac Ynys Môn ei lleoli yn RAF y Fali, byddai'n anodd sicrhau pedwar cylchdro y dydd heb ymestyn oriau gweithredu presennol RAF y Fali. Nododd sgyrsiau cychwynnol â'r Awyrlu y gallai fod yn fodlon ystyried rhai mân amrywiadau yn ystod yr wythnos, ar yr amod y byddai'n cael iawndal priodol, ond na fyddai'n fodlon cyflwyno gweithrediadau ar y penwythnos am fod cryn nifer o bersonél yr Awyrlu yn gadael yr orsaf ar y penwythnos i ddychwelyd adref at eu teuluoedd neu ymweld â ffrindiau. Mae profiad yn awgrymu y bydd yn cymryd peth amser i ddod i gytundeb â'r Awyrlu ac, felly, mae'n well pennu'r argymhelliad hwn fel un 'byrdymor' yn hytrach nag un 'sydd i'w weithredu ar unwaith'.

Fodd bynnag, nododd yr astudiaeth nifer o gyfleoedd cyffrous ar gyfer llwybrau posibl y gellir defnyddio'r contract Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyhoeddus pedair blynedd nesaf (rhwng mis Hydref 2018 a mis Medi 2022) i'w hystyried, yn enwedig os caiff maint yr awyren ei gynyddu o 19 o seddi i fwy na 30 o seddi. Yn gysyniadol, os bydd gweithredu'r argymhellion 'sydd i'w gweithredu ar unwaith' yn cael effaith gadarnhaol ar nifer y teithwyr a ddisgwylir gennym, mae'n bosibl y bydd modd cyfiawnhau defnyddio'r awyren fwy o faint ddwywaith y dydd ar lwybr y Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyhoeddus yn y pen draw

erbyn diwedd cyfnod contract y Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyhoeddus (h.y. 2022) am y byddai ffactorau llwytho ar wasanaeth a ddarperir ddwywaith y dydd wedi cyrraedd 65%.

Fodd bynnag, mantais fawr sicrhau y caiff awyren fwy o faint ei defnyddio ar y Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyhoeddus yw y byddai'n creu'r potensial i wasanaethu cyrchfannau eraill megis maes awyr Llundain o Ynys Môn (Luton i ddechrau, ac yn y pen draw pan fydd y drydedd redfa ar agor, Heathrow) ac, yn yr un modd, gyrchfannau hwb eraill megis Amsterdam (lle y ceir tystiolaeth bod galw mawr am wasanaeth unwaith y dydd o Ogledd-orllewin Cymru) neu Baris, gan ddefnyddio’r awyren i ychwanegu ail gylchdro o Gaerdydd. Mantais awyrennau â 30 seddi yw eu bod dan bwysedd ac, mewn rhai achosion, yn llawer cyflymach na'r awyrennau â 19 o seddi sy'n cyfateb iddynt. Felly, maent yn fwy deniadol i deithwyr ac yn fwy tebygol o gael eu derbyn fel rhai sy'n haeddu slot mewn meysydd awyr gorlawn ac mae ganddynt well economeg llwybrau ar ffactorau llwytho cyfatebol, sy'n golygu bod modd cynnig prisiau tocynnau rhatach.

Er ei bod yn bosibl y byddai'r rhagolygon ar gyfer rhai o'r llwybrau hyn (yn enwedig y meysydd awyr hwb dramor) yn fwy ansicr pe bai'r cynigion ar gyfer y Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyhoeddus nesaf yn parhau i fod yn seiliedig ar awyren â 19 o seddi, byddai gwasanaeth i Lundain yn dal i fod yn bosibilrwydd, ac mae Northolt yn gyrchfan y dylid ei ystyried gyda'r Weinyddiaeth Amddiffyn, ac mae opsiynau eraill ar gyfer cyrchfannau megis Belfast neu Ynys Manaw a all ennyn diddordeb.

## Proses Dendro'r Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyhoeddus 2018-22

Mae ymestyn y trefniadau dros dro presennol yn cynnig cyfle pwysig i addasu'r Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyhoeddus pedair blynedd nesaf yn well er mwyn cyflawni'r canlyniadau a ffefrir. Bydd y rhain yn cynnwys:

chwilio am weithredwr cryf, ag

awyren fwy o faint,

cynnig defnydd ychwanegol credadwy o'r awyren ar gyfer tasg(au) nad ydynt yn gysylltiedig â'r Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyhoeddus,

bydd yn seiliedig ar gynllun datblygu llwybrau argyhoeddiadol sy'n cynnwys cynyddu nifer y teithwyr a'r elw ac, felly, ostwng nifer y ceisiadau am gymhorthdal;

y gallu i fanteisio ar adnoddau marchnata estynedig (a all gynnwys gwelededd GDS, rhynglinellu, masnachfreinio),

cynllun marchnata argyhoeddiadol a thrylwyr ar gyfer ymestyn cwmpas masnachol gwasanaeth y Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyhoeddus (yn ddaearyddol ac o ran segmentau'r farchnad (e.e. denu teithwyr hamdden i mewn i Ogledd-orllewin Cymru), datblygu llwybrau newydd a gweithio gyda meysydd awyr Caerdydd ac Ynys Môn a rhanddeiliaid lleol er mwyn sicrhau bod cymorth marchnata parhaus yn sicrhau'r gwerth gorau am arian.

Mae hefyd yn darparu mwy o amser cyn lansio'r gwasanaeth er mwyn sicrhau'r gwaith paratoi a marchnata gorau posibl. Mae hyn yn cynnwys rhoi trefniadau newydd gyda'r Awyrlu ar waith (gweler

isod) a marchnata'r llwybr(au) am sawl mis ymlaen llaw gan ddefnyddio technegau micro-rwydweithio i sicrhau'r gwerth gorau am arian.

Mae'r argymhelliad ynghylch darpariaeth farchnata well a pharhaus yn seiliedig ar brofiad cynnar Highland Airways ar y llwybr, lle y sicrhaodd o leiaf 2,000 yn fwy o deithwyr y flwyddyn na'r gweithredwyr a'i dilynodd. Cafodd Highland Airways gryn gefnogaeth gan randdeiliaid hefyd gan nifer o asiantaethau a oedd yn cynnwys Cyngor Sir Ynys Môn, CWL, Bwrdd yr Iaith Gymraeg a gweithgarwch micro-farchnata cymunedol medrus a gafodd ei grynhoi mewn atodiad i Astudiaeth Gwella'r Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyhoeddus. Yn hytrach na dibynnu ar hysbysebion drud mewn papurau newydd neu ar bosteri yn unig, mae technegau o'r fath (e.e. ymgyrchoedd yn y cyfryngau cymdeithasol, cystadlaethau gyda gorsafoedd radio lleol, storïau cysylltiadau cyhoeddus, trawsfarchnata gydag atyniadau a darparwyr llety allweddol), yn cael eu defnyddio'n aml mewn meysydd awyr llai o faint a chydnabyddir eu bod yn effeithiol.

Mae tystiolaeth o'r Alban hefyd yn awgrymu bod nifer defnyddwyr Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyhoeddus wedi cynyddu pan drosglwyddwyd y cyfrifoldeb am redeg y llwybr o gwmni awyrennau annibynnol i weithredwr masnachfraint â phroffil uwch. Roedd tystiolaeth hefyd o'r llwybr pan oedd strategaeth rheoli elw fwy 'mentrus', lle roedd gostyngiadau mwy sylweddol yn cael eu cynnig ar docynnau, wedi cael effaith gadarnhaol ar gludiadau yn ystod deiliadaethau Highland Airways a Links Air.

## Goblygiadau Lleoli'r Awyren ym Maes Awyr Ynys Môn

Os ymddengys, o ganlyniad i broses dendro'r Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyhoeddus 2018-22, y bydd y gweithredwr yn fodlon lleoli ei awyren ar Ynys Môn, mae'n debyg y byddai angen awyrendy penodol i gadw'r awyren ynddo dros nos yn barhaol. Gellir codi awyrendy o fath 'Rubb' o fewn tri i bedwar mis ac am gost resymol (tua £750,000 am awyren sy'n cynnwys rhwng 19 a 31 o seddi ynghyd ag unrhyw waith sylfaen) a mantais awyrendy o'r fath yw bod modd ei ddatod ac, felly, ei symud i rywle arall os oes angen.

Er mwyn cyflwyno awyren â 31 o seddi byddai hefyd angen i'r maes awyr ar Ynys Môn gydymffurfio â NASP (y Rhaglen Diogelwch Hedfan Genedlaethol). Byddai hyn yn golygu cyflwyno cyfarpar sgrinio lefel tri a nifer o fesurau eraill yn ardal ochr yr awyr er mwyn atal tresmasu ar yr ardal gyfyngedig. Unwaith eto, amcangyfrifir y bydd hyn yn costio tua £750,000.

## Ymgysylltu â'r Awyrlu

Mae'r Awyrlu yn bartner allweddol yng ngweithrediad y Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyhoeddus am ei fod yn darparu'r seilwaith yn ardal ochr yr awyr a chymorth ar gyfer gweithrediadau na allai'r maes awyr sifil weithredu hebddynt. Er mwyn amrywio gwasanaeth presennol y Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyhoeddus neu ei hehangu bydd angen ei gydweithrediad parhaus ac, mewn rhai achosion, newidiadau sylweddol i'w oriau gweithredu presennol. O'r argymhellion uchod, gellir gweithredu'r cynllun marchnata ac, yn ôl pob tebyg, un cylchdro canol dydd ychwanegol heb amrywio'r cytundeb presennol â'r Awyrlu/DIO[24]. Yr arwyddion cynnar yw ei bod yn bosibl y byddant yn fodlon dangos rhywfaint o hyblygrwydd, ond bydd yn cymryd amser i negodi trefniadau newydd a dylid anelu at sicrhau

[24] Y Sefydliad Seilwaith Amddiffyn

trwyddedau dros dro gyda chytundeb newydd yn dod i rym ar ddechrau'r Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyhoeddus newydd.

Mae'r trefniadau newydd yn debygol o arwain at gostau ychwanegol o ran taliadau ychwanegol a godir gan yr Awyrlu am ddefnyddio ei faes awyr a chostau cyfalaf i gynyddu gallu a gwella adnoddau cyfleusterau yn y maes awyr presennol neu estynedig. Bydd gan yr Awyrlu gyfiawnhad dros drosglwyddo'r costau hyn yn llawn os ydynt yn gysylltiedig â symudiadau trafnidiaeth awyr sy'n ymwneud â'r Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyhoeddus yn unig a'u bod y tu allan i'w oriau gweithredu craidd presennol. At hynny, os nad yw'n adlewyrchu'r costau, gallai hyn godi materion sy'n ymwneud â chymorth gwladwriaethol anghyfreithlon. Mae angen cadarnhau'r costau hyn cyn gynted â phosibl ac, os cânt eu derbyn, eu troi'n ddarpariaeth gyllidebol briodol yn y dyfodol.

Mae angen cadarnhau'r sefyllfa o ran cymorth gwladwriaethol hefyd. Er ei bod yn bosibl na fydd angen hysbysiad ffurfiol i gwmpasu unrhyw gostau cymorth cyfalaf ychwanegol neu wariant cyfalaf ar gyfleusterau gwell ar sail trothwy de-minimis neu SGEI ar gyfer swyddogion cyfrifyddu neu at ddibenion archwilio yn y dyfodol, byddai'n ddoeth gofyn i'r Adran Drafnidiaeth a'r UE gadarnhau hyn.

## Llywodraethu'r Maes Awyr

Am nifer o resymau, mae'n bosibl y bydd paratoi ar gyfer y Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyhoeddus newydd yn cynnig cyfle i ailedrych ar berchenogaeth a gweithrediad y maes awyr sifil ar Ynys Môn. Nodir y rhain yn fanylach yn Adran 9 o'r adroddiad, ond maent yn gysylltiedig ag arbedion effeithlonrwydd gweithredu, argaeledd adnoddau marchnata, arbenigedd ym maes diogelwch a dull gweithredu di-dor o ran polisi Llywodraeth Cymru a gweithredu.

Am y rheswm hwn, credwn y dylid ystyried o ddifrif ofyn i Faes Awyr Rhyngwladol Caerdydd Cyf ddod yn gyfrifol am weithredu Maes Awyr Ynys Môn ar ran Llywodraeth Cymru, ar ddyddiad y cytunir arno â Chyngor Sir Ynys Môn a'i gontractwr Bilfinger. Byddai rheolau TUPE yn golygu y byddai'r staff presennol yn symud pe câi'r contract gweithredu ei drosglwyddo i weithredwr arall.

Rydym yn ymwybodol mai Cyngor Sir Ynys Môn yw perchennog cyfreithlon presennol Cyfleusterau Maes Awyr Ynys Môn, a adeiladwyd â mantais prydles hir gan yr Awyrlu. Fodd bynnag, mae costau llawn y trefniadau rheoli gweithredol yn cael eu gwarantu gan Lywodraeth Cymru ac nid oes gan Gyngor Sir Ynys Môn ddigon o adnoddau i ymgymryd â rôl estynedig cleient ar gyfer cynllun mawr i ehangu'r maes awyr sifil a ragwelir yn ein hargymhellion eraill.

Felly, mae bron yn sicr y byddai'n symlach pe câi perchenogaeth y maes awyr sifil ei throsglwyddo i Lywodraeth Cymru a fyddai'n ymgymryd â'r cyfrifoldeb am ddod o hyd i weithredwr.

## Gwasanaethau o Benarlâg

Yn ein barn ni, cyfyngedig yw'r cyfleoedd i ddatblygu gwasanaethau a weithredir o Benarlâg tan 2022 ac ar ôl hynny. Fodd bynnag, byddai'n werth trafod y posibilrwydd o wneud hynny ymhellach ag APG ac Airbus yn ystod cyfnod estynedig y contract fel y gellir cyflwyno dealltwriaeth glir i'r rhai sy'n tendro ynglŷn â'r cyfleusterau a'r taliadau a gynigid i ddarpar weithredwr Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyhoeddus pe câi mynediad ei ganiatáu o gwbl.

Y farn a fynegir gennym, cyn y trafodaethau ffurfiol hyn, yw bod sicrhau mynediad i Benarlâg yn debygol o fod yn rhy ddrud, y byddai'n gofyn am fuddsoddiad cyfalaf sylweddol, y gallai ddenu cwynion ynghylch cymorth gwladwriaethol gan Feysydd Awyr cyfagos Lerpwl a Manceinion a'i bod yn golygu y bydd parhau i ddarparu gwasanaeth awyr ar gyfer rhanbarth Gogledd-orllewin Cymru, y mae'r holl dystiolaeth o'r astudiaethau technegol ategol yn awgrymu ei bod yn strategol bwysig, yn fwy cymhleth ac, felly, yn ddrutach hefyd, o bosibl. At hynny, a dehongli'r Rheoliadau'r Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyhoeddus yn fanwl gywir, rydym yn amau a fyddai'r gwasanaethau rhwng Meysydd Awyr Penarlâg ac Ynys Môn/Caerdydd yn gymwys fel Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyhoeddus.

Yn y tymor hwy (h.y. ar gyfer cyfnod y Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyhoeddus 2022-26) efallai y bydd modd datblygu pecyn o gymorth i randdeiliaid allweddol (yn enwedig ymhlith cwmnïau a leolir yn yr ardaloedd menter perthnasol ar ddau ben y llwybr) er mwyn sicrhau gwasanaeth naw sedd uniongyrchol sy'n cysylltu Penarlâg â Chaerdydd, ond mater ar gyfer adolygiad yn y dyfodol yw hwnnw.

Yn bwysicach na hynny, mabwysiadu fformat 'galw heibio' neu 'drionglog' (e.e. VLY-CEG (Penarlâg)LHR-CEG-VLY) yw'r ffordd fwyaf tebygol y bydd Gogledd Cymru yn sicrhau mynediad uniongyrchol i Heathrow pan fydd ei redfa newydd yn agor, oherwydd y cyfyngiadau tebygol a osodir ar nifer y slotiau a ryddheir ar gyfer gwasanaethau domestig. Byddai gwasanaeth o'r fath yn dod â manteision sylweddol iawn o ran cysylltedd ar gyfer economi ehangach Gogledd Cymru ac, yn ein barn ni, dylai Llywodraeth Cymru fynd ati'n egnïol i geisio eu sicrhau yn ystod y ddwy flynedd nesaf ar gyfer ymrwymiadau gan Lywodraeth y DU a Heathrow yn ystod proses ei Orchymyn Caniatâd Datblygu (DCO).

## Mynediad i Heathrow

Nododd ymchwiliadau i'r galw am wasanaeth o'r fath a'r effaith economaidd y byddai cryn gefnogaeth i fynediad i LHR yn Ne Cymru yn ogystal â'r gogledd. Byddai gwasanaeth gwennol deirgwaith neu bedair gwaith y dydd yn gwasanaethu'r farchnad o deithwyr sy'n hedfan i Heathrow o dde Cymru er mwyn dal awyren i gyrchfan arall, y mae'r rhan fwyaf ohonynt yn gyrru ac yn parcio yn Heathrow ar hyn o bryd. Disgwylir i'w effaith ar y farchnad o fan i fan sy'n anelu at ganol Llundain o Dde Cymru, a wasanaethir yn dda gan amseroedd teithio byrrach ar drenau, fod yn fach. Ond gyda marchnad gyffredinol yr amcangyfrifwn ei bod yn cynnwys mwy na 200,000 o deithwyr, byddai sicrhau slotiau ar gyfer gwasanaeth gwennol o'r fath o Gaerdydd i Heathrow yn bwysig iawn yn economaidd a dylai fod yn flaenoriaeth uchel i Lywodraeth Cymru yn y byrdymor, gyda'r nod o sicrhau ymrwymiad, yn wleidyddol ac yn gytundebol, rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU (ac, o bosibl, Heathrow hefyd) cyn i'r cais am Orchymyn Caniatâd Datblygu ar gyfer y drydedd redfa gael ei gyflwyno yn 2019.

## Cymorth i Lwybr 'Tenau' Caerdydd

Nododd ein hastudiaethau y potensial ar gyfer datblygu llwybrau o Faes Awyr Caerdydd gydag awyren y Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyhoeddus (yn enwedig pe bai ganddi fwy na 29 o seddi) a hefyd lwybrau a ddiffinnir yn yr astudiaeth hon fel rhai ‘tenau’ (llai na 50,000 o bobl/personau/teithwyr (pax) y flwyddyn). Ystyriwyd mesurau cymorth gwladwriaethol yn ychwanegol at systemau datblygu llwybrau meysydd awyr arferol. Yn ogystal â'r Gwasanaeth Gwennol i Heathrow uchod, nodwyd cyrchfannau hwb eraill ar dir mawr Ewrop megis Frankfurt fel rhai a allai berfformio'n dda; yn enwedig pe gellid sicrhau gwasanaeth ddwywaith y dydd yn ystod yr wythnos. Mae nifer o lwybrau domestig o Gaerdydd hefyd yn ymddangos yn addawol a byddai'n werth ymchwilio ymhellach iddynt, naill ai am nad yw'r cysylltiadau yn bodoli ar hyn o bryd neu am y bydd cynyddu nifer yr ehediadau dyddiol yn fuddiol iddynt. Mae'r rhain yn cynnwys Manceinion, Belfast, Leeds, Newcastle, Aberdeen a Norwich.

Ymhlith yr opsiynau ar gyfer cyflawni'r amcanion hyn mae Rhwymedigaethau Gwasanaeth Cyhoeddus ychwanegol, cymorth ariannol gan RACF [25] Llywodraeth y DU neu gynllun datblygu llwybrau â therfyn amser a sefydlir ac a ariennir gan Lywodraeth Cymru ei hun ond a fydd yn cyd-fynd â phrotocolau sefydledig y DU/UE.

[25] Mae'r Gronfa Cysylltedd Awyr Rhanbarthol yn un o fentrau'r Adran Drafnidiaeth i helpu i ddatblygu llwybrau yn unol â Chronfeydd Datblygu Llwybrau Cymorth Gwladwriaethol a Ganiateir.

## Argymhellion Byrdymor:

I. Cynnwys yr opsiwn i gefnogi awyren â 30 o seddi ym mhroses dendro 2018-22 a gofyn i gynigwyr nodi unrhyw gyrchfannau eraill y byddent, o bosibl, yn ceisio eu gwasanaethu pe câi'r Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyhoeddus ei dyfarnu iddynt ar y sail honno.

II. Cyhoeddi Tendr y Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyhoeddus ar gyfer mis Medi 2018 yn ystod Hydref 2017 gyda'r nod o ddyfarnu'r contract ym mis Ionawr 2018.

- Sicrhau bod Opsiynau'r Tendr yn ystyried yr ateb presennol, sef awyren â 19 o seddi, ac atebion sy'n cynnwys awyrennau mwy o faint (yn ddelfrydol gyda mentrau i ddatblygu llwybrau Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyhoeddus canol dydd neu lwybrau credadwy nad ydynt yn destun Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyhoeddus yn cael eu hannog).
- Sicrhau bod Meini Prawf Dewis y Tendr yn pwyso a mesur y canlyniadau a ffefrir yn briodol ac y bydd hyn yn cynnwys cynlluniau i gynyddu nifer y defnyddwyr a chynlluniau marchnata; lleoli'r awyren; defnydd ychwanegol o'r awyren; GDS[3], rhynglinellu, masnachfreinio neu fanteision eraill. Rhoi pwysoliad priodol i ansawdd yn erbyn cost yn y gwerthusiad – awgrymwn y dylai'r naill fod yn 70% a'r llall yn 30%.
- Canfasio sampl o weithredwyr ymlaen llaw er mwyn llywio'r opsiynau sy'n cael eu tendro'n well.

III. Os ymddengys, o ganlyniad i dreial a gynhelir yn ystod haf 2017, fod lleoli'r awyren ar Ynys Môn ac addasu'r amserlen yn unol â hynny, yn addawol, bydd angen cytuno ar safle ar gyfer awyrendy â RAF y Fali a nodi ateb ar gyfer storio'r awyren sy'n cynnig gwerth am arian a'i roi ar waith.

IV. Os bydd awyren â mwy na 29 o seddi yn llwyddo i ennill cystadleuaeth dendro dylid dechrau paratoi ar gyfer cydymffurfio â NASP i gyd-redeg â'r amser arwain ar gyfer lansio'r Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyhoeddus newydd. Yn y cyfamser dylid mireinio'r paratoadau ar gyfer cydymffurfio â NASP ymhellach os bydd hyn yn digwydd.

V. Negodi cytundeb newydd sy'n ymwneud â gweithredu'r maes awyr sifil, sy'n cwmpasu oriau gweithredu, taliadau ychwanegol sy'n gysylltiedig â hynny, cymeradwyaeth i gyflwyno mesurau NASP os bydd eu hangen yn y dyfodol a chaniatâd i ymestyn seilwaith parcio ceir a seilwaith ategol arall (e.e. awyrendy) os bydd ei angen.

VI. Penodi rheolwr prosiect ar gyfer y gwaith cyfalaf:

- Llunio amserlen ar gyfer cynllunio'r gwaith, sicrhau cymeradwyaeth ar ei gyfer a chael awdurdod cyllidebol i'w gwblhau;
- Tynnu lluniau pensaernïol a pheirianyddol ar gyfer y gwelliannau ffisegol arfaethedig (y tu mewn a'r tu allan);
  - Manylebau ar gyfer unrhyw gyfarpar newydd sy'n gysylltiedig â hwy;
  - Cael caniatâd cynllunio ac adeiladu ar gyfer y cynlluniau.

VII. Datblygu darpariaeth gyllidebol briodol – costau cyfalaf a chostau rhedeg – i dalu am yr eitemau hyn.

VIII. Asesu a oes angen cael cymeradwyaeth ar gyfer cymorth gwladwriaethol a naill ai:

- Cael cadarnhad gan yr Adran Drafnidiaeth a'r Comisiwn Ewropeaidd nad oes angen hysbysiad ffurfiol o gymorth gwladwriaethol; neu

- Cyflwyno hysbysiad ar gyfer y cynllun ehangu posibl llawn o dan yr argymhellion hyn a phob argymhelliad sy'n dilyn o fewn y tri mis calendr nesaf er mwyn cael cymeradwyaeth ar gyfer cymorth gwladwriaethol cyn i weithredwr y Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyhoeddus newydd gael ei ddewis a chyn i'r gwaith cyfalaf ddechrau.

IX. Tendro a gwneud unrhyw waith gwella cyfleusterau sy'n gysylltiedig â'r amserlen weithredol newydd cyn i gontract y Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyhoeddus newydd ddechrau.

X. Gyda Chyngor Sir Ynys Môn a CIAL ystyried pa mor ymarferol fyddai i CIAL ddod yn gyfrifol am redeg Maes Awyr Ynys Môn a rheoli rhaglen uwchraddio NASP.

XI. Cwblhau trafodaethau amlinellol ag APG ac Airbus ynghylch defnyddio Penarlâg ar gyfer gwasanaethau sifil rheolaidd:

- Cael eglurder ynghylch yr angen i adeiladu terfynfa newydd i deithwyr neu newid swyddogaeth y bwyty (a fyddai'n llai drud) pe bai angen NASP.
- Ymchwilio i awydd APG i fuddsoddi mewn unrhyw fentrau o'r fath sy'n ymwneud â gwasanaeth awyr sifil.
- Sicrhau y rhoddir gwybod i Airbus a'i fod yn fodlon ar y ffordd y mae pethau yn cael eu 'gadael'.
  Ceisio slotiau ar gyfer 'Gogledd Cymru' yn LHR3 ar gyfer gwasanaeth awyr trionglog.
- Os ceir SET ar gyfer HAW-CWL (gweler isod) ystyried opsiynau eraill ar gyfer yr awyren (e.e. HAW-CEG).

XII. Cyflwyno achos cryf o blaid mynediad i slotiau o Faes Awyr Caerdydd a Maes Awyr y Fali i LHR i'r Adran Drafnidiaeth a Llywodraeth y DU yn fwy cyffredinol.

XIII. Dylid cynnig cymorth gweithredol i CWL ar gyfer datblygu 'llwybr tenau', yn annibynnol ar y Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyhoeddus bresennol ond sy'n ei hategu, gan ddefnyddio naill ai dynodiadau Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyhoeddus pellach neu Gronfa Datblygu Llwybrau a awdurdodwyd yn ffurfiol i hybu ymdrechion masnachol maes awyr safonol yn y maes hwn, ond hefyd i weithredu fel dewis amgen i Doll Teithwyr Awyr ostyngol os na chaiff y pŵer hwn ei ddatganoli i Lywodraeth Cymru yn y pen draw.

Ystyried dynodiadau Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyhoeddus cenedlaethol a rhyngwladol eraill.

Datblygu Cronfa Datblygu Llwybrau wedi'i hawdurdodi'n ffurfiol; a fydd yn seiliedig, yn ôl pob tebyg, ar fethodoleg debyg i Gronfa Cysylltedd Awyr Rhanbarthol yr Adran Drafnidiaeth sydd eisoes wedi'i hawdurdodi.

Rhagweld cwynion ynghylch cystadleuaeth a chymorth gwladwriaethol gan Faes Awyr Bryste a'u hateb a chadarnhau'n derfynol nad yw Bryste a Chaerdydd yn rhannu'r un dalgylch. Mae hyn yn hanfodol i bob menter bosibl yn y maes hwn. Comisiynu Astudiaeth o Ddalgylch sy'n ategu'r honiad hwn.

### Argymhellion Tymor Canolig i Hirdymor (2019 a thu hwnt)

## Ymestyn y Rhwydwaith o Ogledd-orllewin Cymru

Fel y nodwyd uchod, mae'n debyg mai'r Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyhoeddus newydd (h.y. 201822) fydd y cyfle tebygol i gadarnhau unrhyw dreial sy'n cael ei gynnal mewn perthynas â lleoli awyren yng Ngogledd-orllewin Cymru. Mae hyn yn cynyddu hyd yr eithaf y cyfleoedd ar gyfer datblygu llwybrau ychwanegol o'r rhanbarth hwnnw. Wedyn, gellid defnyddio'r Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyhoeddus ddilynol (2022-26) fel y cyfle i ymestyn y rhwydwaith o Ynys Môn drwy ychwanegu gwasanaethau ychwanegol ac, o bosibl, gyflwyno Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyhoeddus ac awyren arall.

## Tyrbinau Un Injan

Gellir dadlau hefyd mai dyma'r adeg hefyd i wneud penderfyniad i ddiystyru defnyddio awyrennau Tyrbin Un Injan â naw o seddi i ddarparu gwasanaeth amlach ar brif lwybr y Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyhoeddus. O'r awyrennau Tyrbin Un Injan a ystyriwyd y Pilatus PC12 yw'r opsiwn mwyaf deniadol ond mae'n ddrud i'w gweithredu; mae'r Cessna Caravan yn cynnig costau isel ond nid yw'n darparu amgylchedd deniadol i deithwyr ac mae ond yn sicrhau arbedion cost bach o gymharu ag awyren â 19 o seddi os oes digon o alw i gyfiawnhau tri chylchdro y dydd. Byddai'r awyrennau Tyrbin Un Injan hefyd yn cyflwyno cyfyngiadau sylweddol ar nifer y seddi a gallent effeithio ar y galw am y gwasanaeth yn y dyfodol am fod tystiolaeth y bydd rhai teithwyr yn osgoi hedfan ar awyrennau bach iawn (fel y digwyddodd pan oedd Link Air yn defnyddio awyren King Air ar y Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyhoeddus ym mis Rhagfyr 2015).

Dim ond os bydd y galw am y gwasanaeth yn lleihau'n sydyn neu i lai na 7,500 o deithwyr y flwyddyn y dylid ystyried defnyddio awyrennau Tyrbin Un Injan ac ystyrir ei bod yn ddymunol cadw gwasanaeth y Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyhoeddus. Gyda'r eithriad hwn, yn ein barn ni, gallai'r defnydd o awyrennau Tyrbin Un Injan gael ei gyfyngu i opsiynau hirdymor megis (HAW) Hwlffordd - CWL er mwyn cynnig ehediadau cysylltu i wasanaeth gwennol i Heathrow o Gaerdydd, ac unrhyw opsiynau ar draws y wlad (e.e. HAW - CEG (Penarlâg) neu Lanbedr i Gaerdydd a phan ystyrir bod y rhain yn angenrheidiol neu'n fuddiol.

## Opsiwn perchenogaeth o'r awyren

Yn ogystal â pharhau i graffu'n fanwl ar hynt y Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyhoeddus a sicrhau ei bod yn cael ei chyflawni mewn ffordd gosteffeithiol, dylid ystyried mater perchenogaeth bosibl yr awyren sy'n cael ei defnyddio ymhellach fel opsiwn, efallai gyda golwg ar gyfnod 2022-2026 y Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyhoeddus.

### Argymhellion Tymor Canolig – Hirdymor:

I. Adolygu'r rhagolygon ar gyfer llwybrau yn y dyfodol, pan ddaw perfformiad y gwasanaethau a ddarparwyd o dan gontract 2018-22 yn glir.

II. Peidio â dewis opsiwn yr awyren Tyrbin Un Injan ar gyfer y Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyhoeddus bresennol. Ailystyried awyren Tyrbin Un Injan os bydd CWL yn cael mynediad i LHR. Gallai'r awyren hon wedyn ddarparu gwasanaeth hedfan bwydo defnyddiol o HAW i CWL, ar gyfer ei wasanaeth gwennol i LHR a hefyd gynnig y potensial i ddarparu cyswllt rhwng CEG-CWL.

III. Ystyried y posibilrwydd o ddatblygu Cyd-fenter â gweithredwr er mwyn helpu i rannu'r risg a galluogi Llywodraeth Cymru i gael budd o unrhyw slotiau a gafaelir yn Heathrow.

# ATODIAD A: LLYFRYDDIAETH

## Arolygon o Deithwyr ar wasanaeth y Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyhoeddus

Ebrill 2008 - 211 o ymatebion. Daw'r canlyniadau o adroddiad Halcrow (2009). Roedd hefyd yn cynnwys cyfweliadau â theithwyr rheilffordd a'r rhai a oedd yn teithio ar y ffordd rhwng Gogledd a De Cymru;

Gorffennaf 2014 - 164 o ymatebion. Daw'r canlyniadau o adroddiad Arup a gyhoeddwyd yn 2015, ac fe'u hategir gan ddadansoddiad pellach o ddata craidd yr arolwg;

Medi-Hydref 2015 - 100 o ymatebion. Dadansoddwyd yr holiaduron wedi'u cwblhau ochr yn ochr ag adolygiad ystadegol llawn ar gyfer astudiaeth Gwella 2016;

ymgorfforwyd 85 o ymatebion o arolwg teithwyr diweddar gan Van Air / CityWing yn yr adroddiad hwn hefyd.

## Astudiaeth a Deunyddiau sy'n ymwneud â Llwybrau Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyhoeddus


Gwasanaeth Awyr oddi mewn i Gymru (2004);

Valley Route Development Strategy Report - Avia Solutions (2007);

Monitoring of Ynys Mon Air Service – Halcrow (2009);

Review of Intra Wales Service – Arup (2015);

Swyddfa Archwilio Cymru Gwasanaeth Awyr oddi mewn i Gymru – Caerdydd i Ynys Môn –Memorandwm ar gyfer y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus (Ionawr 2014);

Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Cynulliad Cenedlaethol Cymru: Gwasanaeth Awyr oddi mewn i Gymru - Caerdydd i Ynys Môn: Adroddiad Terfynol (Gorffennaf 2015);

Ymateb i Adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus: Gwasanaeth Awyr oddi mewn i Gymru - Caerdydd i Ynys Môn: Adroddiad Terfynol (2015);

Development of an Air Transport Strategy for Wales - Avia Solutions (2015);

Cardiff Airport Charges and Conditions of Use (2015);

Gwasanaeth Awyr oddi mewn i Gymru 2014-2018 dogfen Gwahoddiad i Dendro (2014);

Demand Forecasting, Economic Analysis and Exploring Extending the Aircraft Size and Operating Hours at Anglesey Airport – Draft (July 2016);

Appendices of Demand Forecasting, Economic Analysis and Exploring Extending the Aircraft Size and Operating Hours at Anglesey Airport – Drafft - Gorffennaf 2016.

## Economi a Thrafnidiaeth

Cymru'n Un – Cysylltu'r Genedl Llywodraeth Cynulliad Cymru (2009);

Partneriaeth Gogledd-orllewin Cymru: Cynllun Trafnidiaeth Ranbarthol Gogledd Cymru (Medi 2009);

Y Cynllun Trafnidiaeth Cenedlaethol (2010);

Adnewyddu'r Economi - Cyfeiriad Newydd - Llywodraeth Cymru: (Gorffennaf 2010);

Cynllun Gweithredu ar gyfer Adnewyddu'r Economi: Cyfeiriad Newydd (Mawrth 2011);

Fframwaith i Fesur Llwyddiant - Adnewyddu'r Economi: Cyfeiriad Newydd (Mawrth 2011);

Dinas-ranbarth Caerdydd - Sbarduno Economi Cymru – Adroddiad (2015);

Ardal Fenter Maes Awyr Caerdydd a Sain Tathan – Fframwaith Datblygu Strategol (2015);

Cynllun Trafnidiaeth Cenedlaethol Cymru (2015);

Cynllun Cyllid Trafnidiaeth Cenedlaethol (2015);

Maximising the Economic Benefits of the Welsh Government's Investment in Cardiff and St. Athan Airports – PPIW / Northpoint (2016).

## Twristiaeth

Strategaeth Twristiaeth 2013 – 2020; Partneriaeth ar gyfer Twf (2016);

Strategaeth Twristiaeth Ranbarthol Gogledd Cymru hyd at 2010-2015 (2009);

Strategaeth Twristiaeth Llywodraeth Cymru – Partneriaeth ar gyfer Twf Llywodraeth Cymru (2013);

Strategaeth Twristiaeth Ranbarthol Gogledd Cymru (2003);

Cynlluniau Marchnata Croeso Cymru (2010 a 2013);

Cynllun Marchnata Cyrchfannau Ynys Môn 2012-2016 (2012);

Egwyddorion Fframwaith Partneriaeth Twristiaeth Cymru (2012);

Canolfan Ymchwil Economaidd a Busnes (CEBR) - A study on the economic size and impact of leisure air travel on the UK economy; for ABTA The Travel Association (2013).

## Cymorth Gwladwriaethol

Rheoliad Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyhoeddus yr UE Rhif 1008 – 2008;

Cymorth Gwladwriaethol S.A. 39466 (2015/N) - United Kingdom Start-up aid to airlines operating in the UK European Commission (2015);

ACI EUROPE Response to European Commission on its Communication on Draft EU Guidelines on State Aid to Airports and Airlines (2013);

Guidelines on State Aid to Airports and Airlines. Yr Undeb Ewropeaidd (2014);

DG-Move Draft PSO Guidelines – Version for targeted consultation - July 2016;

Merkert, R. ac O'Fee, B.: Efficient procurement of public air services - Lessons learned from European transport authorities' perspectives, Transport Policy, 29, 118–125 (2013);

Merkert, R. ac O'Fee: Managerial perceptions of incentives for and barriers to competing for regional PSO air service contracts, Transport Policy, 47, 22–33 (2016);

Evaluation of the Scottish Air Route Development Fund; for Scottish Enterprise, Scottish Government, Visit Scotland & HIAL. Wilson, S. (2009).

# ATODIAD B: CYFARFODYDD AC YMGYNGORIADAU

| Sefydliad | Unigolion |
|---|---|
| Cyngor Sir Ynys Môn | Dewi Roberts, Michael Thomas, Jennifer Clark |
| Cyngor Sir Gwynedd | Llyr B. Jones |
| Cyngor Sir Penfro | Barry Cooke |
| Cyngor Sir Ddinbych | John Rooney |
| Citywing | David Buck (dros y ffôn a thrwy e-bost) |
| Bilfinger Europa Facilities Management | Donna Williams; Gemma Williams, Lesley Thomas ac Angelica Williams |

| | |
|---|---|
| RAF y Fali | Arweinydd Sgwadron Jon King |
| Cangen Arbennig Heddlu Caergybi | Keith Horton |
| Croeso Cymru | Andrew Forfar |
| Twristiaeth Gogledd Cymru | Jim Jones |
| Prifysgol Bangor | John Hughes |
| Maes Awyr Penarlâg - Airbus UK | Paul Bastock, Richard Kinnear a Steve Thomas |
| Maes Awyr Penarlâg - Airport Park Group | Carl Poland, Andy McKinney, Darren Williams yn bersonol a Caroline Craft dros y ffôn |
| Maes Awyr Caernarfon | Peter Smith (a Roy Steptoe - dros y ffôn) |
| Maes Awyr Aberporth | Jason Cameron (a Lee Paul - dros y ffôn) |
| Maes Awyr Llanbedr | Roy Mann |
| Maes Awyr Hwlffordd | Tîm ATC a Chyngor Sir Penfro |
| Maes Awyr Penbre | Capten Winston Thomas a Peter J P Obeysekere |
| Maes Awyr Caerdydd | Spencer Birns |
| Textron | Steve McKenna |
| Ymgynghorydd ym maes Hedfanaeth | Roger Hage |

# ATODIAD C: TÎM YR ASTUDIAETH

**Tîm Hedfanaeth RPS**

Geoff Dewick.

**Tîm Hedfanaeth Northpoint**

Chris Cain, Basil O'Fee, Tom Matthews, Richard Matthews, Lesley Smith, Steve Gardner a Jayne Westbrook.

**Oxford Rail Strategies**

Nigel Fulford a Robin Farmer.

**AMEC Foster Wheeler Environment & Infrastructure UK Limited**

Alun McIntyre.

**Energy Aviation Services**

Chris Holliday.

**Mynediad at Fodel Llwybrau a Modelu Disgyrchiant Apex**

RDC Aviation.

# Papur Tystiolaeth cyn Sesiwn Graffu'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus – 4.06.18

# Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyhoeddus (PSO) Gwasanaeth Awyr Oddi Mewn i Gymru – Caerdydd i Ynys Môn

**ADRAN 1:** Canfyddiadau pwysicaf adolygiad RPS/Northpoint ac unrhyw gamau gweithredu y mae Llywodraeth Cymru wedi cytuno i'w cyflawni sy'n deillio o'r canfyddiadau.

**ADRAN 2:** Eglurhad o'r sefyllfa gytundebol bresennol.

---

## ADRAN 1: Canfyddiadau pwysicaf adolygiad RPS/Northpoint ac unrhyw gamau gweithredu y mae Llywodraeth Cymru wedi cytuno i'w cyflawni sy'n deillio o'r canfyddiadau.

Ar ddechrau 2016, comisiynodd Llywodraeth Cymru adolygiad trylwyr o'r Gwasanaeth Awyr PSO, a gynhaliwyd gan arbenigwyr hedfan allanol RPS a Northpoint Aviation. Mae PSO yn wasanaeth sy'n cael ei ariannu drwy gyllid cyhoeddus na fyddai'n gweithredu'n fasnachol fel arall. Ystyriodd yr adolygiad amrediad eang o faterion ar gyfer dyfodol y gwasanaeth, gan gynnwys cyd-destun eang, marchnata ac amodau'r farchnad, dewisiadau o ran lleoliadau, meysydd awyr, cwmnïau hedfan, rheoleiddio, perchnogaeth, diogelwch, amserlennu, cylchdroadau, materion technegol ac amrediad o faterion eraill. Isod mae crynodeb lefel uchel o ganfyddiadau pwysicaf yr adolygiad.

### Canfyddiadau

- Roedd yr adolygiad yn argymell yn gryf y dylai'r Gwasanaeth Awyr PSO Oddi Mewn i Gymru rhwng Caerdydd ac Ynys Môn barhau.
- Roedd y llwybr wedi dioddef methiant yn y gorffennol yn bennaf oherwydd y detholiad o weithredwyr bach nad oedd ganddynt sicrwydd ariannol.
- Roedd yr awyrennau llai o faint, amseroedd hedfan anghyson a materion diogelwch sy'n gysylltiedig â gweithredwyr bach a'u hawyrennau wedi atal teithwyr rhag dewis y gwasanaeth hwn.
- Er gwaethaf y methiannau blaenorol, mae cyfle gwirioneddol yn awr i atgyfnerthu a datblygu'r gwasanaeth ar gyfer y dyfodol.
- Byddai cwmni hedfan mwy o ran maint a sylwedd a chanddo awyrennau mwy o faint yn gwella argraff y cwsmeriaid o'r gwasanaeth a'u hyder ynddo, a byddai hynny'n cynyddu'r galw.

- Mae cost darparu cymhorthdal i weithredwr mwy yn debygol o fod yn uwch; fodd bynnag, mae'r cynnydd yn y gost yn debygol o arwain at gynnydd mewn Gwerth Ychwanegol Gros.
- Adeg yr adolygiad, roedd y Gwerth Ychwanegol Gros a gynhyrchwyd gan y PSO bron â bod yn gyfwerth â chost y cymhorthdal a dalwyd i'r gweithredwr ar yr adeg honno.
- Ceir cyfleoedd i wella Maes Awyr Ynys Môn a fyddai, yn ei dro, yn gwella llwyddiant y PSO, ac yn cynyddu'r manteision economaidd i Ogledd-orllewin Cymru.

**Camau Gweithredu ac Amserlenni**

- **Tachwedd 2014**: Dechreuodd Links Air weithredu contract 4 blynedd ar ôl ennill tendr llawn a chystadleuol (2 ymgeisydd – Links Air a Van Air).
- **Hydref 2015**: Ataliwyd Tystysgrif Weithredu Links Air gan reoleiddiwr hedfan y DU, yr Awdurdod Hedfan Sifil (CAA) ar sail diogelwch.
- **Ionawr 2016**: Rhoddodd Links Air y gorau i weithredu'r gwasanaeth, a hynny'n ddirybudd (prynhawn Gwener).
- **Ionawr 2016**: Camodd City Wing a North Flying i'r adwy i weithredu contract 3 wythnos ar y cyd, gan sicrhau bod y gwasanaeth yn parhau, tra roedd proses gaffael gystadleuol yn cael ei chynnal. Dechreuodd y gwasanaethau ar y bore dydd Llun.
- **Chwefror 2016:** Enillodd Van Air gontract brys am 7 mis (3 ymgeisydd – Van Air, Eastern Airways a North Flying).
- **Gwanwyn 2016:** Cyhoeddodd Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith adolygiad llawn o'r gwasanaeth awyr PSO, a gynhaliwyd gan arbenigwyr allanol, sef RPS a Northpoint Aviation.
- **Medi 2016**: Estynnwyd contract Van Air i fis Mai 2017 wrth i'r adolygiad o'r gwasanaeth gael ei gwblhau.
- **Mawrth 2017**: Ataliodd y CAA Drwydded Cludwr Tramor Van Air (a oedd yn ei alluogi i hedfan yng ngofod awyr y DU) ar sail diogelwch. O ganlyniad uniongyrchol i hynny, cafodd Citywing, sefydliad partner Van Air, ei ddiddymu yn fuan wedyn, gan olygu nad oedd modd i Van Air gyflawni'r contract yn llwyddiannus).
- **Mawrth 2017**: Penodwyd Eastern Airways drwy gontract treigl brys am 1 mis, er mwyn sicrhau bod y gwasanaeth yn parhau. Dechreuodd y gwasanaethau ar y bore dydd Llun.
- **Gorffennaf 2017**: Cyhoeddodd y Prif Weinidog y byddai Llywodraeth Cymru yn parhau i gefnogi'r PSO rhwng Caerdydd ac Ynys Môn yn yr hirdymor.
- **Rhagfyr 2017**: Estynnwyd contract Eastern Airways tan fis Mawrth 2018.
- **Ionawr 2018**: Cyhoeddwyd yr adroddiad terfynol gan Lywodraeth Cymru.
- **Mawrth 2018**: Estynnwyd contract Eastern Airways tan fis Medi 2018.

Dechreuodd yr adolygiad o'r gwasanaeth mewn cyfnod o ansicrwydd mawr i'r PSO, oherwydd y newidiadau gwleidyddol ac economaidd a oedd yn wynebu Cymru a'r DU. Ystyriwyd canlyniad refferendwm yr Undeb Ewropeaidd, ochr yn ochr â newid yn y rheoliadau hedfan ar gyfer awyrennau llai ar wasanaethau wedi'u trefnu ar hyd a lled y DU a methiant ail weithredwr mewn cyfnod o tua 15 mis.

Cafodd cwmpas cychwynnol yr adolygiad ei ymestyn yn sylweddol yn unol â'r newidiadau uchod, a arweiniodd at ganlyniadau amrywiol a chanfyddiadau cymhleth o nifer o astudiaethau gwahanol a gynhaliwyd mewn cyfnod o 12 mis. Yna roedd yn rhaid cyfuno'r rhain i ddarparu

darlun unigol cyffredinol a fyddai'n galluogi'r ymgynghorwyr i wneud argymhellion cadarn a chlir i'r Gweinidogion ar ddyfodol y PSO.

Derbyniwyd nifer o adroddiadau technegol drafft gan swyddogion yn ystod 2016 a dechrau 2017 a fu'n destun her sylweddol yn dilyn hynny.  Roeddem am sicrhau bod y dystiolaeth a gyflwynwyd yn gadarn a chlir, ac fe wnaethom weithio gyda'r ymgynghorwyr i symleiddio cymaint o'r wybodaeth dechnegol â phosibl.

Er bod canfyddiadau cyffredinol yr adroddiad a'r argymhellion i gadw a datblygu'r gwasanaeth wedi'u hesbonio'n glir erbyn mis Gorffennaf, cynhaliwyd y broses uchod o symleiddio a mireinio'r adroddiad cyhoeddedig yn ail hanner 2017, gan alluogi i'r adroddiad terfynol gael ei gyhoeddi ym mis Ionawr 2018.

Mae parhau i ddarparu cyswllt awyr oddi mewn i Gymru drwy'r PSO rhwng Caerdydd ac Ynys Môn yn flaenoriaeth Weinidogol glir a pharhaus.  Mae hyn yn cynnwys uchelgeisiau i ddatblygu'r llwybr yn sylweddol yn ystod tymor y contract nesaf, a cheisio cynyddu nifer y teithwyr ar y llwybr i'r graddau a fydd yn galluogi i awyren fwy gael ei defnyddio a fydd yn cynnwys oddeutu 30 o seddi.  Bydd hyn yn cyflwyno cyfleoedd i wneud mwy gyda'r awyrennau yn ystod 'amser segur y PSO' - er enghraifft, ganol dydd, gyda'r nos neu ar benwythnosau, ac mae potensial i leihau lefel y cymhorthdal sy'n ofynnol i weithredu'r llwybr.

Yn ogystal â datblygu'r PSO presennol, mae gan Weinidogion Cymru uchelgeisiau hefyd i gynyddu'r cysylltiadau awyr o Gymru i rannau eraill o'r DU sy'n bwysig yn economaidd.  O'r herwydd, mae swyddogion wedi bod yn gweithio i ddatblygu achos economaidd dros gyfres o wasanaethau awyr PSO newydd sy'n cysylltu Cymru â rhannau eraill o'r DU, megis yr Alban, gogledd a dwyrain Lloegr a Llundain.  Wrth baratoi ar gyfer Brexit, mae'n rhaid inni wneud pob ymdrech i sicrhau bod Cymru mewn sefyllfa economaidd gadarn.  Mae 80% o allforion Cymru yn mynd i weddill y DU, felly mae'n hollbwysig ein bod yn sicrhau y gellir teithio'n gyflym a chyfleus i rannau eraill o'r DU er mwyn cefnogi busnesau Cymru.  Bydd Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth yn gwneud datganiad ar y llwybrau awyr PSO newydd arfaethedig maes o law.

Amlinellir y sefyllfa gytundebol ddiweddaraf yn Adran 2.

<u>Sicrhau cwmni awyrennau mwy cadarn a gwydn i weithredu'r llwybr</u>

Mae wedi dod yn amlwg bod angen gweithredwr mwy o faint sy'n fwy cadarn a gwydn er mwyn sicrhau llwyddiant a sefydlogrwydd y PSO yn yr hirdymor.  Mae Llywodraeth Cymru wedi sicrhau (o dan gontract tymor byr) gweithredwr o'r fath yn Eastern Airways, sy'n ddeiliad trwydded Math A.

Yn y byd hedfan, mae dau fath o ddeiliaid trwydded - Math A a Math B.  Mae deiliaid trwydded Math A yn gallu gweithredu awyrennau mawr, ac maent yn fusnesau cadarn a sefydlog sy'n cael eu rheoleiddio'n fanwl (gan gynnwys profion ariannol) gan reoleiddiwr hedfan y DU, sef yr Awdurdod Hedfan Sifil (CAA).  Fel arfer mae deiliaid trwydded Math B yn gwmnïau hedfan bach, preifat nad oes ganddynt sefydlogrwydd ariannol, sydd â fflyd fechan o awyrennau.  Nid yw'r CAA yn rheoleiddio gweithredwr Math B i'r un graddau â gweithredwyr Math A.

Cyn i Eastern Airways gymryd cyfrifoldeb dros y PSO ym mis Mawrth 2017, roedd Llywodraeth Cymru wedi rhoi contract i weithredwyr Math B i gyflenwi'r gwasanaeth yn y gorffennol. Roedd hyn yn bennaf oherwydd maint yr awyrennau yr oedd eu hangen i weithredu ar Ynys Môn, ond roedd cost yn ffactor hefyd. Ystyrir y byddai cael cwmni hedfan Math A yn gweithredu'r PSO yn arwain at fanteision a chyfleoedd hirdymor sylweddol nad ydynt wedi bod ar gael yn y gorffennol. Mae Eastern Airways eisoes wedi gwneud cynnydd arwyddocaol o ran cynyddu nifer y teithwyr sy'n defnyddio'r llwybr (cynnydd o tua 40% o gymharu â'r flwyddyn flaenorol) ac wedi sicrhau 'trefniant cyswllt' gyda Flybe i ddarparu manteision eraill i deithwyr megis cyfleoedd rhannu codau a gwelededd eang ar systemau archebu.

Datblygu'r llwybr a chynyddu capasiti awyrennau

Yn ystod y 12 mis diwethaf mae Eastern Airways wedi sefydlogi'r llwybr, wedi adfer hyder teithwyr ac wedi llwyddo i gynyddu nifer y teithwyr bron 40% o gymharu â'r flwyddyn flaenorol, sy'n dangos pan fydd gweithredwr sefydledig, mwy o faint yn rhedeg y llwybr bod potensial amlwg i ehangu'r PSO. Dyma rai o lwyddiannau'r flwyddyn ddiwethaf:

- Y ffactor llwyth blynyddol cyfartalog yn ystod 2017/18 oedd 79%, o gymharu â ffactor llwyth cyfartalog o 65% ar lwybrau domestig eraill Caerdydd.
- Cafodd 13,845 o deithwyr eu cludo ar y gwasanaeth; cynnydd o tua 40% o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Rydym yn gweld cynnydd yn awr yn nifer y teithwyr sy'n debyg i'r rhai a gofnodwyd pan lansiwyd y gwasanaeth gyntaf 10 mlynedd yn ôl pan oedd niferoedd y teithwyr ar eu huchaf.
- Yn ystod 2017, gadawodd 94% o'r hediadau ar amser neu o fewn awr o'r amser gadael a drefnwyd. Dim ond 11 munud oedd yr amser oedi cyfartalog ar gyfer y PSO; o gymharu ag oedi cyfartalog o 15 munud ar hediadau eraill Caerdydd.
- Yn ystod 2017/18, gweithredwyd 97% o'r hediadau. O'r 23 hediad y bu'n rhaid eu canslo, canslwyd 8 am resymau technegol ac roedd 15 yn ymwneud â'r tywydd naill ai yng Nghaerdydd neu ar Ynys Môn.

Bydd y tendr newydd yn ceisio sicrhau twf ar y llwybr, hyblygrwydd o ran y ddarpariaeth a gwelliannau i'r gwasanaeth. Byddwn yn gofyn i'r farchnad ymateb drwy awgrymu'r ffyrdd gorau i gyflawni'r dyheadau hyn.

Trefniadau Diogelwch Maes Awyr Ynys Môn

Mae gwella'r trefniadau diogelwch ym Maes Awyr Ynys Môn yn faes lle y gellid sicrhau manteision. Gallai'r manteision hyn gynnwys:

- Gallu'r gweithredwr i ddefnyddio awyren fwy, a fyddai'n cludo nifer fwy o deithwyr;
- Y gallu i deithwyr gyrraedd 'yn lân' ym Maes Awyr Caerdydd a mynd yn syth i'w hediad cysylltiol yn hytrach na dod oddi ar awyren yn yr adran cyraeddiadau a gorfod mynd yn ôl drwy'r ardal wirio a diogelwch ar gyfer unrhyw deithiau i gyrchfannau eraill.

Deellir y bydd angen buddsoddiad cyfalaf ym Maes Awyr Ynys Môn ac amrywiad i'r gweithdrefnau gweithredol yn y maes awyr er mwyn cyflawni cydymffurfiaeth â threfniadau diogelwch perthnasol yr Adran Drafnidiaeth ac felly sicrhau'r manteision cysylltiedig.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ymchwilio i'r opsiwn hwn ymhellach a bydd yn ystyried a ellir gwneud unrhyw fuddsoddiad priodol ac, os felly, sut. Yn hyn o beth, byddwn yn ymgysylltu â grŵp rhanddeiliaid allweddol i gydweithio er mwyn sicrhau bod unrhyw benderfyniadau a wneir yn y dyfodol yn berthnasol i Faes Awyr Ynys Môn. Mae'r rhanddeiliaid hyn yn cynnwys Cyngor Ynys Môn, gweithredwr y maes awyr, y Weinyddiaeth Amddiffyn (RAF Fali), Maes Awyr Caerdydd, y CAA, a'r Adran Drafnidiaeth yn Llywodraeth y DU.

**ADRAN 2: Esboniad o'r sefyllfa gytundebol bresennol**

Mae'r PSO rhwng Caerdydd ac Ynys Môn wedi profi nifer o fethiannau sydd wedi cael cryn gyhoeddusrwydd ac sydd, yn fwyaf diweddar, wedi bygwth cau'r gwasanaeth ar unwaith. Er mwyn lliniaru'r bygythiad hwn, mabwysiadwyd dull gweithredu ar sail risgiau gan ddisodli'r cwmni hedfan a oedd yn methu gyda'r gweithredwr presennol, Eastern Airways. Eastern Airways oedd ein dewis cyntaf am mai hwy oedd yr ail ymgeisydd addas ym mhroses dendro mis Chwefror 2016 (enillwyd y tendr gan Van Air). Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb ffurfiol gan gwmnïau hedfan eraill o ran gweithredu contract presennol Eastern Airways.

Oherwydd yr amgylchiadau brys ac anarferol a arweiniodd at y contract gyda Eastern Airways fe wnaethom sefydlu contract treigl brys am 1 mis. Mae'r cwmni hedfan yn gweithredu dau wasanaeth y dydd rhwng Caerdydd ac Ynys Môn sy'n galluogi teithiau busnes i'r ddau gyfeiriad. Roedd y contract hwn yn caniatáu amser i Weinidogion Cymru ystyried dyfodol y PSO a lliniaru methiannau tebyg gan weithredwyr yn y dyfodol. Mae gan Weinidogion y gallu i derfynu'r contract dros dro unrhyw adeg - sef pan fydd y contract newydd ar waith i bob pwrpas.

Yn ystod y chwe mis diwethaf rydym wedi bod yn ceisio rhanddirymu'r rheoliadau diogelwch ym Maes Awyr Ynys Môn ac rydym wedi cysylltu â'r CAA a'r Adran Drafnidiaeth. Mae potensial i'r rhanddidymiad arwain at fanteision sylweddol i'r PSO, drwy alluogi i awyrennau sy'n pwyso hyd at 15 tunnell (yn hytrach na <10 tunnell) hedfan i mewn ac allan o Ynys Môn. Byddai hyn yn caniatáu i awyrennau â 30 sedd gael eu defnyddio ar y llwybr – a fyddai'n creu cynnydd o 50% yn y seddau sydd ar gael i deithwyr a fyddai, yn ei dro yn annog twf cynalidwy ac yn cyflawni'r cynnydd yn y galw gan deithwyr y mae Eastern Airways wedi'i brofi yn ystod y 12 mis diwethaf. Byddai cymeradwyo'r rhanddirymiad hwn yn galluogi i gwmnïau hedfan mwy sylweddol (Math A) gynnig am y gwasanaeth. O'r herwydd, penderfynwyd gohirio'r broses gaffael tra roeddem yn ymchwilio ymhellach i hyn.

Yn anffodus, hysbyswyd swyddogion yn ddiweddar na fydd y rhanddirymiad hwn yn cael ei ganiatáu. Er bod hyn yn siomedig iawn, mae wedi rhoi eglurder inni ac rydym yn paratoi i gaffael contract 4 blynedd newydd ar gyfer y gwasanaeth yn awr. Rhagwelir y bydd y broses gaffael yn dechrau ym mis Mehefin. Bydd y broses gaffael yn ceisio sicrhau gweithredwr hirdymor, gyda'r bwriad o sicrhau bod y dyheadau twf ar gyfer y gwasanaeth yn cael eu gwireddu. Bydd y broses gaffael yn para am o leiaf 6 mis, er mwyn cydymffurfio â'r amserlenni gorfodol. Byddwn yn hysbysu'r Pwyllgor pan fydd y contract wedi'i lansio.

# DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LYWODRAETH CYMRU

| | |
|---|---|
| **TEITL** | **Y newyddion diweddaraf am ddatblygu Rhwymedigaethau Gwasanaeth Cyhoeddus (RhGC) ym maes hedfan** |
| **DYDDIAD** | **24 Mai 2018** |
| **GAN** | **Ken Skates, Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth** |

Yn 2016, gofynnais am adolygiad trylwyr o'r Gwasanaethau Awyr yng Nghymru. Edrychwyd ar amrywiaeth eang o opsiynau, gan amrywio o ddod â'r gwasanaeth i ben yn llwyr i newid patrymau'r gwasanaeth, cynyddu'r ddarpariaeth a defnyddio awyrennau mwy. Gwnaeth yr adolygiad nifer o argymhellion ynglŷn â chadw a datblygu'r gwasanaeth er budd economi Cymru. Mae'n bwysig ein bod yn cysylltu rhanbarthau mwyaf ymylol Cymru â'n prifddinas ac ymrwymais i barhau i gefnogi'r gwasanaeth hwn yn y tymor hir.

Er mwyn i'r llwybrau a sefydlir o dan RhGC yng Nghymru lwyddo, mae angen iddo ddatblygu ac mae angen rhoi sefydlogrwydd iddo drwy sicrhau gweithredwr hirdymor. Er bod dau weithredwr wedi methu yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae gwasanaeth awyr Caerdydd -Ynys Môn wedi gweld twf o 40% yn ystod y 12 mis diwethaf, gan ddangos yn glir bod galw am y gwasanaeth a bod iddo botensial yn yr hirdymor os bydd yn cael ei redeg gan gwmni hedfan sydd wedi ennill ei blwyf ac sy'n gallu manteisio ar drefniadau sefydledig ar gyfer gwerthu tocynnau.

Mae angen bellach gynnig y gwasanaeth i'r farchnad unwaith eto. Bydd y tendr yn cael ei lansio ym mis Mehefin, gan sicrhau gweithredwr hirdymor erbyn diwedd y flwyddyn. Bydd fy swyddogion yn chwilio am weithredwr dibynadwy, profiadol, sydd wedi hen sefydlu, sydd yr un mor awyddus â ni i dyfu ac i ddatblygu'r llwybrau hedfan. Bydd hynny, yn ei dro, yn cefnogi'n dyhead i symud ymlaen at ddefnyddio awyrennau mwy, gan gynnig gwasanaethau awyr newydd o'r Gogledd yn y pen draw; gan olygu y bydd cysylltiadau gwell ar gyfer y rhanbarth cyfan.

Mae cysylltedd gyda gweddill y DU (ble y gwneir 80% o fasnach Cymru) yn ffordd bwysig o hybu ein heconomi ddomestig, yn enwedig wrth inni symud tuag at Brexit.

Ffactor arall y mae angen ei ystyried yw HS2, prosiect gan y DU y mae Llywodraeth Cymru yn parhau i'w gefnogi. Os bydd Llywodraeth y DU yn dewis yr opsiwn cywir yn Crewe ac

ar gyfer y cerbydau, bydd hynny'n cynnig cysylltedd gwell o lawer a mantais economaidd i'r Gogledd yn y dyfodol. Mae ffigurau Llywodraeth y DU ei hun yn awgrymu y gallai economi'r De fod £200 miliwn ar ei cholled o ganlyniad i HS2. Mae'n hanfodol ein bod yn dod o hyd i ffyrdd o ddiogelu economi'r De drwy wella'r cysylltiadau rhyngddo â mannau eraill.

Rydym, felly, wedi bod yn cydweithio â'r Comisiwn Ewropeaidd a swyddogion cyfatebol o fewn Llywodraeth y DU i sefydlu nifer o lwybrau hedfan newydd gan ddefnyddio Rhwymedigaethau Gwasanaeth Cyhoeddus (RhGCau). Mae gweithredwr sy'n ennill yr hawl i redeg gwasanaeth o dan RhGC yn sicrhau mai ef yn unig fydd yn cael cynnig y gwasanaeth, a hynny am gyfnod o 4 blynedd.

Mae llwybrau hedfan o dan RhGC hefyd yn esempt o Doll Teithwyr Awyr (TTA), sy'n golygu y bydd siwrneiau dwyffordd ar lwybrau domestig newydd o dan RhGC yn elwa o beidio â gorfod talu £26 o dreth a bennir gan Lywodraeth y DU – treth y cydnabu'r Comisiwn Silk y dylid ei ddatganoli i Gymru, ond treth y mae Llywodraeth y DU wedi gwrthod ei datganoli dro ar ôl tro.

Yn y ‘Cynllun Gweithredu Economaidd - Llewyrch i Bawb’, rwy’n cydnabod yr angen i gysylltu Cymru yn well â gweddill y DU. Mae cysylltedd gwell yn yr awyr yn ffordd bwysig o ddatblygu’r economi a lleihau anghydraddoldeb.

Bydd datblygu cysylltiadau newydd yn yr awyr yn cynnig opsiynau i gysylltu economi Cymru yn well gyda chanolfannau trafnidiaeth ac economaidd eraill ledled y DU, a thrwy hynny helpu buddsoddiad a busnes. Mae datblygu cysylltedd yn yr awyr yn cyfrannu at strategaeth hedfan symlach ac yn cefnogi’r egwyddorion craidd o bapur gwyrdd diweddar Strategaeth Ddiwydiannol y DU – i gefnogi a datblygu twf rhanbarthau’r DU.

Trwy gyflwyno rhwydwaith llwybrau RhGC newydd domestig, rwy’n anelu at:

I. Sicrhau bod gwasanaeth digonol ar rai llwybrau llai poblogaidd ond strategol na fyddai’n bodoli fel arall o dan amodau’r farchnad agored. Diffinio rhwymedigaethau gofynnol penodol.
II. Bod yn sail i lewyrch a chyfleoedd economaid drwy ddarparu cysylltiadau hollbwysig i fusnesau.
III. Mynd i’r afael â’r anfanteision economaidd o’r galw tymhorol a sicrhau bod gwasanaeth rheolaidd gydol y flwyddyn.
IV. Sicrhau, ble y bo hynny’n ymarferol, bod teithwyr ar y ddau ben i’r llwybr yn gallu cyflawni diwrnod o waith effeithiol ar y naill ochr neu’r llall i’r llwybr drwy gydol y flwyddyn.
V. Cynnig ateb cymesur a chost-effeithiol yn ystod y cyfnodau hyn o bwysau ar y gyllideb.
VI. Sicrhau bod y cyhoedd sy’n teithio (ei dinasyddion a’i gwesteion) yn mwynhau prisiau cystadleuol a lefel uchel o wasanaeth o ganlyniad i gystadleuaeth tendr agored. Bydd gwell cysylltiadau yn yr awyr hefyd yn cynnig manteision cymdeithasol i’r Cymry sy’n byw ledled y DU wrth deithio ‘adref’ a’i gwneud yn haws i dwristiaid gyrraedd Cymru.

Y llwybrau yr wyf wedi gofyn i'm swyddogion eu harchwilio o fewn y farchnad yw:

- Caerdydd-Manceinion
- Caerdydd-Leeds Bradford
- Caerdydd-Humberside
- Caerdydd-Glasgow (taith sy'n dychwelyd ddwywaith y dydd o gymharu ag unwaith y dydd fel sydd ar gael yn fasnachol ar hyn o bryd)
- Caerdydd – Aberdeen (taith uniongyrchol sy'n dychwelyd o gymharu â thaith anuniongyrchol sydd ar gael yn fasnachol ar hyn o bryd)
- Caerdydd – Llundain (pwysig yng ngoleuni methiant masnachol diweddar y llwybr hwn)
- Caerdydd - Newquay
- Caerdydd – Inverness
- Caerdydd – Norwich

Mae elfen o fethiant yn y farchnad wedi bodoli ar bob un o'r llwybrau hyn – efallai oherwydd nad oedd y farchnad yn cynnig teithiau yn ddigon aml i deithwyr busnes, llwybrau wedi'u cynnig ac wedi dod i ben yn y gorffennol neu lwybrau newydd sydd heb eu cefnogi o gwbl gan y farchnad yn y gorffennol.

Mae arfarniad trafnidiaeth cam 1 a ystyriodd yr effeithiau amgylcheddol a hefyd sut yr oedd polisïau'n cyd-fynd â'i gilydd wedi'i gynnal mewn perthynas â'r holl lwybrau yr ydym yn eu cynnig. Craffwyd ar yr allyriadau $CO_2$, a gwnaeth y dadansoddiadau ystyried cymariaethau rhwng teithio yn yr awyr ac ar y llawr (ee car a thrên). Gwelwyd nad oedd gwahaniaeth mawr rhwng y dulliau teithio o safbwynt yr allyriadau carbon fesul km gan deithwyr.

Hoffwn archwilio'r farchnad a gweld a fydd cyfnod o wasanaeth gan un gweithredwr yn unig am 4 blynedd, gyda manteision eithrio o'r Doll Teithwyr Awyr fydd y RhGC yn elwa ohono, yn ddigon o gymhelliad. Caiff y llwybrau newydd eu caffael drwy dendr cyhoeddus. Bydd Trafnidiaeth Cymru yn arwain y broses gaffael ac rwy'n gobeithio y bydd y gwasanaethau yn dechrau yn ystod gwanwyn 2019. Ar wahân i rhywfaint o gyllideb marchnata, nid wyf yn bwriadu cynnig unrhyw gymhorthdal ychwanegol i'r llwybrau hyn. Bydd dangoswyr cynnar yn y farchnad yn dangos a yw'r cymhellion arfaethedig yn ddigonol i nifer, os nad pob un o'r llwybrau weithredu yn y dull hwn – ond dim ond drwy broses dendro ffurfiol fyddwn yn gallu canfod hynny. Os na fydd y farchnad yn credu bod y mentrau hyn yn ddigonol ar gyfer llwybr penodol ni chaiff contract ei ddyfarnu ar ei gyfer.

Rwyf am edrych ar awydd y farchnad am y llwybrau hyn, a byddaf yn ystyried llwybrau eraill, gan gynnwys i gyrchfannau yn Ewrop, yn ogystal ag yn ôl ac ymlaen o feysydd awyr yng Nghymru os yw dyfodol y cynllun hwn i lwyddo.

Rwyf wedi ymrwymo i ddatganoli Tollau Teithwyr Awyr i Gymru. Dylai gostwng neu leihau Tollau Teithwyr Awyr ddod â'r gystadleuaeth yn ôl i feysydd awyr rhanbarthol, ac annog cwmnïau i gyflwyno llwybrau rhanbarthol newydd, gan olygu bod mwy o gystadleuaeth rhwng cwmnïau awyrennau a thrwy hynny greu mwy o ddewis i'r cyhoedd sy'n teithio.